



Gweinyddiaeth  
Cyfiawnder

# **Sicrhau cyfiawnder i ddioddefwyr**

**Ymgynghoriad ar wella profiadau  
dioddefwyr o'r system gyfiawnder**

Rhagfyr 2021

CP 574



Gweinyddiaeth  
Cyfiawnder

## **Sicrhau cyfiawnder i ddioddefwyr**

### Ymgynghoriad ar wella profiadau dioddefwyr o'r system gyfiawnder

Cyflwynwyd i'r Senedd gan y Dirprwy Brif Weinidog, yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder drwy Orchymyn Ei Mawrhydi

Rhagfyr 2021



© Hawlfraint y Goron 2021

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn dan amodau Trwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i [nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3](http://nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3)

Lle'r ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth sydd o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint cysylltiedig.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn [www.gov.uk/official-documents](http://www.gov.uk/official-documents)

Dylid anfon unrhyw ymholiad ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn [victimsbillconsultation@justice.gov.uk](mailto:victimsbillconsultation@justice.gov.uk)

ISBN 978-1-5286-3016-0

E02673715                      12/21

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o ffeibrau wedi eu hailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Cyf. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

# Gwybodaeth am yr ymgynghoriad hwn

**At:** Mae'r ymgynghoriad hwn yn agored i'r cyhoedd. Byddai gennym ddi-ddordeb arbennig mewn clywed gan ddioddefwyr troseddau, sefydliadau sy'n cynrychioli dioddefwyr, yr heddlu, ymarferwyr cyfiawnder troseddol, darparwyr gwasanaethau, gweithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd, Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, awdurdodau lleol a phartneriaethau diogelwch cymunedol.

**Hyd:** O 9 Rhagfyr 2021 tan 3 Chwefror 2022

**Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau i gael y papur mewn fformat gwahanol) at:** Victim and Witness Policy and Strategy Team  
Ministry of Justice  
102 Petty France  
London SW1H 9AJ  
E-bost: [victimsbillconsultation@justice.gov.uk](mailto:victimsbillconsultation@justice.gov.uk)

**Sut i ymateb:** Anfonwch eich ymateb erbyn 3 Chwefror 2022 at:  
Victim and Witness Policy and Strategy Team  
Ministry of Justice  
102 Petty France  
London SW1H 9AJ  
E-bost: [victimsbillconsultation@justice.gov.uk](mailto:victimsbillconsultation@justice.gov.uk)

**Ffyrdd ychwanegol i chi roi eich barn:** Byddwn hefyd yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau ledled Cymru a Lloegr yn ystod y cyfnod ymgynghori er mwyn ceisio barn pobl.

**Papur ymateb:** Cyhoeddir ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn maes o law yn: <https://consult.justice.gov.uk/>

# Cynnwys

Rhagair	3
Cyflwyniad	6
Pennod 1 – Bodloni disgwyliadau diodefwyr	13
Pennod 2 – Gwella goruchwyliaeth ac ysgogi gwell perfformiad	23
Pennod 3 – Cynorthwyo diodefwyr troseddu	41
Pennod 4 – Gwella Cymorth Eirioli	54
Ystyriaethau cydraddoldeb	63
Atodiad A – Asiantaethau sydd â chyfrifoldebau i ddarparu gwasanaethau o dan y Cod Diodefwyr	64
Gwybodaeth amdanoch chi	65
Manylion cyswllt/Sut i ymateb	69
Egwyddorion ymgynghori	71



# Rhagair

Bob blwyddyn, bydd un o bob pum person yn ein gwlad yn dioddef trosedd. Bydd rhai'n cael eu drysu gan yr hyn sydd wedi digwydd iddyn nhw. Bydd eraill yn cael eu gadael i roi darnau eu bywyd yn ôl at ei gilydd. Dylai pob diodefwyr deimlo'n hyderus i fwrw ymlaen i gael cyfiawnder. Mae gennym ni ddyletswydd foesol i warchod y diodefwyr troseddau hyn. Dyna'r peth iawn i'w wneud.

Mae hefyd yn hanfodol ar lefel ymarferol, er mwyn gwneud yn siŵr bod gennym y system gyfiawnder fwyaf effeithiol. Drwy roi gwybod am droseddau i'r heddlu, ymgysylltu ag erlynywyr i wneud yn siŵr bod eu tystiolaeth yn cael ei chlywed yn y llys, maent yn galluogi asiantaethau cyfiawnder troseddol i sicrhau euogfarnau a gwneud ein cymunedau'n fwy diogel.

Mae gormod o ddiodefwyr yn teimlo nad yw'r system yn sicrhau cyfiawnder iddynt. Mae gormod o bobl yn teimlo bod y system yn eu gadael i lawr, a gall hynny ychwanegu at boen a diodeffaint y trosedd wreiddiol. O ganlyniad, mae nifer pryderus o ddiodefwyr yn ymddieithrio eu hunain yn llwyr o'r broses gyfiawnder, sy'n golygu nad yw cyfiawnder yn cael ei sicrhau yn yr achosion hynny, ac mae'r cyhoedd yn cael eu gadael yn agored i droseddwyr sy'n rhydd i barhau i droseddu.

Mae'n rhaid i hyn newid, ac mae'r Llywodraeth yn benderfynol o wella'r gwasanaeth a'r cymorth a roddir i ddiodefwyr o'r adeg y mae trosedd yn cael ei chyflawni, hyd eu profiad yn y llys. Rwyf am warantu bod diodefwyr yn ganolog i'r system cyfiawnder troseddol. Yn hytrach na theimlo'n ymylol i'r broses, rydym am i ddiodefwyr gael eu cefnogi fel eu bod yn gallu cyfrannu'n briodol yn ystod pob cam.

Mae pum elfen bwysig yn perthyn i'n cynllun ar gyfer darparu gwasanaeth o'r radd flaenaf i ddiodefwyr.

**Yn gyntaf, mae angen i ni roi mwy o lais i ddiodefwyr yn y broses cyfiawnder troseddol.** Rydym am sicrhau bod asiantaethau'n cyfathrebu'n well â diodefwyr, felly rydym yn ymgynghori ar y gofyniad i'r erlynydd mewn achos, neu fathau penodol o achosion, gyfathrebu'n uniongyrchol â diodefwyr cyn penderfynu cyhuddo rhywun sydd dan amheuaeth ac eto cyn treial. Rydym hefyd am gryfhau llais cymunedau drwy wneud darpariaeth benodol ar gyfer datganiadau effaith ar y gymuned yn y Cod a'r Gyfraith Diodefwyr fel bod eu defnydd yn cael ei brif ffrydio mewn achosion priodol a bod yr heddlu, GEG a'r llys yn deall y graddau ehangach y gall troseddu ddifetha cymdogaethau cyfan.

**Yn ail, mae angen i ni wneud perfformiad ein hasiantaethau cyfiawnder troseddol yn fwy tryloyw.** Rydym eisiau gwneud cyfiawnder troseddol yn fwy agored nag erioed, er mwyn i ni allu mesur a rheoli'r hyn sy'n bwysig, deall y problemau yn y system, a mynd i'r afael â nhw yn fwy effeithiol. Ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn, rwy'n cyhoeddi'r cardiau sgorio cyfiawnder troseddol cenedlaethol cyntaf ar wahân er mwyn i ni allu gweld ble mae diodeffwyr yn cael eu methu yn y system a chymryd camau i'w datrys. Byddant yn dod â data ynghyd i roi darlun o berfformiad ar draws y system, gan gynnwys mesurau sy'n bwysig i ddiodeffwyr, fel faint o amser mae'n ei gymryd i achosion symud drwy'r system cyfiawnder troseddol. Byddant yn codi safonau fel y gallwn weld sut mae'r system yn cyflawni ar gyfer diodeffwyr ac yn gallu lledaenu'r arferion gorau. Yn y flwyddyn newydd, byddwn yn cyhoeddi cardiau sgorio lleol – er mwyn cymharu perfformiad yn ddaearyddol.

Yn drydydd, mae angen i ni sicrhau bod llinellau atebolrwydd clir ar gyfer yr adegau pan na fydd diodeffwyr yn derbyn y lefel briodol o wasanaeth. Byddwn yn ymgorffori'r Cod Diodeffwyr yn y gyfraith er mwyn anfon neges glir ynghylch yr hyn y gall ac y dylai diodeffwyr ei ddisgwyl yn rhesymol gan y system cyfiawnder troseddol. Felly mae'n rhaid i ni hefyd ddal yr asiantaethau perthnasol i gyfrif am ddarparu ar gyfer diodeffwyr. Bwriadwn gryfhau mecanweithiau goruchwylio a'u ffocws ar ddiodeffwyr yn gyffredinol, o weithdrefnau cwyno i gyfundrefnau arolygu wedi'u hatgyfnerthu'n genedlaethol, a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu yn lleol. Bydd hynny'n rhoi dull mwy effeithiol o unioni cam i ddiodeffwyr, pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le, ac yn gwella atebolrwydd i'r rhai sy'n gyfrifol.

Yn bedwerydd, rydym am gefnogi diodeffwyr i ailadeiladu eu bywydau drwy wasanaethau proffesiynol a hygyrch, a sicrhau bod troseddwyr yn talu mwy i gefnogi'r gwasanaethau hyn. O dan ein cynigion, byddwn yn cynyddu'r gordal diodeffwyr, fel bod troseddwyr yn talu miliynau o bunnoedd yn fwy tuag at wasanaethau hanfodol i ddiodeffwyr. Bydd hyn yn golygu bod troseddwyr yn talu mwy i wneud iawn am eu troseddau ac yn helpu diodeffwyr i ddod dros yr hyn sydd wedi digwydd iddynt. Rydym am wella'r gwaith o gomisiynu a chydlynu gwasanaethau cymorth, a chryfhau'r gefnogaeth sydd ar gael gan Gynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol (ISVAs) a Chynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig (IDVAs), sy'n gwneud diodeffwyr bron i 50% yn fwy tebygol o barhau i ymgysylltu â'r broses cyfiawnder troseddol.

**Ac yn olaf, rydym am sicrhau bod adnoddau gwell i warchod diodeffwyr ac erlyn troseddwyr.** Rydym wedi dechrau gwella profiad diodeffwyr mewn treialon, drwy gyflwyno croesholiad wedi'i recordio ymlaen llaw (a elwir yn Adran 28) ar gyfer diodeffwyr sy'n agored i niwed. Drwy wneud hynny, gall y rhai sydd eisiau gwneud hynny, roi tystiolaeth yn gynharach a'r tu allan i ystafell y llys, yn amodol ar ddisgresiwn barnwrol – er mwyn gwneud y broses yn llai trawmatig. Rwy'n bwriadu ehangu'r ddarpariaeth hon ar gyfer diodeffwyr caethwasiaeth fodern a throseddau rhywiol ym mhob Llys y Goron ledled y wlad, gyda'r flaenoriaeth benodol i sicrhau bod unrhyw un sydd wedi diodeff trais rhywiol, yn amodol ar gael caniatâd y llys, yn cael cyfle i recordio tystiolaeth heb orfod



cymryd rhan mewn treial byw. Mae gan hyn y potensial i gynyddu nifer yr erlyniadau llwyddiannus a sicrhau pleon euog yn gynharach. Byddwn yn cael ein harwain gan werthusiad parhaus o ddata gan lysoedd sydd eisoes yn treialu adran 28, a byddwn yn gweithio'n ofalus gyda'r farnwriaeth ac asiantaethau cyfiawnder troseddol i'w gyflwyno ledled y wlad.

Bydd cyflwyno Bil Dioddefwyr yn bodloni'r ymrwymiad yn ein manifesto, ac yn sicrhau'r cyfiawnder mae dioddefwyr yn ei haeddu wrth i ni ddychwelyd yn well, yn gryfach ac yn decach ar ôl y pandemig.

### **Y Gwir Anrhydeddus Dominic Raab AS**

Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder

# Cyflwyniad

Yn sgil pob trosedd, bydd diodefwr sy'n gorfod delio â'r canlyniadau – rhai corfforol, emosiynol, seicolegol ac ariannol.<sup>1</sup> Weithiau bydd yr effeithiau hyn yn para gydol oes. Yn 2019/20, amcangyfrifwyd bod 6.6% o bobl ifanc 10-15 oed ac oddeutu un o bob pump oedolyn (19.3%) yng Nghymru a Lloegr wedi dioddef oherwydd troseddau.<sup>2</sup>

Beth bynnag yw natur ac amgylchiadau'r drosedd mae diodefwr wedi'i brofi, dylent roi gwybod bod y cymorth cywir ar gael ac, os byddant yn rhoi gwybod am drosedd, y bydd y system cyfiawnder troseddol yn sicrhau canlyniad teg ac amserol. Rhaid diwallu eu hanghenion, a rhaid clywed eu lleisiau. Mae cymdeithas yn dibynnu ar hyder diodefwr yn y system cyfiawnder troseddol i alluogi'r heddlu ac erlynwyr i gyflawni eu rôl o ymchwilio i droseddau ac erlyn achosion. Heb hyn, ni fyddwn byth yn gallu ennill y frwydr yn erbyn trosedd.

Mae'r Cod Diodefwr yn rhoi'r hawl i ddiodefwr "gael [eu] trin gyda pharch, urddas, sensitifwydd, tosturi a chwarteisi".<sup>3</sup> Gwaetha'r modd, nid yw'r holl ddiodefwr yn cael eu trin gydag urddas yn y cyswllt hwn, nac yn cael y gwasanaeth o ansawdd da y maent yn ei haeddu wrth gymryd y cam dewr o hysbysu am drosedd neu ofyn am gymorth i ddelio â'i heffaith.<sup>4</sup> Fel cymdeithas, rhaid i ni wneud yn well.

Yr ymgynghoriad hwn yw'r cam pwysig cyntaf tuag at 'Gyfraith Diodefwr' hanesyddol – Bil a fydd yn adeiladu ar sail y Cod Diodefwr i wella profiadau diodefwr yn sylweddol yn y system cyfiawnder troseddol. Bydd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i sicrhau eu

---

<sup>1</sup> Cafwyd y diffiniad o 'ddiodefwr/diodefwr' o God Ymarfer y Llywodraeth ar gyfer Diodefwr Troseddau; Y Cod Ymarfer ar gyfer Diodefwr Troseddau yng Nghymru a Lloegr a deunyddiau ategol gyda gwybodaeth i'r cyhoedd - GOV.UK (2021) <https://www.gov.uk/government/publications/the-code-of-practice-for-victims-of-crime>, sy'n cydnabod bod y termau 'achwynydd' a 'goroeswr' yn cael eu defnyddio'n aml hefyd yn y system cyfiawnder troseddol. Mae 'diodefwr' yn berson sydd wedi dioddef niwed, yn cynnwys niwed corfforol, meddyliol neu emosiynol neu golled economaidd a achoswyd yn uniongyrchol gan drosedd, neu berthynas agos (neu lefarydd a enwebwyd dros y teulu) i berson yr oedd ei farwolaeth wedi'i hachosi'n uniongyrchol gan drosedd.

<sup>2</sup> Ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2019 a Mawrth 2020. Troseddu yng Nghymru a Lloegr: tablau Atodiad, tabl crynodeb 2 a thabl A11 – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/datasets/crimeinenglandandwalesappendixables>

<sup>3</sup> Y Cod Ymarfer ar gyfer Diodefwr Troseddau yng Nghymru a Lloegr a deunyddiau ategol gyda gwybodaeth i'r cyhoedd – GOV.UK (Ebrill 2021) <https://www.gov.uk/government/publications/the-code-of-practice-for-victims-of-crime>

<sup>4</sup> Ystadegau diodefwr, y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2019: gwasanaethau i ddiodefwr, cyfiawnder adferol, a gwybodaeth, cyngor a chymorth – Comisiynydd Diodefwr, <https://victimscommissioner.org.uk/published-reviews/victims-statistics-year-ending-march-2019-victims-services-restorative-justice-and-information-advice-support/>

bod yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt, p'un ai a ydynt yn rhoi gwybod am drosedd ai peidio. Rydym eisiau deall sut y gellir rhoi gwell cymorth i ddiodefwr fel rhan o'r broses cyfiawnder troseddol, ac ar ei hôl.

Bydd y ddeddfwriaeth a geir o ganlyniad yn Fil ar gyfer holl ddiodefwr troseddu. Dyma fydd congflaen ein gwaith ar draws y llywodraeth i sicrhau bod anghenion diodefwr wrth galon y system cyfiawnder troseddol.

## Ein gweledigaeth i helpu diodefwr

Ein gweledigaeth yw un lle y bydd newid mewn diwylliant fel bod profiadau diodefwr yn ystyriaeth ganolog yn y ffordd y mae ein cymdeithas yn meddwl am droseddu ac yn ymateb iddo. Rydym am i bob trosedd a gofnodir gael ei drin fel cyfle i atal rhagor o droseddau. Rydym am sicrhau bod y Bil hwn yn mynd i'r afael â'r pethau y mae diodefwr yn poeni amdanynt fwyaf. Rydym am sicrhau bod yr holl ddiodefwr:

- yn derbyn y driniaeth a'r gwasanaeth sydd eu hangen arnynt ac elwa o ymgysylltu cyson ac o ansawdd uchel ag asiantaethau cyfiawnder troseddol er mwyn sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed ar bob cam
- gwybod bod llwybr clir os nad ydynt yn derbyn gwasanaeth o safon, a bod goruchwyliaeth gyson o'r sefydliadau sydd yno i'w helpu nhw
- yn cael eu cefnogi i ailadeiladu eu bywydau a dod dros effeithiau troseddu drwy wasanaethau hygyrch, proffesiynol ac wedi'u cydlynu sy'n derbyn cyllid drwy'r Gordal Dioddefwr

Mae'r Cynllun Gorchfygu Troseddu yn amlinellu gweledigaeth y llywodraeth hon ar gyfer lleihau troseddu, llai nifer diodefwr troseddu a chymdogaethau mwy diogel, a chynllun i'w gyflawni. Roedd hyn yn cynnwys cynlluniau i leihau lladdiadau, trais difrifol a throseddau yn y gymdogaeth, amlygu niwed cudd (fel cam-drin domestig a thrais rhywiol), meithrin gallu a chapasiti i ddelio â thwyll a throseddau ar-lein, a rhoi darlun clir i'r cyhoedd o berfformiad y system cyfiawnder troseddol drwy gardiau sgorio.<sup>5</sup> Bydd y Bil Dioddefwr yn chwarae rhan hollbwysig wrth gyflawni'r nodau hyn, drwy sicrhau bod diodefwr yn cael eu hymgysylltu'n gywir drwy'r system gyfiawnder, eu grymuso i ddod ymlaen a bod yn hyderus y bydd troseddwr yn wynebu cyfiawnder.

Mae COVID-19 wedi cymhlethu ymdrech y Llywodraeth i wella'r system gyfiawnder ar gyfer diodefwr a lleihau troseddu. O ganlyniad i'r pandemig, roedd llai o achosion wedi cyrraedd y llys ac roedd diodefwr yn gorfod aros yn hirach i weld cyfiawnder yn cael ei wneud. Ein huchelgais yw unioni hyn, gan adfer y llysoedd fel y bydd diodefwr yn gweld gwelliannau pendant mewn amseroedd aros fel ein bod yn cadw ein haddewid i sicrhau

---

<sup>5</sup> Cynllun Gorchfygu Troseddu – GOV.UK (Gorffennaf 2021), t.38 [https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/1015382/Crime-plan-v10.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1015382/Crime-plan-v10.pdf)

cyfiawnder buan. Bydd y Bil Dioddefwyr yn rhan hanfodol o waith y Llywodraeth i ailgodi system gyfiawnder sy'n well.

## Beth rydym wedi'i wneud hyd yma

Mae'r llywodraeth hon wedi gweithio'n ddiflino i gefnogi diodefwyr yn well. Drwy fuddsoddi ychwanegol, deddfwriaeth bwrsasol a gwell ffyrdd o weithio rhwng partneriaid gweithredol, rydym wedi sicrhau bod anghenion diodefwyr wedi dod yn flaenoriaeth ac wedi cael sylw cyson.

Strategaeth Dioddefwyr 2018 oedd y strategaeth drawslywodraethol a thrawsasiantaethol gyntaf erioed a oedd yn ystyried y ffordd y mae diodefwyr wedi diodef trosedd ac yn profi'r broses cyfiawnder troseddol, gan nodi gweledigaeth na ddylai taith diodefwyr – beth bynnag fo'r llwybr a'r canlyniad – olygu ei fod yn ddiodefwyr y broses, yn ogystal â'r drosedd.

Mae'r llywodraeth hon wedi parhau â gwaith hollbwysig y strategaeth, gan wneud cynnydd sylweddol ar wireddu'r weledigaeth hon. Rydym wedi:

- **cryfhau'r Cod Dioddefwyr** drwy ganolbwyntio ar 12 hawl allweddol fel ei bod yn gliriach i ddiodefwyr beth yw'r safon sylfaenol y gallant ddisgwyl ei chael gan sefydliadau
- **buddsoddi'n sylweddol mewn gwasanaethau cymorth i ddiodefwyr**, gan wario £300 miliwn eleni ar draws y llywodraeth a sicrhau £185 miliwn y flwyddyn erbyn 2024/25 ar gyfer gwasanaethau a ariennir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder
- **gwella profiad y llys i ddiodefwyr**, gan gynnwys cyflwyno croesholiad wedi'i recordio ymlaen llaw (sy'n cael ei alw'n Adran 28) ar gyfer tystion agored i niwed, a threialu ymhellach mewn saith Llys y Goron ar gyfer achwynwyr am droseddau rhyw a chaethwasiaeth fodern gyda'r nod o ehangu ymhellach
- **cyflwynwyd nifer o droseddau newydd mewn meysydd allweddol** fel tynnu lluniau i fyny sgertiau menywod, tagu nad yw'n angheuol a phornograffi dial
- **cynigiwyd cosbau llymach ar gyfer y troseddwr gwaethaf** ym Mil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd, gan gynnwys diddymu rhyddhau awtomatig hanner ffordd drwy'r ddedfryd ar gyfer cohort ychwanegol o droseddwr rhywiol a threisgar difrifol, gan ategu newidiadau a oedd eisoes wedi'u gwneud drwy ddeddfu y flwyddyn ddiwethaf
- **rhedeg ymgyrchoedd i roi gwybodaeth hollbwysig i'r cyhoedd**, yn cynnwys yr ymgyrch 'It Still Matters' ar drais rhywiol a chamdriniaeth a'r ymgyrch 'Dydych chi ddim ar eich pen eich hun' ar gam-drin domestig
- **arwain sgysiau rhyngwladol ag arweinwyr y byd** yn cynnwys rhai am droseddau sy'n gwneud niwed mawr yn Uwchgynhadledd y G7 ym Mehefin 2021
- sefydlu Tasglu Troseddu a Chyfiawnder o dan gadeiryddiaeth y Prif Weinidog i helpu i leihau troseddu a gwella canlyniadau i ddiodefwyr

- **cyhoeddi adolygiad hollgynhwysol o dreisio a dechrau cyflawni'r cynllun gweithredu** ar gyfer rhaglen waith i wella pob cam yn y broses ar gyfer diodefwr trais rhywiol, a chynyddu nifer yr achosion lle gwneir cyhuddiad o'r lefel isel bresennol er mwyn sicrhau cyfiawnder i ddiodefwr
- **pasio Deddf Cam-drin Domestig 2021**, a fydd yn helpu i ddiogelu diodefwr a'u plant a dod â throeddwr o flaen eu gwell
- **cyhoeddi strategaethau allweddol i gynorthwyo diodefwr troseddau penodol**, yn cynnwys y Strategaeth Mynd i'r Afael â Cham-drin Plant yn Rhywiol, y Strategaeth Anabledd Genedlaethol a'r Strategaeth Mynd i'r Afael â Thrais yn Erbyn Menywod a Merched.<sup>6 7 8</sup>

Ni fydd y Bil Diodefwr sydd i ddod yn gweithredu ar ei ben ei hun. Bydd yn un rhan o gydymdrech i wella'r system cyfiawnder troseddol i ddiodefwr troseddu.

Un o brif elfennau'r gwaith hwn yw cardiau sgorio newydd y system cyfiawnder troseddol. Mae'r rhain yn dod â data at ei gilydd i roi darlun traws-system o berfformiad. Bydd y cardiau sgorio'n mesur profiad diodefwr drwy edrych ar ymgysylltu â diodefwr ar bob cam o'r system – o arestio i'r cyhuddiad, ac ymlaen i'r llys. Bydd y cardiau sgorio hefyd yn mesur pethau eraill sy'n bwysig i ddiodefwr, gan gynnwys faint o amser y mae'n ei gymryd i ymchwilio i achosion a gwneud cyhuddiad, a faint o amser y mae achosion yn aros yn y llysoedd cyn i'r treial gael ei gynnal. Bydd y cardiau sgorio yn sicrhau tryloywder. Byddant yn ein galluogi i nodi lle mae angen i bethau wella, a dysgu o feysydd lle mae pethau'n gweithio'n dda. Bydd y cardiau sgorio cyntaf, sy'n rhoi darlun cenedlaethol, yn cael eu cyhoeddi ym mis Rhagfyr 2021 a bydd cardiau sgorio rhanbarthol yn cael eu cyhoeddi ddechrau 2022.

Bydd Adran 28 yn rhan bwysig o'n gwaith i gefnogi diodefwr. Rydym yn cydnabod bod recordio tystiolaeth ymlaen llaw yn gallu helpu i wella profiad y diodefwr, ac efallai ei bod yn well ganddynt roi eu tystiolaeth yn gynharach yn y broses a'r tu allan i ystafell y llys. Dyna pam ein bod wedi ymrwmo i ymestyn darpariaeth Adran 28 i sicrhau bod achwynwyr mewn troseddau rhywiol a chaethwasiaeth fodern, lle gwnaed cais llwyddiannus gan yr Eryniaeth ac yn amodol ar ddisgresiwn barnwrol, yn cael recordio eu croesholiad ymlaen llaw ym mhob Llys y Goron ledled y wlad.

Rydym yn cymryd y camau nesaf sydd eu hangen i fwrw ymlaen â'r gwaith o gyflwyno hyn yn llawn. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid yn y system cyfiawnder troseddol i wneud y

<sup>6</sup> Tackling Child Sexual Abuse Strategy – GOV.UK (Ionawr 2021)  
<https://www.gov.uk/government/publications/tackling-child-sexual-abuse-strategy>

<sup>7</sup> National Disability Strategy (Gorffennaf 2021)  
[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/1006098/National-Disability-Strategy\\_web-accessible-pdf.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1006098/National-Disability-Strategy_web-accessible-pdf.pdf)

<sup>8</sup> Tackling Violence Against Women and Girls Strategy – GOV.UK (Gorffennaf 2021)  
<https://www.gov.uk/government/publications/tackling-violence-against-women-and-girls-strategy>

newidiadau gweithredol angenrheidiol i sicrhau bod Adran 28 ar gael ym mhob Llys y Goron cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl.

Rydym hefyd yn gwneud cynnydd ar nifer o faterion a chynlluniau gan gynnwys y canlynol:

- targedu a gwella'r gefnogaeth i ddiodefwr amrywiaeth o wahanol fathau o droseddu a phrofiadau - er enghraifft, drwy strategaeth newydd ar gam-drin domestig i ategu'r Ddeddf Cam-drin Domestig 2021 hanesyddol, strategaeth newydd i fynd i'r afael â throseddau casineb, strategaeth newydd i fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern ac ystyried gwell ffyrdd i ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol drwy ymrwymadau'r Cynllun Gorchfygu Troseddu
- cyflawni strategaeth pum mlynedd GIG Lloegr ar gyfer gwasanaethau cam-drin ac ymosodiadau rhywiol integredig ar sail trawma<sup>9</sup>

## **Ble mae angen i ni fynd gam ymhellach – yr ymgynghoriad hwn**

Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol, ond rydym yn gwybod bod problemau'n parhau ac mae angen i ni fynd yn bellach i wireddu ein gweledigaeth. Credwn y bydd deddfwriaeth a'r gwaith o'i chwmpas yn rhan annatod o'r ateb i ddelio â rhai o'r heriau a wynebwn.

Ymgynghoriad agored yw hwn sy'n ceisio casglu gwybodaeth a data am brofiadau diodefwr o'r system gyfiawnder a'u gwybodaeth amdani er mwyn darparu tystiolaeth ar gyfer y Bil a'r gwaith o'i gwmpas. Byddwn yn ystyried y rhain yn ofalus ac yn ymgysylltu â diodefwr, eu teuluoedd, y rheini sy'n eu cynorthwyo ac arbenigwyr eraill. Byddwn hefyd yn ymgynghori â phartneriaid ym maes cyfiawnder troseddol, eu hasiantaethau, y farnwriaeth a gwahanol fathau o weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda diodefwr bob dydd.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ystyried sut y gallwn wneud gwelliannau pendant i brofiad diodefwr o'r system cyfiawnder troseddol a'u hyder ynddi, a'r gefnogaeth y byddant yn ei chael. Rydym yn ymgynghori ar y materion sy'n wirioneddol bwysig i ddiodefwr, gan ganolbwyntio ar y canlynol:

- **Beth ddylai diodefwr ei ddisgwyl:** rydym yn ymgynghori ar sut i ymgorffori'r Cod Diodefwr yn y gyfraith, gan anfon neges glir bod yn rhaid i'r system gyfiawnder gyflawni ar gyfer diodefwr. Rydym yn ystyried a ddylid cryfhau'r hyn y dylai diodefwr ei ddisgwyl mewn meysydd allweddol, a sut i'w gryfhau – yn enwedig sut mae Gwasanaeth Erlyn y Goron, yr heddlu ac asiantaethau eraill yn cyfathrebu â

---

<sup>9</sup> Strategic direction for sexual assault and abuse services; Lifelong care for victims and survivors, 2018-2023 – NHS England (Ebrill 2018) <https://www.england.nhs.uk/wp-content/uploads/2018/04/strategic-direction-sexual-assault-and-abuse-services.pdf>

dioddefwyr, sut gallai diodefwyr gymryd rhan yn y broses parôl a sut i brif ffrydio defnydd o Ddatganiadau Effaith ar y Gymuned mewn achosion priodol.

- **Perfformiad ac atebolrwydd:** mae asiantaethau cyfiawnder troseddol yn gweithio'n galed ar ran diodefwyr. Ond rydym yn gwybod nad yw'r holl ddiodefwyr yn derbyn y gwasanaeth y mae hawl ganddynt i'w dderbyn yn gyson, ac mae angen gwneud mwy i sicrhau bod y Cod Diodefwyr yn cael ei gymhwyso'n gyffredinol. Mae'r strwythurau i fonitro'r Cod Diodefwyr yn dameidiog ac yn annigonol. Credwn fod angen fframwaith goruchwyllo cryfach er mwyn i asiantaethau gael eu dal yn fwy atebol am ddarparu gwasanaeth o safon i ddiodefwyr. Rydym yn edrych yn fanwl ar rôl gwahanol fecanweithiau goruchwyllo i weld lle gellir gwneud gwelliannau. Bydd hyn yn adeiladu ar waith y cardiau sgorio cyfiawnder troseddol, a fydd yn gwella tryloywder ac yn helpu i wella perfformiad ar draws y system gyfan. Rydym hefyd yn edrych i weld sut gallwn ni ddefnyddio adborth diodefwyr yn well er mwyn ysgogi gwelliannau, yn enwedig drwy archwilio'r defnydd o arolygon a chasglu data.
- **Y Gordal Diodefwyr:** rydym yn ymgynghori ar godiadau pellach i sicrhau bod troseddwr yn cymryd mwy o gyfrifoldeb dros gost cefnogi diodefwyr, ac i atgyfnerthu'r cyllid ar gyfer gwasanaethau i ddiodefwyr.
- **Gwasanaethau cymorth yn y gymuned:** rydym eisiau deall sut i wella agweddau ar wasanaethau cymorth yn y gymuned (hynny yw, gwasanaethau a ddefnyddir gan y rheini nad ydynt yn byw mewn lloches neu lety diogel), yn enwedig ar gyfer y rheini sy'n diodef o ganlyniad i droseddau trawmatig sydd yn aml yn guddiedig fel cam-drin domestig, trais rhywiol a mathau eraill o drais difrifol. Mae effeithiau'r troseddau hyn ar ddiodefwyr yn amlwg yn ddifrifol ac rydym am wneud yn siŵr eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n llawn. Rydym yn edrych yn fanwl ar gomisiynu a chydlynu gwasanaethau yn y gymuned.
- **Gwell cymorth eirioli:** rydym yn edrych ar ffyrdd o wella'r gefnogaeth gan eiriolwyr annibynnol i ddiodefwyr troseddau trawmatig sy'n aml yn gudd er mwyn eu helpu i wella ac i barhau i ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol.

## Gweinyddiaethau datganoledig

Mae'r meysydd sy'n cael eu harchwilio yn y ddogfen ymgynghori hon ar y papur gwyrdd yn gymwys yn gyffredinol i Loegr neu i Gymru a Lloegr yn unig, gan gynnwys rhai sy'n ymwneud ag iechyd a gofal, addysg ac awdurdodau lleol sydd yn faterion datganoledig yng Nghymru.

Wrth i ni fwrw ymlaen â phhecyn o gynigion ar gyfer deddfwriaeth a chynigion eraill, byddwn yn parhau i drafod y rhain â Llywodraeth Cymru. Yn y ffordd arferol, bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ceisio cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer unrhyw fesurau deddfwriaethol a all effeithio ar neu ddod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru. Y bwriad yw y bydd unrhyw ddeddfwriaeth a geir o ganlyniad yn gymwys i Gymru ac i Loegr, heblaw am faterion iechyd a chymdeithasol datganoledig a fydd yn gymwys i

Loegr yn unig. Yn ystod y cyfnod ymgynghori, bwriadwn ymgysylltu â dioddefwyr, partneriaid ym maes cyfiawnder troseddol a sefydliadau'r trydydd sector yng Nghymru i sicrhau ein bod yn clywed eu lleisiau ac yn deall eu barn am y ffordd y bydd y deddfwriaeth hon yn effeithio'n benodol ar Gymru.

Yn gyffredinol, mae'r materion sydd dan sylw yn yr ymgynghoriad hwn wedi cael eu datganoli i Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon. Er hynny, gwahoddir unigolion a sefydliadau ledled y DU i ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Byddwn yn parhau i drafod â Senedd yr Alban ac Adran Gyfiawnder Gogledd Iwerddon a ddylai unrhyw fesurau deddfwriaethol fod yn gymwys hefyd i'r Alban ac i Ogledd Iwerddon, yn y drefn honno, ar ôl pasio cynnig cydsyniad deddfwriaethol lle bo'n briodol.

Mae papur ymgynghori Saesneg ar gael yn <https://consult.justice.gov.uk/victim-policy/delivering-justice-for-victims>



# Pennod 1 – Bodloni disgwyliadau diodefwr

## Ein gweledigaeth

Ein gweledigaeth yw un lle y bydd newid mewn diwylliant fel bod profiadau diodefwr yn ystyriaeth ganolog yn y ffordd y mae ein cymdeithas yn meddwl am droseddu ac yn ymateb iddo. Rydym am sicrhau bod y system cyfiawnder troseddol yn cyflawni ar gyfer diodefwr, fel bod pob diodefwr yn cael ei drin ag urddas ac yn cael y lefel o wasanaeth y mae'r Cod Diodefwr ('y Cod') yn mynnu.<sup>10</sup>

Rydym am i bob gweithiwr proffesiynol ar draws y system cyfiawnder troseddol a thu hwnt ddeall yr hyn sy'n ofynnol ganddynt a darparu gwasanaeth o safon uchel. Ac rydym am i bob diodefwr wybod pa driniaeth a gwasanaethau y dylent eu disgwyl.

Ein nod yw grymuso diodefwr ac rydym am iddynt wybod pa mor bwysig yw eu rôl o ran dod â throseddwr o flaen eu gwell. Rydym am iddynt gael y wybodaeth ddiweddaraf ar adegau allweddol drwy gydol yr achos, ac i'w lleisiau gael eu clywed a'u gwreiddio yn y system cyfiawnder troseddol. Rydym yn bwriadu defnyddio'r Bil Diodefwr i ymgorffori egwyddorion allweddol y Cod mewn deddfwriaeth sylfaenol, gan roi arwydd clir bod yn rhaid i'r system gyfiawnder gyflawni ar gyfer diodefwr (mae Pennod 2 yn trafod cryfhau'r ffordd y bydd y ddarpariaeth hon yn cael ei dal yn atebol), a byddwn yn gofyn am farn ar ddisgwyliadau allweddol pellach.

Yn y bennod hon rydym yn gofyn am farn ar y canlynol:

- **disgwyliadau presennol ar gyfer diodefwr (y Cod)** - ystyried ein hymrwymiad i ymgorffori'r Cod yn y gyfraith, a sut i sicrhau bod pob gweithiwr proffesiynol a phob diodefwr yn ymwybodol o'r hyn a ddisgwylir ar gyfer diodefwr
- **disgwyliadau newydd ar gyfer diodefwr** - ystyried a ddylid cryfhau prosesau i sicrhau bod diodefwr yn cael eu clywed a'u hysbysu ar adegau allweddol, yn benodol cyfathrebiadau gan yr heddlu, GEG ac asiantaethau eraill, ymgysylltiad diodefwr yn y broses parôl, defnyddio Datganiadau Effaith ar y Gymuned a'r trefniadau ar gyfer y rhai sy'n diodefwr troseddau gan unigolion ag anhwylder meddwl

---

<sup>10</sup> Cod Diodefwr – GOV.UK (Ebrill 2021), t.4, [https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/974376/victims-code-2020.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/974376/victims-code-2020.pdf)

## Disgwyliadau presennol ar gyfer diodefwr: y Cod

### Y cefndir a'r sefyllfa bresennol

Mae hawliau gan holl ddiodefwr troseddu ddisgwyliadau dilys a nodi yn y Cod. Dyma'r lefelau o wasanaeth sylfaenol y gall diodefwr eu disgwyl, ac y maent yn iawn i'w disgwyl, gan asiantaethau cyfiawnder troseddol fel yr heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (GLITEM) a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS). Mae partneriaid eraill, fel y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG), sydd hefyd yn cyflawni rôl hanfodol wrth ddarparu cymorth i ddiodefwr troseddu. Mae rhestr o asiantaethau sydd â chyfrifoldebau o dan y Cod yn Atodiad A.

Cafodd y Cod ei ddiwygio ar ôl dwy flynedd o waith helaeth gyda diodefwr a grwpiau diodefwr, a daeth hyn i rym ym mis Ebrill 2021. Mae'n nodi'r hawliau allweddol canlynol:

- i allu deall a chael eich deall
- i gael cofnodi manylion y drosedd heb oedi digyfiawnhad
- i dderbyn gwybodaeth pan ydych yn adrodd wrth yr heddlu am y drosedd
- i gael eich atgyfeirio at wasanaethau sy'n cefnogi diodefwr a chael gwasanaethau a chefnogaeth wedi eu teilwra i'ch anghenion
- i dderbyn gwybodaeth am iawndal
- i dderbyn gwybodaeth am yr ymchwiliad a'r erlyniad
- i wneud datganiad personol diodefwr
- i dderbyn gwybodaeth am y treial, proses y treial a'ch rôl fel tyst
- i dderbyn gwybodaeth am ganlyniad yr achos ac unrhyw apeliadau
- i dderbyn treuliau a chael eich eiddo yn ôl
- i dderbyn gwybodaeth am y troseddwr yn dilyn euogfarn
- i wneud cwyn am hawliau sydd heb eu diwallu

Mae asiantaethau sy'n gyfrifol am gyflawni'r Cod yn gweithio'n galed i'w roi ar waith. Fodd bynnag, gwyddom fod cryn ffordd i fynd cyn sicrhau darpariaeth gynhwysfawr.

Mae data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos mai dim ond 18% o ddiodefwr a oedd yn cofio cael y cyfle i wneud Datganiad Personol Dioddefwr, ac mai dim ond 45% oedd yn teimlo bod yr heddlu ac asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt.<sup>11</sup> Mae'r Cod yn nodi y dylid gofyn am farn diodefwr sy'n agored i niwed ac sy'n cael eu bygwth ynghylch pa fesurau arbennig fydd yn addas i'w

---

<sup>11</sup> Experience of the criminal justice system for victims of crime, England and Wales, year ending March 2020 – Swyddfa Ystadegau Gwladol GOV.UK  
<https://www.ons.gov.uk/file?uri=/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/adhoc/13635experienceofthecriminaljusticesystemforvictimsofcrimeenglandandwalesyearendingmarch2009toyearendingmarch2020/awarenessofthevictimscodfinaloctoberreview.xlsx>

hanghenion, ond dim ond dwy ran o dair (32 o'r 51 o ddiodefwyr) a ymddangosodd yn y llys a oedd yn cofio cael y dewis hwn.<sup>12</sup>

Rydym am ofalu bod diodefwyr yn deall lefel y gwasanaeth y gallant ei ddisgwyl fel bod hyder ganddynt i gymryd rhan yn y system cyfiawnder troseddol a dal asiantaethau i gyfrif pan na fyddant wedi cwrdd â'r safonau. Bwriedir i'r Cod diwygiedig fod yn haws ei ddeall ac mae ar gael yn eang i ddiodefwyr a gweithwyr proffesiynol, ond gwyddom nad oedd y rhan fwyaf o ddiodefwyr troseddau yn y blynyddoedd diwethaf yn ymwybodol o'u hawliau dan y Cod.<sup>13 14</sup>

## Y materion allai camau'r llywodraeth fynd i'r afael â nhw

Rydym am brofi'r ffordd orau o gyflawni ein hymrwymiad i gynnwys y Cod mewn cyfraith.

Mae'r Cod ar ffurf Cod Ymarfer ar hyn o bryd. Rydym yn cynnig gosod egwyddorion allweddol y Cod mewn deddfwriaeth sylfaenol er mwyn rhoi arwydd clir i'r holl asiantaethau a restrwyd bod yn rhaid iddynt gydymffurfio â'r gwaith o'i gyflwyno.<sup>15</sup> Rydym hefyd am sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i ni gryfhau'r disgwyladau sylfaenol penodol os bydd polisiâu ac arferion yn newid yn y dyfodol. Efallai mai'r ffordd orau o wneud hyn yw drwy roi manylion y Cod yn y rheoliadau a/neu'r canllawiau cysylltiedig. Credwn mai'r canlynol yw'r egwyddorion allweddol:

- **sicrhau bod diodefwyr yn cael gwybodaeth** - er mwyn sicrhau bod diodefwyr yn gallu deall y broses cyfiawnder troseddol yn glir, rhaid i asiantaethau cyfiawnder troseddol roi sylw dyledus i ddarparu gwybodaeth i ddiodefwyr yn sydd ei hangen arnynt drwy gydol yr achos yn ei gyfanrwydd – rhwng hysbysu'r heddlu a'r cyfnod ar ôl euogfarn
- **sicrhau bod diodefwyr yn cael cymorth** - er nad yw diodefwyr yn gorfod hysbysu am drosedd er mwyn cael cymorth, pan fyddant yn gwneud hynny, mae'r Cod yn pennu bod rhaid atgyfeirio diodefwyr at wasanaeth sy'n eu helpu i ymdopi ac ymadfer,

<sup>12</sup> Next steps for special measures: A review of the provision of special measures to vulnerable and intimidated witnesses – Victims' Commissioner (2021), t.17, <https://victimscommissioner.org.uk/published-reviews/next-steps-for-special-measures/>

<sup>13</sup> Er mwyn sicrhau bod y Cod yn ddealladwy i bob diodefwyr, rydym hefyd yn llunio fersiwn hawdd ei ddarllen o'r Cod ac adnoddau i blant a phobl ifanc

<sup>14</sup> Ystadegau Diodefwyr, y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2019: yr heddlu, y llysoedd a'r system cyfiawnder troseddol – Comisiynydd Diodefwyr (Mawrth 2019), <https://victimscommissioner.org.uk/published-reviews/victims-statistics-year-ending-march-2019/>. Roedd 80.2% o ddiodefwyr heb glywed am y Cod Ymarfer ar gyfer Diodefwyr Troseddau yn 2017-18 – ychydig yn llai na'r 82.7% o ddiodefwyr yn 2014-15. Ymwybyddiaeth o'r Cod Ymarfer ar gyfer Diodefwyr Troseddau, Arolwg o Droseddau ar gyfer Cymru a Lloegr, y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020: Yn 2019-20, roedd 23.4% o ddiodefwyr yn ymwybodol o'r Cod Ymarfer ar gyfer Diodefwyr Troseddau.

<sup>15</sup> Gweler Atodiad A

rhoi cymorth iddynt yn ystod eu siwrnai yn y llys, a chael eu hasesu o ran eu hangen am unrhyw gymorth arbenigol, fel cymhwysra ar gyfer mesurau arbennig

- **sicrhau bod lleisiau diodefwr yn cael eu clywed** - rhaid i leisiau diodefwr gael eu clywed yn y broses cyfiawnder troseddol a dylid cynnig cyfle iddynt wneud Datganiad Personol Dioddefwr i egluro sut mae'r drosedd wedi effeithio arnynt
- **Hawl diodefwr i gael adolygiad** - rhaid i ddiodefwr allu herio penderfyniadau sy'n effeithio arnynt yn uniongyrchol, ac mae'r Cod yn pennu bod hawl ganddynt i ofyn am adolygiad o dan y Cynlluniau Hawl Dioddefwr i Gael Adolygiad a weithredir gan Gyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron, sy'n caniatáu i achwynwyr ofyn am adolygiad o benderfyniadau penodol i beidio â dechrau erlyn neu i roi terfyn ar erlyn

## Cwestiynau

**Cwestiwn 1:** Ydych chi'n cytuno mai'r egwyddorion allweddol a nodwyd yn yr ymgynghoriad yw'r rhai priodol? Os nad ydych chi, a oes gennych unrhyw awgrymiadau eraill?

**Cwestiwn 2:** Beth arall all y llywodraeth a'r asiantaethau a restrir yn y Cod ei wneud i sicrhau bod gweithwyr proffesiynol rheng flaen yn ymwybodol o'r hyn sy'n rhaid iddynt ei wneud dan y Cod?

**Cwestiwn 3:** Beth arall all y llywodraeth a'r asiantaethau a restrir yn y Cod ei wneud i sicrhau bod pob diodefwr yn ymwybodol o'r Cod a'r gwasanaeth y dylent ddisgwyl ei dderbyn o dan y Cod?

## Cymorth ychwanegol i ddiodefwr

### Y cefndir a'r sefyllfa bresennol

Rydym am sicrhau bod diodefwr yn gwybod eu bod wrth galon y system cyfiawnder troseddol. Bydd yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron yn ystyried amgylchiadau achos penodol cyn penderfynu yn y pen draw a ddylid ymchwilio i drosedd neu ei herlyn. Gwyddom ei bod yn bwysig i ddiodefwr gael llais ac y dylid rhoi ystyriaeth i'w barn yn ystod y broses hon, a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt ar adegau allweddol drwy gydol yr achos.

Mae prosesau ar waith ar hyn o bryd sy'n ceisio cyflawni hyn. Er enghraifft, o dan y Cod, mae gan ddiodefwr hawl i wneud Datganiad Personol Dioddefwr.<sup>16</sup> Mae hyn yn eu

<sup>16</sup> Hawl 7 y Cod Dioddefwr, <https://www.gov.uk/government/publications/the-code-of-practice-for-victims-of-crime>

galluogi i egluro yn eu geiriau eu hunain sut mae'r trosedd wedi effeithio arnynt ac mae'n wahanol i ddatganiad tyst. Caiff ei ystyried gan y barnwr neu'r ynad wrth benderfynu pa ddedfryd y dylai'r troseddwr ei derbyn, a gall helpu darparwyr gwasanaeth i ystyried y gefnogaeth briodol sydd ei hangen. Gall helpu diodefwr i gael llais yn y system ac mae'n golygu bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau am droseddwr yn ystyried eu barn. Rhaid rhoi gwybodaeth i ddiodefwr am Ddatganiad Personol y Dioddefwr pan fyddant yn rhoi gwybod am drosedd. Dylid cynnig y cyfle i ddiodefwr pan fyddant yn rhoi datganiad tyst. Fodd bynnag, gallant ddewis gwneud Datganiad Personol y Dioddefwr ar unrhyw adeg cyn i'r troseddwr gael ei ddedfrydu. Efallai y bydd y Bwrdd Parôl hefyd yn ystyried Datganiad Personol y Dioddefwr fel rhan o broses adolygu parôl. Rydym wedi clywed bod y defnydd o Ddatganiad Personol y Dioddefwr yn gallu bod yn anghyson, gan adael i ddiodefwr deimlo nad yw ei llais bob amser yn cael ei glywed.

Mae gan ddiodefwr yr hawl hefyd i gael gwybodaeth am yr ymchwiliad ac unrhyw erlyniad a, lle bo hynny'n berthnasol, i gael esboniad o'r rhesymau dros benderfyniadau allweddol.<sup>17</sup> O dan hyn, mae gan ddiodefwr:

- yr hawl i'w barn gael ei hystyried pan fo'r heddlu neu Gwasanaeth Erlyn y Goron yn ystyried delio ag achos heb fynd ag ef i'r llys ('datrysiad y tu allan i'r llys')
- yr hawl i gael gwybod os bydd yr heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron yn penderfynu peidio ag ymchwilio neu erlyn y person dan amheuaeth, newid y cyhuddiad neu atal yr achos
- yr hawl mewn achosion penodol yn unig (megis cam-drin plant, troseddau rhywiol, a throseddau a waethygir gan elyniaeth ar sail nodweddion gwarchodedig) i gael cynnig cyfarfod gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) yn dilyn penderfyniad i beidio â chyhuddo, oni bai fod y CPS yn penderfynu na fyddai hynny'n briodol

Mae gan berthnasau agos sydd wedi colli anwyliaid mewn achosion eraill (megis llofruddiaeth a dynladdiad) hefyd yr hawl i gael cynnig o gyfarfod gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron cyn neu ar ôl penderfyniad ynghylch a ddylid cyhuddo person dan amheuaeth.

Mae'r Cod hefyd yn nodi'r hawl i ofyn am adolygiad o benderfyniad gan yr heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron i beidio ag erlyn, neu i atal yr achos, dan Gynlluniau Hawl Dioddefwr i Adolygiad Gwasanaeth Erlyn y Goron neu Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu.

Yn olaf, mae Erlynwyr y Goron (sy'n annibynnol ar yr heddlu, asiantaethau ac unigolion, gan gynnwys y diodefwr) yn ystyried – ochr yn ochr â'r dystiolaeth yn erbyn y diffynnydd – a yw er budd y cyhoedd i ddod â'r achos i'r llys. Mae'r ffactorau a ystyrir wedi'u nodi yn y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron (a gyhoeddir gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus dan Adran 10 Deddf Erlyn Troseddau 1985, ac mae hyn y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad hwn). Mae'r rhain yn cynnwys yr amgylchiadau a'r niwed a achoswyd i'r

<sup>17</sup> Hawl 7 y Cod Dioddefwr, <https://www.gov.uk/government/publications/the-code-of-practice-for-victims-of-crime>

dioddefwr, a'r effaith ar y gymuned.<sup>18</sup> Fel rhan o hyn, dylai erlynwyr ystyried y farn a fynegwyd gan y diodefwr, ac weithiau gan eu teulu, am yr effaith mae'r drosedd wedi'i chael.

Rydym yn gofyn am farn ynghylch sut mae hyn yn gweithio'n ymarferol ac a ddylid gwneud mwy i ystyried barn diodefwr. Yn benodol, rydym yn dymuno ymgynghori ynghylch a ddylai fod gofyniad mwy penodol i'r erlynnydd dan sylw mewn achos neu rai mathau o achosion fod wedi cwrdd â'r diodefwr cyn y penderfyniad i gyhuddo, a chyn i achos fynd yn ei flaen i'r llys.

### **Rhoi gwybod i ddiodefwr ac ystyried eu barn**

Mae cael gwybodaeth amserol am gynnydd achos yn bwysig iawn i ddiodefwr, yn ogystal â'r modd mae asiantaethau cyfiawnder troseddol yn cyfathrebu â diodefwr ac ansawdd y cyfathrebu hwnnw. Mae'r Cod yn dangos pa mor gyflym y mae angen rhoi gwybod i ddiodefwr am benderfyniadau allweddol sy'n cael eu gwneud yn yr achos.<sup>19</sup> Rydym am wybod a yw'r strwythurau sydd ar waith ar hyn o bryd yn gweithio i ddiodefwr, neu a oes pwyntiau allweddol lle byddai'n fuddiol i ddiodefwr gael gohebiaeth yn gynharach neu mewn ffordd wahanol. Gallai hyn fod drwy sicrhau bod asiantaethau'n ystyried barn diodefwr ar adegau allweddol yn y broses, neu alluogi diodefwr i ddeall yn well y rhesymau y tu ôl i benderfyniadau asiantaethau - er enghraifft, cyn penderfynu'n derfynol a ddylid cyhuddo'r person dan amheuaeth ai peidio.

Rydym hefyd eisiau deall beth sy'n gweithio yn y ffyrdd y mae diodefwr yn cael eu cynnwys mewn adolygiadau o benderfyniadau'r heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron. Mae Cynlluniau Hawl Dioddefwr i Adolygiad y CPS a Chyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu yn caniatáu i ddiodefwr ofyn am adolygiad o benderfyniadau penodol, fel y nodir uchod. Yn 2019/20, gwnaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron 91,912 o benderfyniadau a allai fod wedi cael eu hadolygu; cawsant 1,996 o geisiadau am adolygiadau a phenderfynu gwrthod 288 o geisiadau (mae hyn yn golygu y gwrthodwyd 14% o'r geisiadau am adolygiadau, a 0.25% o'r holl benderfyniadau).<sup>20</sup> Mae'r cynllun yn caniatáu i'r diodefwr gyflwyno sylwadau o fewn yr adolygiad, a fydd yn cael eu hystyried os byddant yn cael eu cyflwyno o fewn yr amserlenni perthnasol.<sup>21</sup> Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid oes dyletswydd ar Wasanaeth Erlyn y Goron na'r heddlu i wahodd y diodefwr i gyflwyno

---

<sup>18</sup> The Code for Crown Prosecutors (2018), <https://www.cps.gov.uk/publication/code-crown-prosecutors>

<sup>19</sup> Nodir hyn ar gyfer pob hawl, fel arfer o fewn 5 diwrnod gwaith (1 diwrnod gwaith o dan Hawliau Uwch): <https://www.gov.uk/government/publications/the-code-of-practice-for-victims-of-crime>

<sup>20</sup> Victims' Right to Review Data 2019-2020 – Gwasanaeth Erlyn y Goron (Mawrth 2020), <https://www.cps.gov.uk/underlying-data/victims-right-review-data-2019-2020>

<sup>21</sup> Victims' Right to Review Scheme – Gwasanaeth Erlyn y Goron (Mai 2021), <https://www.cps.gov.uk/legal-guidance/victims-right-review-scheme>

sylwadau o fewn yr adolygiad hwnnw.<sup>22</sup> Mae gennym ddiddordeb mewn deall a oes newidiadau i'r Cod a allai helpu i sicrhau bod lleisiau diodefwr yn cael eu clywed yn gliriach ac yn fwy effeithiol yn y broses hon.

### **Proses adolygu'r Bwrdd Parôl**

Mae gan ddiodefwr yr hawl i gyflwyno Datganiad Personol y Dioddefwr ac i ddarllen eu datganiad mewn gwrandawriad parôl os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny. Mae'r datganiad hwn yn gyfle i ddiodefwr ddweud wrth y Bwrdd Parôl am effaith y drosedd arnyn nhw a'u teuluoedd, yr effaith mae'n parhau i'w chael ac i fynegi eu pryderon am y risg y gallai'r troseddwr ei pheri petai'r Bwrdd yn ei ryddhau'n uniongyrchol. Mae'r datganiad hefyd yn helpu i roi gwybod am yr angen am unrhyw amodau trwydded y gellir eu gosod ar y troseddwr os caiff ei ryddhau.

Ar hyn o bryd, ni chaniateir i ddiodefwr aros am weddill y gwrandawriad ac ni allant wrando ar unrhyw ran o'r dystiolaeth. Yn dilyn ymgynghoriadau blaenorol ar y broses parôl yn 2020, rydym eisoes wedi cyhoeddi ein bwriad i gyflwyno gwrandawriadau parôl cyhoeddus mewn rhai achosion a chaniatáu i ddiodefwr fod yn bresennol mewn gwrandawriadau llawn am y tro cyntaf yn ôl disgrisiwn y Bwrdd Parôl. Mae'n debygol y bydd angen i rywfaint o dystiolaeth, fel gwybodaeth feddygol y carcharor, aros yn breifat.

Mae Adolygiad o'r Bôn i'r Brig o'r system parôl yn ystyried ffyrdd eraill o wneud y broses yn fwy tryloyw a hygyrch i ddiodefwr. Rydym am edrych a oes mwy y gallem ei wneud i alluogi diodefwr i ymgysylltu â'r broses parôl ac i fwydo unrhyw ganfyddiadau i mewn i waith yr Adolygiad.

### **Datganiadau Effaith ar y Gymuned**

Gwyddom y gall troseddu gael effeithiau pellgyrhaeddol, a gall cymunedau ddiodefwr trosedd yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.<sup>23</sup> Gallai hyn gynnwys troseddau fel ymosodiadau ar fannau cyhoeddus, troseddau casineb neu ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Ceir darpariaeth yn y Cyfarwyddyd Ymarfer Troseddol ar gyfer Datganiadau Effaith ar y Gymuned, sy'n gallu galluogi'r gymuned i egluro i'r llys a'r troseddwr sut y mae trosedd

---

<sup>22</sup> The role and rights of victims of crime in adversarial criminal justice system: Recommendations for reform in England and Wales – Victims' Commissioner (Rhagfyr 2020), <https://victimscommissioner.org.uk/news/victims-need-to-be-acknowledged-as-participants-in-the-criminal-justice-system-says-victims-commissioner/>

<sup>23</sup> Rydym yn defnyddio diffiniad canllawiau Gwasanaeth Eryl y Goron o gymuned: Nid oed rhaid pennu cymuned yn ôl ardaloedd daearyddol yn unig. Gellir diffinio cymuned hefyd fel grŵp o bobl sy'n rhyngweithio ac sy'n rhannu nodweddion, profiadau neu gefndiroedd penodol a/neu sydd wedi'u lleoli'n agos at ei gilydd. <https://www.cps.gov.uk/legal-guidance/community-impact-statements>

wedi effeithio arnynt.<sup>24</sup> Gall Gwasanaeth Erlyn y Goron eu defnyddio i lywio penderfyniadau ynghylch cyhuddo a gall y llys eu defnyddio i lywio penderfyniadau dedfrydu.

Gallai'r datganiad fod mewn perthynas â'r drosedd benodol sy'n cael ei herlyn ac wedi'i gymhwyso i'r achos sy'n ymwneud â'r achos a nodwyd ('datganiad penodol'). Neu gallai fod mewn perthynas â math o drosedd sydd wedi achosi niwed i gymuned benodol, a gallai'r datganiad fod ynghlwm wrth nifer o achosion lle mae'r math o drosedd a gyflawnwyd yn cyfateb i'r hyn a ddisgrifir yn y datganiad ('datganiad cyffredinol').<sup>25</sup> Rydym wedi clywed gan y Ganolfan Cyfiawnder Cymdeithasol y gallai hyn fod yn ddefnyddiol mewn achosion lle gallai ymddangos fel arall "nad oes diodefwr", fel mewn achosion o ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol ar-lein. Maent yn cyfeirio at enghraifft yng Nghanaada, lle lluniwyd Datganiad Effaith ar y Gymuned gan lawer o ddiodefwr deunydd cam-drin plant yn rhywiol, gyda'r uchelgais iddo gael ei ddefnyddio yn y llysoedd i hwyluso dedfrydu priodol ar gyfer y drosedd honno.<sup>26</sup>

Fodd bynnag, nid yw'r opsiwn o wneud Datganiad Effaith ar y Gymuned wedi'i gynnwys yn y Cod ac nid oes darpariaeth benodol ar ei gyfer mewn deddfwriaeth. Hyd y gwyddom, nid ydynt yn cael eu defnyddio'n aml. Credwn y gallai cynyddu eu defnydd fod yn fuddiol er mwyn rhoi mwy o lais i gymunedau a sicrhau bod yr heddlu, GEG a'r llys yn deall y graddau ehangach y gall troseddau ddifetha cymdogaethau a chymdeithasau cyfan. Gellid gwneud hynny drwy adolygu eu statws mewn deddfwriaeth – yn y Cod a'r Gyfraith Dioddefwr - fel bod darpariaeth fwy clir ar eu cyfer. Rydym eisiau clywed mwy am pryd maen nhw'n fuddiol, ym mha fath o achosion, a sut gellir eu defnyddio'n fwy yn ymarferol.

### **Datganiad Personol y Dioddefwr ar gyfer diodefwr troseddu gan rai sydd ag anhwylder meddyliol**

Gellir cadw troseddwr sydd ag anhwylder meddwl mewn ysbytai iechyd meddwl, ac mae'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Iechyd Meddwl) yn adolygu a oes angen parhau i'w cadw'n gaeth. Ar hyn o bryd, nid yw rhai sy'n diodefwr wrth law troseddwr sydd ag anhwylder meddwl yn gallu cyflwyno Datganiad Personol y Dioddefwr fel rhan o'r broses hon, ac ni allant ychwaith fod yn bresennol yng ngwrandawriad y tribiwnlys i ddarllen y datganiad. Mae hyn yn golygu nad yw'r diodefwr hyn yn cael eu trin yn gyfartal â diodefwr eraill. Mae'r Cod yn rhoi'r hawl i ddiodefwr lle mae'r troseddwr yn y carchar ac yn rhan o'r Cynllun

<sup>24</sup> Criminal Practice Directions Sentencing (2013), tud.79, <https://www.judiciary.uk/wp-content/uploads/JCO/Documents/Practice+Directions/Consolidated-criminal/criminal-practice-directions-2013.pdf>

<sup>25</sup> Gweler y datganiadau 'generig' a 'penodol': Community Impact Statements – Gwasanaeth Erlyn y Goron (2019), <https://www.cps.gov.uk/legal-guidance/community-impact-statements>

<sup>26</sup> Centre for Social Justice, Unsafe Children: Driving up our country's response to child sexual abuse and exploitation (2021) tud.87, CSJJ8804-Unsafe-Children-210325-WEB.pdf ([centreforsocialjustice.org.uk](http://centreforsocialjustice.org.uk))



Cysylltu â Dioddefwyr i gyflwyno Datganiad Personol y Dioddefwr, sy'n caniatáu iddynt rannu effaith y drosedd fel rhan o'r broses adolygu parôl.<sup>27</sup>

Rydym wedi clywed y byddai caniatáu Datganiadau Personol y Dioddefwr mewn Tribiwnlysoedd Iechyd Meddwl yn gathartig i ddiodefwr ac yn eu grymuso, ac yn caniatáu iddynt esbonio i'r tribiwnlys beth yw effaith troseddau'r claf arnynt.<sup>28</sup> Gallai helpu'r tribiwnlys i ddeall cyd-destun y drosedd a pham mae diodefwr wedi gofyn am atodi amodau penodol wrth ryddhau'r claf. Byddai'n dal yn bosibl ystyried hyn mewn ffordd sy'n gyson â'r prawf statudol y mae'n rhaid i'r tribiwnlys ei gymhwyso wrth ystyried rhyddhau claf sy'n cael ei gadw'n gaeth.<sup>29</sup>

## **Y materion allai camau'r llywodraeth fynd i'r afael â nhw**

Rydym am ystyried a oes modd cryfhau'r hyn y gall diodefwr ei ddisgwyl mewn meysydd allweddol i sicrhau bod lleisiau diodefwr yn cael eu clywed yn glir yn y system cyfiawnder troseddol. Mae hyn yn cynnwys ystyried sut a phryd y mae Gwasanaeth Erlyn y Goron, yr heddlu ac asiantaethau eraill yn cyfathrebu â diodefwr ac yn ystyried eu barn; sut gallai diodefwr ymgysylltu â'r broses parôl; p'un a all darpariaeth fwy clir o Ddatganiadau Effaith ar y Gymuned brif ffrydio eu defnydd mewn achosion priodol i sicrhau bod effaith ehangach troseddau yn cael ei deall gan yr heddlu, GEG a'r llys; a sut y gellir rhoi diodefwr troseddau gan droseddwr sydd ag anhwylder meddwl ar sail fwy cyfartal â diodefwr eraill.

---

<sup>27</sup> Victims Strategy, – GOV.UK (2018), t. 40, [https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/746930/victim-strategy.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/746930/victim-strategy.pdf)

<sup>28</sup> Victims' Commissioner, (2018), t.1, t.6, <https://victimscommissioner.org.uk/published-reviews/entitlements-and-experiences-of-victims-of-mentally-disordered-offenders/>

<sup>29</sup> Deddf Iechyd Meddwl 1983, legislation.gov.uk, <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1983/20/contents>: Dydy'r tribiwnlys ddim ond yn gallu ystyried meini prawf sy'n ymwneud ag a yw'r claf yn dioddef gan anhwylder meddwl o natur neu raddau sy'n ei gwneud yn briodol iddo gael ei gadw mewn ysbyty i gael triniaeth feddygol; a yw'n angenrheidiol er iechyd a diogelwch y claf ac er mwyn amddiffyn eraill iddo gael y driniaeth honno; ac a yw triniaeth feddygol briodol ar gael.

## Cwestiynau

**Cwestiwn 4:** A yw'r gweithdrefnau presennol ynghylch amseriad a dull cyfathrebu rhwng yr heddlu/Gwasanaeth Erlyn y Goron a diodefwyr ynghylch penderfyniadau allweddol yn gweithio i ddiodefwyr? A oes unrhyw newidiadau a allai fod yn fuddiol?

**Cwestiwn 5:**

- a) A ddylai'r heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron wneud mwy i ystyried barn diodefwyr yn ystod eu dyletswyddau, yn enwedig ynghylch penderfyniadau i fwrw ymlaen ag achosion?
- b) A ddylai fod gofyniad penodol i'r erlynydd dan sylw mewn achos neu fathau o achosion fod wedi cwrdd â'r diodefwyr cyn y penderfyniad i gyhuddo, a chyn i achos fynd yn ei flaen i'r llys?
- c) Pa newidiadau, os o gwbl, y gellid eu gwneud i'r Cod mewn perthynas â gwybodaeth am y Cynllun Hawl Diodefwyr i Adolygiad?

**Cwestiwn 6:**

- a) Beth yw manteision Datganiadau Effaith ar y Gymuned a beth yw costau gwneud mwy o ddefnydd neu ddefnydd gwahanol ohonynt?
- b) Allwch chi roi enghraifft lle gwnaed defnydd effeithiol o un ohonynt?

**Cwestiwn 7:**

- a) Pa newidiadau, os o gwbl, allem ni eu gwneud i alluogi diodefwyr i ymgysylltu mwy â'r broses parôl?
- b) Yn eich barn chi, beth fyddai manteision a risgiau rhoi'r newidiadau hynny ar waith?

**Cwestiwn 8:** A ddylid caniatáu i rai sy'n diodef troseddu gan droseddwr sydd ag anhwylder meddwl lunio a chyflwyno Datganiad Personol y Diodefwyr pan fydd Tribiwnlys Iechyd Meddwl yn adolygu cyfnod y troseddwr yn y ddalfa? Esboniwch eich ateb.

## **Pennod 2 – Gwella goruchwyliaeth ac ysgogi gwell perfformiad**

### **Ein gweledigaeth**

Er bod asiantaethau cyfiawnder troseddol yn gweithio'n galed i gyflwyno'r Cod a darparu gwasanaeth rhagorol i ddiodefwyr, gwyddom y gall fod yn anodd deall pa mor dda y mae'r system yn gweithio, yn enwedig gan nad yw data ac adborth gan ddiodefwyr yn cael eu casglu'n systematig.

Ein cenhadaeth yw sicrhau bod diodefwyr yn cael gwasanaeth da gan bob rhan o'r system cyfiawnder troseddol. I wneud hyn, rydym am gael goruchwyliaeth effeithiol a chyson o asiantaethau sy'n gyfrifol am ryngweithio â diodefwyr, ac rydym am ystyried a yw'r strwythurau presennol ar gyfer adrodd i'r Senedd yn canolbwyntio digon ar ddiodefwyr, a sut mae hynny'n digwydd. Rydym am sicrhau bod diodefwyr yn ymddiried yng ngallu'r mecanweithiau goruchwyliaeth sydd ar waith i sicrhau bod asiantaethau'n darparu gwasanaeth o safon yn gyson. Rydym am gasglu a defnyddio data'n fwy effeithiol i'n galluogi i greu gwell darlun o berfformiad ar draws y system cyfiawnder troseddol, fel y gallwn ganfod problemau a mynd i'r afael â hwy'n gadarn.

Dylai gwell dealltwriaeth o brofiadau diodefwyr fod yn sail i hyn. Byddwn yn gwneud gwell defnydd o adborth diodefwyr, gan alluogi gweithwyr proffesiynol rheng flaen, asiantaethau a'r llywodraeth i ddarparu gwell gwasanaeth i ddiodefwyr yn lleol ac yn genedlaethol.

Rydym wedi clywed nad oes prosesau clir i gwyno am y gwasanaeth a ddarperir i ddiodefwyr, nad ydynt yn dryloyw ac nad ydynt yn hawdd eu deall. Cyn belled ag y bo modd, rydym am gael mecanweithiau clir a chyflym i unioni methiannau, a'u hatal rhag codi eto yn y dyfodol ar lefel unigol a systemig. Dylai fod yn glir i ddiodefwyr sut i geisio gwneud yn iawn am broblemau os na fyddant yn cael y gwasanaeth y mae ganddynt hawl i'w ddisgwyl, a dylent wybod y byddant yn cael y canlyniad priodol yn fuan ac yn effeithiol. Rydym am sicrhau bod prosesau cyson a chadarn ar waith ar gyfer ymdrin â chwynion diodefwyr a bod hyder gan y cyhoedd yn y prosesau hynny.

Byddwn yn cyflawni hyn drwy wneud y canlynol:

- rhoi mwy o flaenoriaeth i brofiadau diodefwyr mewn mecanweithiau goruchwyliaeth fel bod elfennau o'r system, gan gynnwys Comisiynwyr Heddlu a Throseddau, yn canolbwyntio'n ddiwyro ar y materion hyn

- creu proses dryloyw a hawdd ei defnyddio i ddiodefwyr wneud cwynion am eu profiad, gyda chysondeb drwy gydol eu taith drwy'r system gyfiawnder a rhwng gwahanol asiantaethau cyfiawnder troseddol
- sicrhau bod lleisiau diodefwyr yn ysgogi gwelliannau i brofiadau diodefwyr, gan ddarparu cyfle iddynt roi adborth ar bwyntiau allweddol a rheolaidd yn ystod cyfnod eu hachos, ar draws asiantaethau cyfiawnder troseddol

Yn y bennod hon rydym yn gofyn am farn ar y canlynol:

- **mecanweithiau a strwythurau goruchwyllo**, pwysu a mesur pa mor effeithiol yw'r system bresennol o ran goruchwyllo profiadau diodefwyr a sut beth fyddai unrhyw system well
- **sicrhau bod gwasanaeth o safon yn cael ei ddarparu**, pwysu a mesur sut y gallwn roi gwell cymhellion i ddarparu gwasanaeth o safon a sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i sbarduno gwelliannau, yn ogystal â gorfodi canlyniadau os na fydd hynny'n digwydd
- **gwreiddio llais y diodefwr**, pwysu a mesur sut gallwn ni gasglu gwell data lleol a chenedlaethol am ddiodefwyr er mwyn gallu monitro ac asesu sut mae diodefwyr yn cael eu trin o fewn y system, gan ddefnyddio hyn i wella perfformiad
- **cwynion am gymhwyso'r Cod**, pwysu a mesur sut i'w gwneud yn haws i ddiodefwyr gwyno pan fydd pethau'n mynd o chwith.

Bydd y gwaith hwn yn ategu mesurau a amlinellwyd ym Mhennod 1 a'r gwaith rydym eisoes wedi'i wneud ar draws llywodraeth i sicrhau bod yna fecanweithiau ar waith ym mhob rhan o'r system cyfiawnder troseddol i gynyddu tryloywder a gwella perfformiad.

Byddwn hefyd yn cynyddu tryloywder ar draws y system cyfiawnder troseddol drwy gyhoeddi'r cardiau sgorio. Nid yn unig bydd y rhain yn mesur ymgysylltiad diodefwyr yn uniongyrchol (lle maen nhw'n teimlo eu bod yn gallu bwrw ymlaen â'u hachos drwy'r system cyfiawnder troseddol), ond byddant hefyd yn monitro perfformiad ar bethau rydyn ni'n gwybod sy'n bwysig i ddiodefwyr, fel yr amser mae'n ei gymryd i achosion fynd drwy'r system cyfiawnder troseddol. Yn 2022, bydd cardiau sgorio rhanbarthol yn rhoi darlun manylach i ni, gan ein galluogi i nodi meysydd i'w gwella ac i ddod o hyd i feysydd lle mae perfformiad da, a rhaeadru arferion da.

## Mecanweithiau a strwythurau goruchwyllo

### Y cefndir a'r sefyllfa bresennol

Mae nifer o wahanol bartneriaid cyfiawnder troseddol yn gweithio i gasglu data am berfformiad, nodi materion i'w hystyried a rhoi sylw i broblemau posibl gyda phrofiadau diodefwyr. Mae'n faes cymhleth sy'n cynnwys gwahanol asiantaethau sy'n gweithredu'n annibynnol ar ei gilydd ac yn annibynnol ar y Llywodraeth. Mae'r annibyniaeth weithredol

hon yn cynnal hyder y cyhoedd yn y system cyfiawnder troseddol a'i thegwch. Mae Gweinidogion yn atebol i'r Senedd wedyn dros asiantaethau cyfiawnder troseddol drwy strwythurau uwcharolygu.

Fodd bynnag, am fod y cyfrifoldeb dros faterion sy'n ymwneud â phrofiadau diodefwr wedi'i rannu rhwng nifer o wahanol feysydd a sefydliadau, gellir wynebu her wrth geisio cael trosolwg ar y graddau y mae'r system yn gweithio i ddiodefwr ac wrth nodi a rhoi sylw i bryderon allweddol.

Nid yw'r rhan fwyaf o asiantaethau yn casglu data am ddiodefwr mewn ffordd systematig, gan gynnwys data am ddarparu'r Cod, sy'n golygu bod bylchau mewn gwybodaeth am brofiadau diodefwr ac am gydymffurfiaeth asiantaethau. Er hynny, ar sail y data sydd gennym, gwyddom nad oedd y rhan fwyaf o ddiodefwr troseddu yn y blynyddoedd diwethaf yn teimlo bod rhai hawliau o dan y Cod wedi'u gwarantu iddynt. Yn 2019/20, teimlai 45% o ddiodefwr fod yr heddlu ac asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt, a dim ond 18% o ddiodefwr a oedd yn cofio cael cynnig cyfle i wneud Datganiad Personol Dioddefwr.<sup>30</sup>

Mae hyn yn dweud wrthym fod yw hawliau'r Cod yn cael eu darparu'n anghyson, a bod angen i ni wella'r dull presennol o sicrhau perfformiad a darpariaeth. Isod, rydym yn edrych ar y mecanweithiau goruchwylio presennol yn eu tro.

### **Comisiynydd Dioddefwr Cymru a Lloegr**

Mae'r Comisiynydd Dioddefwr yn llais cryf dros fuddiannau diodefwr. Penodir y Comisiynydd Dioddefwr gan yr Ysgrifennydd Gwladol ond mae'n annibynnol ar y Llywodraeth. Mae swyddogaethau'r Comisiynydd Dioddefwr wedi'u pennu mewn statud ac maent fel a ganlyn.<sup>31</sup>

Rhaid i'r Comisiynydd Dioddefwr:

- hyrwyddo buddiannau diodefwr a thystion
- hybu arferion da yn y ffordd o drin diodefwr a thystion
- dal gweithrediad y Cod o dan sylw
- cyhoeddi adroddiad blynyddol, i'w rannu â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder, yr Ysgrifennydd Cartref a'r Twrnai Cyffredinol
- cynghori Gweinidogion ar faterion penodol pan ofynnir iddo wneud hynny

<sup>30</sup> Experience of the criminal justice system for victims of crime, Crime in England and Wales: Tablau Atodiad - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (Mawrth 2020), <https://www.ons.gov.uk/file?uri=/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/adhoc/13635experienceofthecriminaljusticesystemforvictimsofcrimeenglandandwalesyearendingmarch2009toyearendingmarch2020/awarenessofthevictimscodfinaloctoberreview.xlsx>

<sup>31</sup> Deddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwr 2004, legislation.gov.uk , Adran 49, (2004) <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2004/28/contents>

Mae'r Comisiynydd Dioddefwr yn gallu:

- gwneud argymhellion am newidiadau yn y Cod
- gwneud adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder
- gwneud argymhellion i awdurdod sydd o fewn ei gylch gwaith
- ymgynghori ag unrhyw un fel y bo'n briodol

Nid yw'r Comisiynydd Dioddefwr yn cael:

- gweithredu mewn perthynas â diodefwr neu dyst penodol
- gweithredu mewn achos cyfreithiol penodol
- gwneud unrhyw beth mewn perthynas â gweithredoedd a wnaed gan y farnwriaeth neu o dan ei chyfarwyddyd

Mae swyddfa'r Comisiynydd Dioddefwr yn gwneud gwaith ymchwil manwl ar wasanaethau i ddiodefwr ac yn cynhyrchu adolygiadau cynhwysfawr i dynnu sylw at faterion penodol, gan argymhell newidiadau sydd â'r bwriad o wella'r cymorth a gynigir i ddiodefwr. Er enghraifft, mae adolygiadau diweddar gan y Comisiynydd Dioddefwr wedi ymdrin â'r canlynol:

- darparu mesurau arbennig i dystion sy'n agored i niwed ac yn cael eu bygwth<sup>32</sup>
- goroeswyr treisio a'r system cyfiawnder troseddol<sup>33</sup>
- profiad plant o gam-drin domestig a throseddoldeb<sup>34</sup>
- hawliau a phrofiadau teuluoedd mewn profedigaeth yn dilyn lladdiad mewn gwlad dramor<sup>35</sup>

Nid yw'r Comisiynydd Dioddefwr yn meddu'r pwerau i oruchwylio darpariaeth y Cod yn llawn drwy adolygu ei weithrediad. Nid oes gofyniad i asiantaethau cyfiawnder troseddol gydweithredu â'r Comisiynydd Dioddefwr, na dyletswydd arnynt i ddarparu data am berfformiad i'r Comisiynydd Dioddefwr, nac i ymateb i unrhyw argymhellion ar gyfer

---

<sup>32</sup> Next steps for special measures: A review of the provision of special measures to vulnerable and intimidated witnesses – Victims' Commissioner (Mai 2021), t.56, <https://victimscommissioner.org.uk/published-reviews/next-steps-for-special-measures/>

<sup>33</sup> Rape survivors and the criminal justice system - Victims' Commissioner (Hydref 2020), <https://victimscommissioner.org.uk/published-reviews/rape-survivors-and-the-criminal-justice-system/>

<sup>34</sup> Sowing the seeds: Children's experience of domestic abuse and criminality - Victims' Commissioner (Ebrill 2020), <https://victimscommissioner.org.uk/published-reviews/sowing-the-seeds-childrens-experience-of-domestic-abuse-and-criminality/>

<sup>35</sup> Struggling for justice: Entitlements and experiences of bereaved families following homicide abroad - Comisiynydd Dioddefwr (Hydref 2019), <https://victimscommissioner.org.uk/published-reviews/struggling-for-justice-entitlements-and-experiences-of-bereaved-families-following-homicide-abroad/>

gwella. Yn aml, ni fydd argymhellion y Comisiynydd Dioddefwyr yn cael eu gweithredu am eu bod yn rhai cynghorol.<sup>36</sup>

Dylid hefyd edrych ar sefyllfa'r Comisiynydd Dioddefwyr ochr yn ochr â sefyllfa'r Comisiynydd Cam-drin Domestig, y darparwyd ar ei gyfer gan Ddeddf Cam-drin Domestig 2021, sydd â'r rôl o ddarparu arweinyddiaeth gyhoeddus ar faterion cam-drin domestig a chwarae rhan allweddol mewn goruchwyllo a monitro'r ddarpariaeth o wasanaethau cam-drin domestig yng Nghymru a Lloegr. Bydd dyletswyddau statudol gan nifer o wahanol awdurdodau cyhoeddus o dan y ddeddfwriaeth newydd i gydweithredu â'r Comisiynydd Cam-drin Domestig ac ymateb i argymhellion a wneir ganddo.<sup>37</sup>

### **Perfformiad ac atebolrwydd asiantaethau lleol a chenedlaethol**

Mae'r cyfrifoldeb dros ddarparu'r Cod yn perthyn i nifer o wahanol asiantaethau a sefydliadau. Mae'n hanfodol bod yr asiantaethau hyn yn gweithio gyda'i gilydd i gyflwyno'r Cod yn effeithiol a rhoi gwasanaeth da drwyddi draw i ddiodefwr. Mae Comisiynwyr Heddlu a Throseddau yn gweithio mewn partneriaeth ar draws asiantaethau ar lefel leol a chenedlaethol i sicrhau dull gweithredu cydgysylltiedig, ac maent yn gyfrifol am gasglu a monitro data perfformiad a mesur cydymffurfriad partneriaid cyfiawnder troseddol â'r Cod ar lefel leol. Trafodir y canfyddiadau yn y Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol i ganfod materion a phenderfynu ar ymyriadau lleol effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o Gomisiynwyr Heddlu a Throseddau wedi datblygu hyn. Er hynny, gan mai dim ond megis dechrau y mae'r model hwn o hyd, mae'n anodd asesu ei effeithiolrwydd.

Mewn rhai amgylchiadau, gall annibyniaeth angenrheidiol y cyfranogwyr priodol yn y system cyfiawnder troseddol, ei gwneud yn fwy heriol i weithio mewn partneriaeth cyfiawnder troseddol lleol. Er enghraifft, mae gan Gomisiynwyr Heddlu a Throseddau rôl cydlynu a goruchwyllo, felly ni allant orfodi partneriaid cyfiawnder troseddol i ddarparu gwybodaeth gan mai dim ond heddluoedd lleol sy'n atebol i'r Comisiynwyr. Gall hyn arwain at faterion rhannu data sy'n effeithio ar allu ardaloedd i fesur cydymffurfriad â'r Cod ac i ysgogi gwelliannau mewn ffordd ystyrion. Yn ogystal â hyn, mae rhai asiantaethau na fyddant yn rhannu data fel arfer ar lefel leol. Un o'r rhesymau am hyn yw eu bod yn credu, fel asiantaethau cenedlaethol, fod y cyfrifoldeb dros gydymffurfio yn perthyn i'r asiantaeth gyfan ac nid ar y lefel leol. Ar ben hynny, mae anawsterau ymarferol yn codi hefyd am nad yw ardaloedd rhanbarthol yn cyfateb yn union i ardaloedd y Comisiynwyr Heddlu a Throseddau ond, yn hytrach, yn cynnwys ardaloedd nifer o gomisiynwyr.

---

<sup>36</sup> Constitutional powers of the Victims' Commissioner for England and Wales – Comisiynydd Dioddefwyr (Rhagfyr 2020), <https://victimscommissioner.org.uk/published-reviews/constitutional-powers-of-the-victims-commissioner-for-england-and-wales/>

<sup>37</sup> Mae holl swyddogaethau'r Comisiynydd Cam-drin Domestig a'r dyletswyddau sydd ar gyrff eraill i gydweithredu etc wedi'u pennu yn Rhan 2 o Ddeddf Cam-drin Domestig 2021, sydd i'w chychwyn cyn hir, er bod y Darpar Gomisiynydd yn ei swydd er 2019.

## **Rôl Comisiynwyr Heddlu a Throseddu**

Caiff Comisiynwyr Heddlu a Throseddu eu hethol gan y cyhoedd ac mae ganddynt rôl hanfodol o ran gwella a hyrwyddo gwasanaethau i ddiodefwyr. Maent yn gwneud hyn yn uniongyrchol drwy gomisiynu gwasanaethau cefnogi, ac yn anuniongyrchol drwy gynnig atebolrwydd democrataidd lleol a chadeirio Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol mewn sawl ardal. Mae amryw o gyrff yn comisiynu gwasanaethau cymorth i ddiodefwyr, gan gynnwys Comisiynwyr Heddlu a Throseddu sy'n cael cyllid lleol i gomisiynu gwasanaethau cymorth emosiynol ac ymarferol ar gyfer diodefwyr yn eu hardal. Mae'r amrywiaeth o gyrff sy'n ymwneud â chomisiynu cymorth i ddiodefwyr yn gwneud y dirwedd yn gymhleth.

Mae Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn ymgynghori â phobl leol i ddeall anghenion y gymuned ac mae'n rhaid iddynt lunio Cynlluniau Heddlu a Throsedd sy'n nodi eu blaenoriaethau allweddol. Er nad yw'n ofyniad, mae Cynlluniau Heddlu a Throsedd yn aml yn cynnwys mesurau i wella profiadau diodefwyr gyda'r heddlu a'r gwasanaethau a ddarperir i ddiodefwyr.<sup>38</sup> Yn ogystal â hyn, mae gofyn i Gomisiynwyr Heddlu a Throsedd gynhyrchu adroddiad blynyddol i ddangos y cynnydd a wnaed i gyrraedd yr amcanion yn eu Cynlluniau Heddlu a Throsedd.<sup>39</sup> Mae gwaith a phenderfyniadau pob Comisiynydd yn cael eu craffu'n gyhoeddus mewn paneli heddlu a throsedd lleol.<sup>40</sup>

Roedd maniffesto'r Llywodraeth yn ymrwmo i gryfhau ac ehangu rôl Comisiynwyr Heddlu a Throsedd i helpu i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol a pharhau i roi llais cryfach i gymunedau lleol. I helpu i gyflawni hyn, lansiodd y llywodraeth adolygiad dwy ran i'r rôl y llynedd, a chyflwynodd cam cyntaf yr adolygiad argymhellion i finiogi atebolrwydd, gwelededd a thryloywder Comisiynwyr Heddlu a Throsedd.

## **Arolygiaethau asiantaethau**

Mae Arolygiaethau'n gyrff annibynnol sy'n asesu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwahanol asiantaethau cyfiawnder troseddol, gan weithio i hyrwyddo gwelliannau yn y gwasanaethau a ddarperir. Mae'r arolygiaethau'n monitro ac yn adrodd ar yr asiantaethau perthnasol o fewn eu cylch gwaith ar sail dreigl dros wahanol gyfnodau. Maen nhw'n cynnal arolygiadau lle maen nhw'n casglu tystiolaeth berthnasol ac yn gofyn cwestiynau maen nhw'n credu y byddai'r cyhoedd yn dymuno cael atebion iddynt. Ar ôl hyn, maent yn cyhoeddi eu canfyddiadau, eu casgliadau a'u hargymhellion mewn adroddiadau, y bydd yr asiantaethau'n ymateb iddynt fel arfer drwy fabwysiadu cynlluniau gweithredu sy'n dangos

---

<sup>38</sup> Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, Adran 5, <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2011/13/contents>

<sup>39</sup> Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, Adran 12, <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2011/13/contents>

<sup>40</sup> Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, atodlen 6, <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2011/13/contents>



sut byddant yn rhoi sylw i'r argymhellion, er nad yw'r rhain yn eu rhwymo nac yn cael eu cyflawni o reidrwydd ym mhob achos.

Mae pob un o'r pedair arolygiaeth cyfiawnder troseddol (Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (HMICFRS), Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron Ei Mawrhydi (HMCPSI), Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ac Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi) yn monitro'r driniaeth a gafodd diodefwyr mewn gwahanol ffyrdd. Mae cwmpas eu hasesiadau mewn perthynas â phrofiadau diodefwyr fel a ganlyn.

- Mae fframwaith asesu HMICFRS ar gyfer heddluoedd yn mesur pa mor dda yw gwasanaeth yr heddlu ar gyfer diodefwyr troseddu, pa mor dda yw'r heddlu wrth ymgysylltu â'r bobl y mae'n eu gwasanaethu ac wrth eu trin yn deg, yn briodol ac yn barchus, a pha mor dda yw'r heddlu wrth ddiogelu pobl sy'n agored i niwed.
- Mae fframwaith asesu HMCPSI ar gyfer Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r Swyddfa Twyll Difrifol yn ystyried a yw adolygiadau a phenderfyniadau yn cyfrannu at ganlyniadau llwyddiannus ac a ydynt yn darparu gwasanaeth effeithiol i gynorthwyo diodefwyr a thystion a'r cyhoedd. Mae'n asesu, ymysg pethau eraill, y defnydd priodol o amodau remandio neu fechniaeth, Datganiadau Personol y Dioddefwr a gorchmynion ategol wrth ddedfrydu.
- Mae Arolygiaeth Prawf EM yn arolygu gwasanaethau prawf a throeddau ieuencid. Mae ei fframwaith asesu yn ystyried a yw'r cyswllt cyntaf â'r diodefwr yn ei gymell i gymryd rhan yn y Cynllun Cyswllt Dioddefwyr ac yn darparu gwybodaeth am ffynonellau cymorth, ac a oes trefniadau effeithiol ar gyfer cyfnewid gwybodaeth er mwyn diogelu diodefwyr.<sup>41</sup>
- Mae fframwaith asesu Arolygiaeth Carchardai EM yn ystyried a yw carchardai a sefydliadau troseddwr ifanc yn darparu gwybodaeth berthnasol a chywir mewn ffordd amserol yn ystod achosion cyswllt diodefwyr statudol.<sup>42</sup>

Mae'r arolygiaethau'n chwarae rhan hefyd drwy hyrwyddo'r arferion gorau ar faterion thematig, cynhyrchu adroddiadau ar destunau cyffredinol o fewn eu cylch gwaith ac ymgymryd ag ymchwil a dadansoddi pellach. Mae'r Prif Arolygwyr hefyd yn cydweithredu i gynnal cydarolygiadau cyfiawnder troseddol, gan gydweithio i ymdrin â materion cymhleth sy'n cwmpasu nifer o rannau o'r system cyfiawnder troseddol. Yn eu cydarolygiadau, byddant yn canolbwyntio ar brosesau cyfiawnder trawsbynciol a hollgynhwysol, yn cynnwys rhai sy'n ymwneud â phrofiad y diodefwr a'r tyst. Mae'r Rhaglen Cydarolygiadau Cyfiawnder Troseddol yn darparu dau brif fath o arolygiad: rhaglenni craidd (cyfres o

---

<sup>41</sup> Mae'r Cynllun Cyswllt Dioddefwyr ar gael i ddiodefwyr neu berthnasau a gafodd brofedigaeth lle'r oedd y troseddwr wedi'i gael yn euog o drosedd dreisgar neu rywiol ddynodedig a'i ddedfrydu i'r carchar am 12 mis neu fwy (neu i'w gadw mewn ysbyty i gael triniaeth o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 gyda gorchmyn cyfyngu neu hebdo). O dan y Cynllun Cyswllt Dioddefwyr, mae hawl gan rai cymwys i gael gwybodaeth ar gamau allweddol yn nedfryd y troseddwr.

<sup>42</sup> Nid yw'r rhestr hon yn un llawn – nid yw'n disgrifio'r holl feini prawf cysylltiedig â diodefwyr a ddefnyddir gan arolygiaethau cyfiawnder troseddol.

arolygiadau lleol a gynhelir bob blwyddyn ar yr un pwnc craidd) a chydarolygiadau thematig (sydd fel arfer yn arolygiad pwrpasol untro yn ymweld â nifer o ardaloedd er mwyn cyfrannu i un adroddiad terfynol ar fater thematig - er enghraifft, ymchwilio ac erlyn mewn achosion treisio).<sup>43</sup>

Nid yw'r arolygiaethau'n ymdrin yn uniongyrchol â'r holl asiantaethau sydd â rhan mewn darparu'r Cod. Er enghraifft, nid yw eu cylch gwaith yn cynnwys partneriaid cyflawni fel y GIG (er y bydd arolygiaethau'n cydweithredu â chyrrff fel y Comisiwn Ansawdd Gofal), ac nid oes goruchwyliaeth benodedig dros GLITEM (er bod Deddf Cyrff Cyhoeddus 2011 wedi galluogi gweinidogion i drosglwyddo ei bwerau i arolygiaethau eraill).

Mae gwaith yr arolygiaethau wedi'i hen sefydlu ac, fel y nodwyd uchod, mae'n cynnwys asesu profiadau diodefwyr i wahanol raddau. Fodd bynnag, dim ond un rhan o fframwaith asesu ehangach yw materion diodefwyr (ac mewn rhai achosion maent yn rhan lai o'r fframwaith hwn, er enghraifft ar gyfer Arolygiaeth Carchardai EM), ac felly nid nhw yw'r unig ffocws ac nid ydynt yn cael blaenoriaeth uwch. Nid yw gwybodaeth am ddiodefwyr fel arfer yn cael ei chasglu mewn ffordd systematig, nac yn cael ei dwyn ynghyd fel mater o drefn ar draws yr arolygiaethau ar gyfer dadansoddiad cyffredinol, ac eithrio yn achos adroddiadau thematig. Mae dulliau ar gyfer asesu, sgorio a gwella perfformiad yn amrywio hefyd, ac yn aml yn canolbwyntio'n llai ar gyflawni (h.y. ymchwilio i'r manylion ynghylch cydymffurfio â'r Cod) ac yn fwy ar y gwasanaeth a ddarparwyd a'r canlyniadau a gafwyd.

## **Y materion allai camau'r llywodraeth fynd i'r afael â nhw**

Cynlluniwyd y gwaith sydd eisoes ar y gweill gan y Llywodraeth ar gardiau sgorio cyfiawnder troseddol i wneud gwahaniaeth gwirioneddol tuag at wella profiadau diodefwyr o'r system cyfiawnder troseddol. Fodd bynnag, credwn fod angen i ni fynd ymhellach i sicrhau bod gwasanaeth o safon yn cael ei ddarparu i ddiodefwyr ac mae angen i ni greu gwell darlun o brofiadau diodefwyr ar draws y system. I wneud hyn, byddwn yn edrych ar y mecanweithiau goruchwyllo presennol.

Mae Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn cael eu hethol yn uniongyrchol i'r rôl unigryw o sicrhau bod anghenion eu cymuned yn cael eu diwallu. Maent yn comisiynu gwasanaethau ar gyfer diodefwyr ac yn gwella cysylltiadau lleol drwy feithrin hyder ac adfer ymddiriedaeth yn y system cyfiawnder troseddol. Maent yn gweithio mewn partneriaeth ar draws ystod o asiantaethau ar lefel leol a chenedlaethol i sicrhau dull gweithredu unedig. Rydym am ystyried rôl a dyletswyddau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu mewn perthynas â diodefwyr, gan gadarnhau beth sy'n gweithio'n dda a beth

---

<sup>43</sup> Dylid nodi bod argymhellion yn cael eu gwneud hefyd gan gyrff eraill o ran pa gydarolygiadau y gellid eu cynnal. Er enghraifft, roedd yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol wedi argymhell yn ei Adroddiad Interim yn 2019 y dylid cael cydarolygiad o gydymffurfiaeth â'r Cod mewn perthynas â diodefwyr a goreswyr cam-drin plant yn rhywiol.

ellid ei wella. Byddwn yn ystyried yr adolygiad presennol o rôl y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a'i ganfyddiadau wrth lunio ein polisi.

Rydym eisiau deall beth sy'n gweithio a beth ellid ei wella ynghylch y gyfundrefn bresennol o arolygiaethau o ran eu goruchwyliaeth o faterion diodefwyr, eu ffocws arnynt, a'u dull o ymdrin â hwy, a'r ffordd y maent yn casglu ac yn adrodd ar faterion sy'n ymwneud â diodefwyr ar draws yr arolygiaethau. Byddwn yn ystyried a oes lle i wneud pethau'n wahanol.

Rydym am gasglu barn ynghylch y manteision rôl bresennol y Comisiynydd Diodefwyr. Drwy'r ymgynghoriad hwn byddwn yn gwneud y canlynol:

- archwilio pa fesurau y gallem eu cymryd i wella'r ffordd mae Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn comisiynu gwasanaethau cymorth, ac yn cydweithio a rhannu data ar lefel leol i sicrhau bod asiantaethau'n cael eu grymuso'n effeithiol i ysgogi gwelliannau i ddiodefwyr yn eu hardal
- ystyried lle gall y Llywodraeth wneud mwy i gryfhau swyddogaethau presennol er mwyn galluogi mwy o ffocws ar asesu a gwella'r gwasanaethau a ddarperir i ddiodefwyr a chael dull mwy cyson o wneud hynny
- ystyried opsiynau ar gyfer casglu data diodefwyr yn fwy effeithiol a sicrhau ei fod yn cael ei adrodd yn fanwl ac yn rheolaidd.

## Cwestiynau

### **Cwestiwn 9:**

- a) Mae gweithio mewn partneriaeth ar lefel leol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod gwasanaeth o safon yn cael ei ddarparu i ddiodefwyr. Sut y gall asiantaethau gydweithio'n well yn lleol i sicrhau a monitro cydymffurfiaeth â'r Cod?
- b) Sut gellid annog asiantaethau i rannu data'n gyson ar lefel leol a chenedlaethol er mwyn cefnogi'r gwaith o fonitro cydymffurfiaeth â'r Cod ac ysgogi gwelliannau?

**Cwestiwn 10:** Beth ddylai rôl Comisiynwyr Heddlu a Throseddu fod mewn perthynas â darparu gwasanaeth o safon a chomisiynu gwasanaethau cymorth, i ddiodefwyr a phadulliau y gellid eu rhoi i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu i gyflawni'r rôl hon a gwella profiadau diodefwyr o'r system cyfiawnder troseddol ar lefel leol?

### **Cwestiwn 11:**

- a) Ydych chi'n credu bod fframweithiau a rhaglenni presennol yr arolygiaeth yn canolbwyntio ddigon ar faterion a phrofiadau diodefwyr ac yn rhoi blaenoriaeth iddynt, ac yn cydweithio'n effeithiol ar draws y system cyfiawnder troseddol i wneud hynny?
- b) A ellid atgyfnerthu arolygiaethau ymhellach mewn perthynas â diodefwyr?

**Cwestiwn 12:** Ydych yn credu bod trefniadau presennol yr arolygiaeth yn caniatáu i ddata a materion diodefwr gael eu casglu'n ddigonol, ac adrodd arnynt, ar draws y system cyfiawnder troseddol? A ellid gwneud mwy o ddefnydd ohonynt ar gyfer hyn?

**Cwestiwn 13:** Beth yw'r swyddogaethau mwyaf hanfodol i alluogi Comisiynydd Dioddefwr effeithiol?

## Sicrhau bod cymorth i ddiodefwr yn cael ei ddarparu

### Y cefndir a'r sefyllfa bresennol

Mae angen i ni sicrhau bod strwythurau a chyrrff goruchwyllo'n cymell ac yn cefnogi asiantaethau cyfiawnder troseddol, yn unigol ac ar y cyd, a'r rheini sy'n gweithio ynddynt, i ddarparu gwasanaeth o safon gyson i ddiodefwr.

Ar hyn o bryd, mae gan arolygiaethau cyfiawnder troseddol wahanol ddulliau o sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd.

Fel cam cyntaf, rhaid i bartïon perthnasol ymateb i'r adroddiad dan sylw. Er enghraifft, mae'n ofynnol i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu gyhoeddi eu sylwadau am adroddiad o fewn 56 diwrnod ar ôl ei gyhoeddi, a chynnwys esboniad o'r camau a gymerir mewn ymateb i bob argymhelliad. Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn ymateb i adroddiadau Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron Ei Mawrhydi drwy roi sylwadau ar bob argymhelliad ac egluro pa gamau sydd eisoes wedi'u cymryd a'r camau y byddant yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r mater. Bydd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM hefyd yn ymateb i argymhellion gan Arolygiaeth Carchardai EM ac Arolygiaeth Prawf EM drwy nodi mewn cynllun gweithredu sut bydd yn delio â phob argymhelliad.

Mae gan yr arolygiaethau hefyd ddewisiadau i uwchgyfeirio pryderon difrifol iawn, neu achosion lle maent yn teimlo bod diffyg cynnydd wedi'i wneud o ran rhoi sylw i argymhellion. Er enghraifft, gall Arolygiaeth Carchardai EM gynnal 'adolygiadau annibynnol o gynnydd' i asesu i ba raddau y mae carchardai wedi rhoi argymhellion ar waith yn dilyn arolygiad sy'n peri pryder arbennig. Mewn achosion mwy difrifol, gall roi 'hysbysiadau brys' yn tynnu sylw at bryderon sylweddol i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder, y bydd yn ofynnol iddo ymateb iddynt o fewn 28 diwrnod calendr, er na fydd y rhain yn ymwneud fel arfer â materion cysylltiedig â diodefwr.

Yn achos HMICFRS, os na fydd heddlu yn ymateb i achos pryder, bydd hyn yn cael ei uwchgyfeirio i Fwrdd Goruchwyllo Perfformiad yr Heddlu ac mae'n debygol y bydd yr heddlu yn cael i symud i'r cam 'ymgysylltu' – cyfnod o fonitro mwy manwl lle bydd yr heddlu yn datblygu cynllun gwella a lle gall dderbyn cymorth gan sefydliadau allanol fel Coleg yr Heddlu neu Gyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu.

Fodd bynnag, gan nad yw arolygiaethau'n gyrff rheoleiddio, nid oes ganddynt bŵer yn y pen draw i orfodi cydymffurfiaeth â'u hargymhellion.<sup>44</sup>

Mae rhai arolygiaethau'n defnyddio gwahanol dulliau i gymell arferion da. Mae Arolygiaeth Prawf EM yn defnyddio system sgorio ar draws y gwasanaeth prawf. Bydd yn rhoi sgôr 'rhagorol', 'da', 'angen gwella', neu 'anfodhaol' i ddarparwyr prawf ar eu perfformiad cyffredinol, ochr yn ochr â sgoriau lefel safonau unigol (er nad yw hyn yn berthnasol i bob rhan o'u fframwaith asesu). Maen nhw wedyn yn defnyddio'r rhain i greu tablau sgoriau sy'n dangos perfformiad ar draws gwasanaethau. Mae hyn yn debyg i'r dulliau a ddefnyddir mewn sectorau eraill, fel iechyd ac addysg.

Mewn sectorau eraill, gwelsom ddatblygu fframweithiau cadarn ar gyfer arolygu a goruchwyllo gyda phwerau cryfach i sicrhau bod y sefydliadau perthnasol yn cydweithredu ac yn ymateb i argymhellion, gyda chanlyniadau i'r rhai sy'n methu gwneud hynny. Er ein bod yn ymwybodol bod y rhain yn gweithredu mewn sectorau sy'n wahanol iawn i'r system cyfiawnder troseddol, ac nad ydynt yn cynnwys asiantaethau sy'n annibynnol o ran eu cyfansoddiad. Mewn rhai achosion, bydd y canlyniadau hyn am fethiannau neu ddiffyg cydymffurfio yn disgyn ar ysgwyddau unigolion. Mewn achosion eraill, bydd y canlyniadau'n disgyn ar lefel sefydliadol.

- Mae'r Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC) yn gweithredu system sgorio effeithiol ac yn arfer pwerau cynhwysfawr, o dan gyfraith trosedd a chyfraith sifil, sy'n rhoi'r gallu iddo ddiogelu'r cyhoedd a dal darparwyr a rheolwyr cofrestredig yn atebol.<sup>45</sup>
- Mae Ofsted yn darparu sgoriau ac asesiadau tryloyw ar gyfer gwasanaethau sy'n darparu addysg a sgiliau i ddysgwyr o bob oed, yn ogystal ag arolygu a rheoleiddio gwasanaethau sy'n gofalu am blant a phobl ifanc. Mae opsiynau cynhwysfawr ar gyfer adfer ar gael i Ofsted hefyd, yn cynnwys dod ag arweinwyr newydd i mewn neu derfynu cyllid lle mae problemau sylweddol wedi'u nodi.
- Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) yw'r rheoleiddiwr ymddygiad ar gyfer cwmnïau gwasanaethau ariannol a marchnadoedd ariannol yn y DU ac mae'n oruchwyliwr darbodus ar gyfer cwmnïau. Mae'n gosod safonau penodol i lawer, gan anelu at wneud i farchnadoedd weithio'n dda a hyrwyddo diogelwch a chadernid cwmnïau. Mae'n arfer pwerau gorfodi o lawer math (rhai troseddol, sifil a rheoliadol), yn cynnwys tynnu'n ôl awdurdodiad cwmnïau, atal cwmnïau ac unigolion rhag ymgymryd â gweithgareddau a reoleiddir, gosod dirwyon ar gwmnïau neu unigolion sy'n torri rheolau'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol neu'n camddefnyddio marchnadoedd, a

---

<sup>44</sup> Care Quality Commission: Driving improvement. Case studies from eight independent hospitals, CQC, (Mehefin 2019), <https://www.cqc.org.uk/publications/evaluation/driving-improvement-case-studies-eight-independent-hospitals>

<sup>45</sup> Care Quality Commission: Enforcement policy | Care Quality Commission (Mai 2017), <https://www.cqc.org.uk/guidance-providers/regulations-enforcement/about-guidance>

gwneud cais i lysoedd am waharddebau, gorchmynion adfer, gorchmynion dirwyn i ben a gorchmynion ansolfedd eraill.

## **Y materion allai camau'r llywodraeth fynd i'r afael â nhw**

Rydym eisiau nodi beth sy'n gweithio'n dda i gymell perfformiad ar hyn o bryd a sicrhau bod camau'n cael eu cymryd, ac ystyried a ellid defnyddio'r rhain yn fwy rheolaidd ac yn unffurf ar draws y dirwedd diodefwyr. Rydym hefyd eisiau ystyried a oes enghreifftiau o gymhellion a chefnogaeth dda gan sectorau neu awdurdodaethau eraill y gellid eu cymhwyso'n effeithiol i faterion sy'n ymwneud â diodefwyr.

Rydym am ystyried yn ofalus i bwy y byddai unrhyw fesurau newydd yn gymwys. Er mwyn i'n mesurau atebolrwydd fod yn effeithiol, rhaid i ni dargedu'r camau a gymerir yn y ffordd iawn. Rydyn ni am ystyried sut gallai canlyniadau sy'n deillio o fesurau newydd neu well – fel adborth mwy rheolaidd gan ddiodefwyr neu well goruchwyliaeth – weithio. Rydym am archwilio manteision ac anfanteision y gwahanol fodelau a ellid eu defnyddio.

Mae diddordeb gennym glywed pa fesurau i sicrhau bod camau'n cael eu cymryd sydd wedi gweithio'n dda mewn sectorau eraill, a ellid eu defnyddio'n effeithiol mewn perthynas â materion diodefwyr, ac a ddylai canlyniadau ddod i ran unigolion neu sefydliadau, neu'r ddau. Er enghraifft, rydym yn ystyried ai'r grymoedd a ddefnyddir gan y Comisiwn Ansawdd Gofal (sy'n gallu cymryd camau yn erbyn darparwyr a hefyd yn erbyn rhai unigolion) neu'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (sy'n gallu peri i unigolion wynebu canlyniadau yn ogystal â chwmnïau), a fyddai'n gweithio orau, neu a yw'n fwy priodol i ganlyniadau i unigolion barhau'n rhan o brosesau rheoli staff yr asiantaethau eu hunain a fframwaith cwynion gwell (sydd wedi'i drafod isod). Rydym yn ymwybodol bod tystiolaeth o anawsterau ymarferol yn codi wrth osod sancsiynau yn erbyn unigolion yn y system cyfiawnder troseddol, er enghraifft, wrth ganfod pwy sydd ar fai.

Wrth ystyried yr opsiynau hyn, rydym yn dal yn ymwybodol o annibyniaeth weithredol ein partneriaid cyfiawnder troseddol, annibyniaeth y farnwriaeth o dan y cyfansoddiad, ac egwyddor gyfansoddiadol allweddol yr annibyniaeth sydd gan erlynwyr wrth wneud penderfyniadau. Rydym hefyd yn ymwybodol mai system yw'r system cyfiawnder troseddol, a bod asiantaethau'n gallu bod yn ddibynnol weithiau ar sefydliadau eraill i gyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol mewn perthynas â darparu gwasanaeth o safon i ddiodefwyr.

## Cwestiynau

**Cwestiwn 14:** A oes unrhyw fecanweithiau goruchwylio, mesurau neu bwerau a ddefnyddir mewn sectorau eraill (er enghraifft gan y Comisiwn Ansawdd Gofal Plant, Ofsted, ac FCA) a fyddai'n fuddiol ac yn briodol i'w defnyddio yn y system cyfiawnder troseddol i sicrhau bod diodefwyr yn cael gwasanaeth o ansawdd uchel?

**Cwestiwn 15:** A fyddai'n fuddiol cael dull mwy safonol a chyson o oruchwylio, a chymell a chefnogi asiantaethau mewn perthynas â darparu gwasanaeth o safon i ddiodefwyr ar draws y system cyfiawnder troseddol?

**Cwestiwn 16:** Beth ddylai'r canlyniadau fod am fethiannau sylweddol mewn perthynas â darparu gwasanaeth o safon i ddiodefwyr, gan gynnwys cwynion yn ymwneud â'r Cod Dioddefwyr? A ddylid cyfeirio'r canlyniadau hynny at asiantaethau cyfiawnder troseddol yn eu cyfanrwydd a/neu unigolion sy'n gyfrifol am y methiant/methiannau?

## Cynnwys llais y diodefwyr

### Y cefndir a'r sefyllfa bresennol

Er mwyn sicrhau bod diodefwyr wrth galon y system cyfiawnder troseddol a'n bod yn gwella ansawdd y gwasanaethau maent yn eu cael, mae angen i ni ddatblygu'r ffordd rydym yn defnyddio data ynghylch profiadau diodefwyr. Rydym am sicrhau, wrth gasglu data, ein bod yn defnyddio methodoleg sy'n seiliedig ar drawma ac yn osgoi peri i ddiodefwyr ail-fyw'r drosedd.

Ar hyn o bryd ceir dull digyswllt o gasglu data am ddarparu gwasanaethau i ddiodefwyr ac am ymwybyddiaeth o'r Cod a chymau i'w orfodi.

Rydym am glywed lleisiau diodefwyr er mwyn canfod problemau a gwella perfformiad ym mhob rhan o'r system i sicrhau bod gwasanaeth o safon yn cael ei ddarparu'n effeithiol a chyson. Gwyddom fod arferion da ar waith eisoes, ond mae angen i'r rhain ddod yn gyffredin.

Mae heddluoedd yn casglu adborth gan ddiodefwyr yn lleol er mwyn gweithredu gwelliannau sy'n addas i anghenion y gymuned a mesur eu perfformiad o fewn Cynllun Heddlu a Throseddu.

Mae pob un o ardaloedd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cynnal paneli craffu a chynnwys lleol lle trafodir materion lleol â phobl o'r gymuned. Mae'r rhain yn caniatáu i Wasanaeth Erlyn y Goron glywed llais y gymuned yn uniongyrchol ac yn glir.

Mae paneli cynghorol lleol hefyd yn cynnig cyfle i ddioddefwyr gyfrannu eu barn am y dull o ddarparu gwasanaethau.<sup>46</sup>

Mae arolygon cenedlaethol presennol, ar draws systemau, yn bwysig o ran deall profiad y dioddefwr. Mae KANTAR yn cynnal Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr ar ran y Swyddfa Ystadegau Gwladol, lle gofynnir i aelwydydd yng Nghymru a Lloegr am eu profiadau o ystod o droseddau yn ystod y 12 mis diwethaf.<sup>47</sup> Yn ogystal, mae swyddfa'r Comisiynydd Dioddefwyr yn cynnal arolwg dewisol blynyddol o ddioddefwyr. Nid yw'r naill arolwg na'r llall yn cynnwys pob dioddefwr trosedd felly nid yw'r data'n rhoi darlun llawn o brofiad y dioddefwr, ac nid ydynt chwaith yn rhoi darlun o amrywiadau lleol yn lefel y gwasanaeth.<sup>48</sup>

## Y materion allai camau'r llywodraeth fynd i'r afael â nhw

Er mwyn ysgogi gwelliannau o ran darparu gwasanaethau, rydym am sicrhau bod y rheini sy'n gyfrifol am oruchwylio a gwarantu gwasanaeth o safon i ddioddefwyr (yn cynnwys y Llywodraeth, Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, asiantaethau cyfiawnder troseddol a'r gweithwyr proffesiynol rheng flaen eu hunain) yn cael y data priodol ynghylch profiad dioddefwyr o'r system cyfiawnder troseddol, gan gynnwys deall a yw'r profiad yn wahanol i bobl sydd ag anghenion arbenigol.

Rydym am adeiladu ar yr arfer da sydd eisoes yn bodoli, gan roi cyfle i ddioddefwyr adrodd yn ôl ar eu profiad ar adegau allweddol er mwyn ysgogi gwelliant ar draws y system cyfiawnder troseddol. Bydd defnyddio methodoleg sy'n seiliedig ar drawma'n helpu i fesur effaith gwasanaethau, deall beth sy'n gweithio'n dda a thynnu sylw at feysydd i'w gwella yn lleol ac yn genedlaethol.

---

<sup>46</sup> End-to-end rape review report on findings and actions – GOV.UK (Mehefin 2021), t.42, <https://www.gov.uk/government/publications/end-to-end-rape-review-report-on-findings-and-actions>

<sup>47</sup> Ataliwyd cyfweiliadau wyneb yn wyneb Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr ar 17 Mawrth 2020 yn rhan o'r ymdrech i leihau cysylltiadau cymdeithasol ac atal ymlediad y coronafeirws (COVID-19). O ganlyniad i hyn, dyfeisiwyd arolwg newydd dros y ffôn i barhau i fesur troseddu yn ystod pandemig y coronafeirws a'r cyfnod pan na fydd yn bosibl cynnal cyfweiliadau wyneb yn wyneb. Lansiwyd Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr dros y Ffôn (TCSEW) ar 20 Mai 2020 ac mae wedi rhedeg yn barhaus ers hynny.

<sup>48</sup> Victims' Commissioner, Victims' Experience: Annual Survey (Medi 2021), <https://victimscommissioner.org.uk/publications/2021-victim-survey/>



## Cwestiynau

**Cwestiwn 17:** Beth yw'r ffyrdd gorau yn eich barn chi i sicrhau bod lleisiau dioddefwyr, gan gynnwys lleisiau plant a phobl ifanc, yn cael eu clywed gan asiantaethau cyfiawnder troseddol?

**Cwestiwn 18:**

- a) Pa ddata y dylai asiantaethau cyfiawnder troseddol eu casglu am brofiadau'r dioddefwr, ac ar ba bwyntiau allweddol yn y broses?
- b) A allwch chi ddarparu unrhyw enghreifftiau – yn y DU neu mewn mannau eraill – lle mae hyn yn cael ei wneud yn effeithiol?

**Cwestiwn 19:** Ym mha ffyrdd y gallai dioddefwyr ddarparu adborth ar unwaith am y gwasanaeth y maent yn ei gael ac am ei ansawdd (er enghraifft, negeseuon testun, arolygon ar-lein etc.)?

## Cwynion am gymhwyso'r Cod

### Y cefndir a'r sefyllfa bresennol

Ein bwriad yw y bydd y camau a awgrymwyd hyd yma ym Mhenodau 1 a 2 yn arwain at sefyllfa lle y dylai disgwyliadau dilys dioddefwyr o gymorth a thriniaeth o dan y Cod gael cyflawni'n fwy cyson, wrth i broblemau sy'n codi gael eu datrys yn fwy buan. Fodd bynnag, os bydd pethau'n mynd o chwith, dylai proses cwynion fod ar gael sy'n dryloyw a hawdd ei defnyddio gyda chanlyniadau effeithiol.

Dan y Cod, gall dioddefwyr wneud cwyn os nad ydynt yn credu eu bod wedi derbyn yr hyn y dylent fod wedi'i gael - er enghraifft, lle nad yw dioddefwr yn cael gwybod am amser a dyddiad gwrandawriad llys.

Mae'n ofynnol bod pob asiantaeth sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau o dan y Cod yn pennu proses cwynion glir y gall dioddefwyr ei defnyddio i wneud cwyn o'r fath.<sup>49</sup>

Yn y lle cyntaf, dylai cwynion gael eu cyfeirio at yr asiantaeth berthnasol sy'n gyfrifol am warantu'r hawl neu hawliau dan sylw. Mae'n bosibl na fydd hyn yn glir bob amser, ac mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i asiantaethau hysbysu dioddefwyr os ydynt wedi anfon eu cwyn i'r lle anghywir neu os oes angen i fwy nag un sefydliad ddelio â'r gŵyn.

<sup>49</sup> Trefn gwyno, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd – GOV.UK, <https://www.gov.uk/government/organisations/hm-courts-and-tribunals-service/about/complaints-procedure>; Adborth a chwynion – Gwasanaeth Eryl y Goron, <https://www.cps.gov.uk/feedback-and-complaints>

Mae prosesau cwynion yr asiantaethau'n amrywio o ran eu strwythur. Er enghraifft, mae gan GLITEM a Gwasanaeth Erlyn y Goron ill dau broses dri cham i ddelio â chwynion, ac mae Asesydd Cwynion Annibynnol hefyd gan Wasanaeth Erlyn y Goron sy'n cyhoeddi adroddiad blynyddol.<sup>50</sup> Cafwyd bod prosesau i ddelio â chwynion yn aneglur a heb dryloywder.<sup>51</sup>

Os bydd diodefwr yn anfodlon ar y canlyniad i'w cwyn, neu ar y ffordd y deliwyd â hi gan yr heddlu, gallant gysylltu â'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd lleol i fynegi eu pryder. Gallant hefyd wneud cais am adolygiad neu apêl i Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC).<sup>52</sup> Rhaid gwneud cais o fewn 28 diwrnod oddi ar y diwrnod ar ôl y dyddiad ar y llythyr sy'n egluro canlyniad y gŵyn. Gall yr IOPC gyfarwyddo bod yr heddlu i ailymchwilio i'r gŵyn neu ailystyried ei ganfyddiadau. Gall wneud argymhellion hefyd y bydd yn rhaid i'r heddlu eu hystyried ac ymateb iddynt. Mae'n bosibl y gwneir argymhellion ar gyfer dysgu sefydliadol, er mwyn i'r heddlu allu sicrhau na fydd yr un peth yn digwydd eto (er enghraifft, bod yr heddlu yn newid ei bolisiâu neu weithdrefnau hyfforddi) neu gallai weld y byddai swyddog penodol ar ei ennill o gael dysgu neu hyfforddiant ychwanegol.

Gall diodefwr sy'n anfodlon â'r ffordd y deliwyd â'u cwyn gan asiantaeth heb law am yr heddlu sy'n gyfrifol am gyflawni'r Cod, gallant gysylltu â'u Haelod Seneddol, a allai gyfeirio'r mater at yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd (PHSO). Gall y PHSO fynnu bod yr asiantaeth yn ymddiheuro, gall wneud argymhellion ar gyfer newid prosesau (er nad yw'n ofynnol i asiantaethau gydymffurfio) neu gall ddarparu digollediad ariannol gan ddilyn graddfa sy'n mesur maint yr anghyfiawnder.<sup>53</sup>

Mae'r PHSO wedi mynegi pryder am y posibilrwydd bod y drefn o "hidlo cwynion oddi wrth diodefwr gan ASau" yn golygu bod "aelodau o'r cyhoedd yn wynebu rhwystr ychwanegol rhag cyflwyno eu cwynion."<sup>54</sup> Dim ond nifer bach o gwynion am faterion diodefwr a gafodd yn y blynyddoedd diwethaf.

Nid oes gofyniad o dan y Cod i asiantaethau gofnodi neu gyhoeddi gwybodaeth am y cwynion a gafwyd nac am y canlyniad, na gofyniad iddynt ddefnyddio gwybodaeth a

---

<sup>50</sup> Asesydd Cwynion Annibynnol – Gwasanaeth Erlyn y Goron, <https://www.cps.gov.uk/independent-assessor-complaints>

<sup>51</sup> Independent London Victims' Commissioner's Review of Compliance with the Victims' Code of Practice (VCOP), t. 28, [https://www.london.gov.uk/sites/default/files/vcop\\_final\\_pages.pdf](https://www.london.gov.uk/sites/default/files/vcop_final_pages.pdf)

<sup>52</sup> Bydd cais yn cael ei drin fel cais am adolygiad neu gais am apêl yn ôl y math o gŵyn a wnaed. Y rheswm am hyn yw bod cyfreithiau newydd wedi dod i rym o 1 Chwefror 2020 yn darparu ar gyfer hawl newydd i gael adolygiad yn lle'r hawl i apelio flaenorol.

<sup>53</sup> Our guidance on financial remedy - Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd, <https://www.ombudsman.org.uk/sites/default/files/Our-guidance-on-financial-remedy-1.pdf>

<sup>54</sup> The Ombudsman's Annual Report and Accounts, 2020-2021, Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd (Gorffennaf 2021) t.24, [https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/1005942/Parliamentary\\_and\\_Health\\_Service\\_Ombudsman\\_s\\_Annual\\_Report\\_and\\_Accounts\\_2020-2021\\_\\_1\\_.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1005942/Parliamentary_and_Health_Service_Ombudsman_s_Annual_Report_and_Accounts_2020-2021__1_.pdf)

gafwyd gan yr achwynwyr hyn i ganfod problemau systemig neu lywio ystyriaethau disgyblaeth a pherfformiad.

Mae Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr yn dangos fod 74% o'r 125 o ddiodefwr a wnaeth gwynion i'r heddlu yn 2019/20 yn anfodlon iawn ar y ffordd y deliwyd â'u cwyn.<sup>55</sup> Mae hyn yn awgrymu bod problem sylweddol. Fodd bynnag, nid yw asiantaethau'n casglu gwybodaeth yn rheolaidd am fodlonrwydd diodefwr â chanlyniadau eu cwynion, felly mae'n anodd mesur i ba raddau y mae'r cwynion hynny'n ymwneud â'r Cod i wybod a yw lefel yr anfodlonrwydd a welwyd yn yr arolwg yn rhoi darlun cywir, neu ddeall y rhesymau dros anfodlonrwydd diodefwr.

Mae diodefwr yn dweud wrthym hefyd fod prosesau cwynion yn aneglur ac anodd eu defnyddio, ac mai ychydig o dryloywder sydd yn y system.<sup>56</sup>

## Y materion allai camau'r llywodraeth fynd i'r afael â nhw

Credwn fod modd cael gwelliant sylweddol yn y fframwaith ar gyfer cwynion gan ddiodefwr am gymhwysu'r Cod ac y bydd hyn, yn ei dro, yn gwella'r gwasanaethau a ddarperir gan asiantaethau. Gwyddom fod gweithdrefnau cwynion eraill wedi'u pennu mewn deddfwriaeth neu reoliadau.<sup>57</sup> Byddai ffurfioli'r broses ar gyfer delio â chwynion a chael gwell dealltwriaeth o'r gwersi a ddysgwyd yn creu dull mwy cyson o ddelio â chwynion. Gallai fod yn fodd hefyd i osod rhwymedigaethau effeithiol ar asiantaethau i gydgyssylltu â'i gilydd wrth ailgyfeirio cwynion. Ein bwriad yw y bydd camau i wneud y broses cwynion yn haws ei defnyddio, yn seiliedig ar drawma ac yn fwy tryloyw yn peri, yn ei dro, i asiantaethau fod yn fwy ymatebol i bryderon diodefwr ac yn fwy effro i'r angen i gael pethau'n iawn y tro cyntaf er mwyn peidio â chael cwynion.

Rydym am weld gwell trosolwg o'r ffordd y mae asiantaethau'n delio â chwynion er mwyn sicrhau canlyniadau cyson. Rydym am sicrhau bod camau cadarn a thryloyw yn cael eu cymryd yn gyson i ymateb i gwynion gan ddiodefwr, er enghraifft, drwy ddarparu hyfforddiant ychwanegol ac adborth i staff. Ni ddylai asiantaethau aros am gael eu cyfarwyddo gan y PHSO neu'r IOPC cyn gwneud hynny. Rydym am weld asiantaethau'n delio â chwynion mewn ffordd fwy rhagweithiol, gan fabwysiadu diwylliant lle mae'r asiantaethau a'r ymarferwyr yn gweld cwynion yn gyfle i wella eu perfformiad ymhellach.

<sup>55</sup> Tabl S.27, Crime in England and Wales: Annual supplementary tables - Swyddfa Ystadegau Gwladol, <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/datasets/crimeinenglandandwales/annualsupplementarytables>

<sup>56</sup> Independent Victims' Commissioner for London Review of Compliance with the Victims' Code of Practice (2019) [https://www.london.gov.uk/sites/default/files/vcop\\_final\\_pages.pdf](https://www.london.gov.uk/sites/default/files/vcop_final_pages.pdf)

<sup>57</sup> Er enghraifft: Rheoliadau'r Heddlu (Cwynion a Chamymddwyn) 2020, <https://www.legislation.gov.uk/uksi/2020/2/contents/made>

## Cwestiynau

Sylwer: Os ydych yn dymuno cyfeirio at broses cwynion mewn asiantaeth benodol yn eich ymateb i'r cwestiynau sy'n dilyn, byddwch yn glir ynghylch pa asiantaeth rydych yn cyfeirio ati.

**Cwestiwn 20:** Beth yw'ch barn ynghylch sut y gallem symleiddio'r prosesau cwynion presennol i'w gwneud yn fwy tryloyw ac yn haws eu defnyddio gan ddiodefwyr? Sut gallwn ni sicrhau ateb mwy cyflym, gan ddarparu ar gyfer dull mwy cyson o weithredu?

**Cwestiwn 21:** Pa gamau pellach y gellir eu cymryd i wella'r oruchwyliaeth ar gyfer delio â chwynion, yn cynnwys lle mae diodefwyr yn anfodlon ar ganlyniad y broses cwynion?

**Cwestiwn 22:** Beth arall allai asiantaethau ei wneud i wreiddio cwynion sy'n ymwneud â'r Cod Diodefwyr yn eu prosesau gweithredol a rheoli perfformiad?

## **Pennod 3 – Cynorthwyo diodefwr troseddu**

### **Ein gweledigaeth**

Ein gweledigaeth yw bod pob diodefwr trosedd – ac yn enwedig y rheini sy'n dioddef troseddau trawmatig fel cam-drin domestig, trais rhywiol a mathau eraill o drais difrifol – yn cael y gefnogaeth iawn ar yr adeg iawn i adfer ac ailadeiladu eu bywydau. Rydym hefyd am iddynt fod mewn sefyllfa i gymryd rhan yn y system cyfiawnder troseddol fel y byddant yn rhoi eu tystiolaeth orau, er mwyn sicrhau bod troseddwr yn wynebu cyfiawnder.

Rydym eisiau llwybrau clir i gael mynediad a symud di-dor rhwng gwasanaethau iechyd y GIG a gwasanaethau cymorth y trydydd sector, sy'n aml yn gallu darparu cymorth mwy cyfannol i ddiodefwr. Rydyn ni eisiau sicrhau bod gwasanaethau wedi'u teilwra sy'n darparu'r cymorth iawn ar yr adeg iawn ar gael lle bo hynny'n briodol, fel bod pob diodefwr, pwy bynnag ydyn nhw, yn teimlo eu bod yn gallu cael gafael ar gymorth a bod y gwasanaethau hyn yn rhan allweddol o'r dirwedd gymorth. Rydym am i hyn gael ei gyflawni drwy gydweithredu'n effeithiol rhwng y rhai sy'n comisiynu ac yn darparu gwasanaethau fel bod y gwasanaethau iawn ar gael i ddiwallu anghenion diodefwr.

Yn ogystal, rydym yn bwriadu cynyddu'r Gordal Dioddefwr, sef un mecanwaith rydym yn ei ddefnyddio i ariannu gwasanaethau cymorth i ddiodefwr. Bydd hyn yn sicrhau bod pob troseddwr yn gwneud mwy o gyfraniad ariannol tuag at gymorth i ddiodefwr.

Yn y bennod hon rydym yn gofyn am farn ar y canlynol:

- sut y gallai ymyrraeth bellach wella'r ddarpariaeth o wasanaethau cefnogi
- y ffordd orau o gynyddu'r Gordal Dioddefwr.

### **Y cefndir a'r sefyllfa bresennol**

O dan y Cod, mae hawl gan ddiodefwr i gael eu hatgyfeirio i wasanaethau a fydd yn eu cynorthwyo, a chael addasu gwasanaethau a chymorth yn ôl eu hanghenion. Mae cymorth i ddiodefwr, yn enwedig troseddau trawmatig fel cam-drin domestig, trais rhywiol a throseddau treisgar difrifol eraill, yn hanfodol i'w helpu i ymdopi a gwella.

Gwyddom fod y troseddau hyn yn cael effeithiau hirdymor ar les seicolegol, emosiynol a chorfforol y diodefwr. Mae'n briodol i ni roi'r cymorth y maent yn ei haeddu i ddiodefwr y troseddau hyn er mwyn iddynt aildechrau byw ar ôl troseddau trawmatig. Mae cefnogi diodefwr i ymdopi a gwella yn rheidrwydd moesol. Mae manteision ehangach hefyd, gan

y gall y cymorth iawn leihau'r galw ar ddarpariaeth gostus ac aciwt yn nes ymlaen, fel llochesi, gwasanaethau brys a darpariaeth iechyd meddwl statudol. Ar gyfer plant a phobl ifanc yn unig, gwyddom fod bron i £17 biliwn y flwyddyn yn cael ei wario yng Nghymru a Lloegr ar gost ymyrraeth hwyr.<sup>58</sup> Hefyd ceir costau sylweddol yn ddiweddarach i gymdeithas o beidio â rhoi cymorth digonol i ddiodefwr, o ystyried yr amcangyfrifwyd bod cam-drin domestig wedi costio £66 biliwn yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym Mawrth 2017 (tua £74 biliwn ym mhrisiau heddiw) ac yr amcangyfrifwyd bod trais rhywiol wedi costio £12.2 biliwn.<sup>59</sup> <sup>60</sup> Mae'r niwed corfforol ac emosiynol a'r straen ar unigolion ac adnoddau yn golygu fod y troseddau hyn yn broblem iechyd y cyhoedd.

Gwyddom hefyd fod cynorthwyo diodefwr i roi eu tystiolaeth orau a pharhau i gymryd rhan yn eu helpu i fynd yn eu blaen drwy'r system cyfiawnder troseddol. Mae tystiolaeth dda i hyn mewn achosion am droseddau o drais rhywiol. Er enghraifft, mewn ymchwil yn ymwneud â 585 achos o dreisio a adroddwyd, cafwyd bod diodefwr a oedd yn cael cymorth gan wasanaethau fel Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol yn 49% yn llai tebygol o dynnu'n ôl o'r broses ymchwilio cyfiawnder troseddol na'r diodefwr hynny a oedd heb gael cymorth.<sup>61</sup>

Mae'n debygol y bydd diodefwr yn profi amrywiaeth o effeithiau yn dilyn trosedd a gallant fod ag angen gwasanaethau yn y sector statudol ac yn y trydydd sector. Mae amrywiaeth o wahanol wasanaethau cymorth ar gael i ddiodefwr yn y gymuned ('cymorth yn y gymuned') yn dilyn trosedd. Ar sail ein hymgysylltu â'r sector cymorth, mae ein diffiniad dros dro o ddarpariaeth cymorth yn y gymuned yn cynnwys y gwasanaethau canlynol:

- **gwasanaethau cynghori** sy'n darparu gwybodaeth i ddiodefwr am wahanol bynciau i'w helpu yn ystod eu sefyllfa bresennol neu ar ei hôl
- **gwasanaethau eiriolaeth** sy'n darparu cymorth i ddiodefwr i ailsefydlu diogelwch, lleihau risg, rheoli anghenion penodol a darparu cefnogaeth emosiynol, sydd hefyd yn gallu cynnwys eiriolaeth drwy'r system cyfiawnder troseddol
- **gwaith adfer a chynorthwyo** sy'n darparu cymorth hirdymor i ddiodefwr i helpu gyda'u lles a rheoli symptomau sydd wedi'u hachosi gan ddigwyddiad trawmatig - cynigir cymorth i ddiodefwr ar sail un i un neu mewn grŵp.

<sup>58</sup> Early Intervention Foundation (2016), <https://www.eif.org.uk/report/the-cost-of-late-intervention-eif-analysis-2016>

<sup>59</sup> The economic and social costs of domestic abuse – Y Swyddfa Gartref (2019), t.5; <https://www.gov.uk/government/publications/the-economic-and-social-costs-of-domestic-abuse>

<sup>60</sup> Mae'r adroddiad yn awgrymu bod llawer o'r gost hon yn deillio o'r gostyngiad mewn cynnyrch economaidd pan na fydd diodefwr yn gallu dal ati i weithio: The economic and social costs of crime – Y Swyddfa Gartref (2018), [https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/732110/the-economic-and-social-costs-of-crime-horr99.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/732110/the-economic-and-social-costs-of-crime-horr99.pdf)

<sup>61</sup> Rape, inequality and the criminal justice response in England: The importance of age and gender, Walker et al (2019), t.304, <https://journals.sagepub.com/doi/pdf/10.1177/1748895819863095>

Mae gwasanaethau iechyd hefyd yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o gefnogi anghenion iechyd meddwl a chorfforol diodefwyr, gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl a chanolfannau atgyfeirio ymosodiadau rhywiol, sy'n darparu cymorth a gofal iechyd aciwt i bobl, gwasanaethau dilynol, a rhoi mynediad uniongyrchol neu gyfeirio pobl at ISVA.<sup>62</sup>

### **Heriau i wasanaethau yn y gymuned**

Gwyddom fod heriau'n parhau i wynebu diodefwyr wrth geisio cael gfael ar y cymorth sydd ei angen arnynt.

### **Galw am wasanaethau**

Mae darparwyr yn rhoi gwybod i ni fod y galw am wasanaethau cymorth cam-drin domestig a thrais rhywiol yn dal i fod yn fwy na'r cyflenwad, a bod rhestrau aros yn cynyddu. Bu cynnydd o 85% yn nifer yr atgyfeiriadau i wasanaethau iechyd meddwl eilaidd y GIG, gwasanaethau sy'n allweddol i ddiodefwyr troseddu, rhwng Ebrill 2020 a Mai 2021: o 208,829 i 385,430.<sup>63</sup> Ar gyfer diodefwyr sy'n rhan o achosion sy'n cael eu herlyn, mae oedi sy'n gysylltiedig â'r pandemig wedi golygu eu bod yn gadael y system. Rydym yn disgwyl i'r galw am gymorth drwy'r system cyfiawnder troseddol barhau'n uchel wrth i lysoedd weithio drwy achosion sy'n weddill ar gyfradd uwch na chyn y pandemig.

Er bod trais rhywiol a cham-drin domestig yn fathau gwahanol o droseddu, mae'r trefniadau comisiynu ar gyfer darparu cymorth i'r diodefwyr hyn yn rhai cymhleth ac mae tuedd iddynt orgyffwrdd â'i gilydd. Gwyddom hefyd fod y gwasanaethau cymorth yn amrywio o un ardal leol i'r llall a gall hyn arwain at 'loteri cod post' o ran y gwasanaethau sydd ar gael.<sup>64</sup>

Mae'r Llywodraeth yn mynd i'r afael â galwadau am fwy o ddarpariaeth. Rydym wedi buddsoddi mwy na £300 miliwn ar gyfer gwasanaethau cymorth i ddiodefwyr y flwyddyn hon ar draws adrannau (heb gynnwys gwariant y GIG). Neilltuwyd cyllid o £150.5 miliwn gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer gwasanaethau cymorth i ddiodefwyr a thystion yn y gymuned yn 2021/22. Mae hyn yn cynnwys swm ychwanegol o £51 miliwn i ddarparu rhagor o gymorth i ddiodefwyr treisio a cham-drin domestig, ar ben y cyllid argyfwng o'r flwyddyn ariannol ddiwethaf i helpu gwasanaethau cam-drin domestig a thrais rhywiol i gwrdd â'r galw a achoswyd gan COVID-19. Roedd y cyllid ychwanegol hwn yn cynnwys £2 miliwn i helpu sefydliadau sy'n cefnogi diodefwyr lleiafrifoedd ethnig, LGBT neu anabl, a

<sup>62</sup> PTSD following sexual assault or rape – PTSD UK, <https://www.ptsduk.org/what-is-ptsd/causes-of-ptsd/sexual-assault/>

<sup>63</sup> Mental Health Services Monthly Statistics Performance (2020 a 2021) <https://digital.nhs.uk/data-and-information/publications/statistical/mental-health-services-monthly-statistics/performance-april-provisional-may-2020#key-facts>

<sup>64</sup> Domestic Abuse Commissioner submission to HM Treasury Autumn Budget and Spending Review 2021 - representations (2021), <https://domesticabusecommissioner.uk/wp-content/uploads/2021/11/FINAL-2109-Spending-Review-submission-from-the-Domestic-Abuse-Commissioner-for-England-and-Wales.pdf>

£27 miliwn i ddarparu hyd at 700 o swyddi Cyngorydd Annibynnol ar Drais Rhywiol (ISVA) a Chyngorydd Annibynnol ar Drais Domestig (IDVA).

Mae Adolygiad o Wariant 2021 yn atgyfnerthu'r gefnogaeth i ddiodefwr troseddau, drwy gynyddu cyllid blynyddol y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer gwasanaethau cymorth i £185 miliwn erbyn 2024/25 - cynnydd o 85% ers 2019/20. Mae hyn yn cymharu â chyfanswm cyllideb o £48.5 miliwn ar gyfer darparu'r gwasanaethau hyn yn y gymuned yn 2010/11.

### **Gwasanaethau wedi'u teilwra**

Gwyddom fod gwasanaethau pwrpasol neu arbenigol yn gallu bod yn allweddol i rai diodefwr, ac mae galwadau ar i'r math hwn o ddarpariaeth fod yn rhan amlycach o'r dirwedd gomisiynu. Er enghraifft, yn yr alwad gan y Swyddfa Gartref am dystiolaeth ar drais yn erbyn menywod a merched, cafwyd bod galwadau clir am ddarpariaeth well o wasanaethau 'gan ac ar gyfer' sy'n seiliedig ar drawma. Hefyd, roedd traean o'r diodefwr a'r goroeswyr a ymatebodd yn teimlo bod eu hunaniaeth neu eu nodweddion personol yn rhwystr rhag cael gafael ar gymorth neu wasanaethau eraill.<sup>65</sup> Mae diodefwr gwrywaidd cam-drin domestig wedi rhoi gwybod nad oedd yn ymddangos bod gwasanaethau'n addas iddynt, gan eu bod yn teimlo bod y rhain yn aml yn lleoedd i oroeswyr benywaidd yn benodol.<sup>66</sup> Roedd arolwg Galop yn dangos, am yr ymatebwyr LGBT+ hynny a oedd wedi cael cymorth, fod cyfran fwy ohonynt yn fodlon ar y gwasanaeth hwnnw os oedd yn un penodol yn hytrach nag un cyffredinol.<sup>67</sup>

### **Darparu ar gyfer diodefwr o wahanol oedrannau a diodefwr gwahanol fathau o droseddau**

Yn ogystal â chlywed am wasanaethau i ddiodefwr cam-drin domestig a thrais rhywiol, rydym am ddefnyddio'r ymgynghoriad hwn i ddeall pa mor dda mae gwasanaethau'n gweithio ar ran diodefwr mathau eraill o drais difrifol, a diodefwr sy'n blant ac yn bobl ifanc.<sup>68</sup>

---

<sup>65</sup> VAWG Call for Evidence, Tackling violence against women and girls strategy - GOV.UK (Hydref 2021), t.52 <https://www.gov.uk/government/publications/tackling-violence-against-women-and-girls-strategy/tackling-violence-against-women-and-girls-strategy>

<sup>66</sup> Help-seeking by male victims of domestic violence and abuse (DVA): a systematic review and qualitative evidence synthesis – BMJ Open, <https://bmjopen.bmj.com/content/9/6/e021960>

<sup>67</sup> Roedd 8 ym mhob 10 o ymatebwyr a gafodd gymorth penodol ar gyfer pobl LGBT yn fodlon ar y gwasanaeth a gawsant (80%), o'i gymharu â dim ond 4 ym mhob 10 o ymatebwyr a gafodd gymorth cyffredinol (38%); Adroddiad Trosedd Casineb 2021, Galop (Mehefin 2021), t. 8, <https://galop.org.uk/wp-content/uploads/2021/06/Galop-Hate-Crime-Report-2021-1.pdf>

<sup>68</sup> I ddiobenion yr ymgynghoriad hwn, defnyddir y diffiniad o 'drais difrifol' sydd yn y Strategaeth Trais Difrifol: troseddau â chyllyll, troseddau â drylliau, lladdiadau a meysydd troseddoldeb lle mae trais neu'r bygythiad o drais yn gynhenid e.e. llinellau cyffuriau a gweithgarwch cysylltiedig â gangiau. Home Office – Serious Violence Strategy, Ebrill 2018 ([publishing.service.gov.uk](https://publishing.service.gov.uk))



Credwn fod diodefwr mathau eraill o drais difrifol, fel troseddu â chyllyll a throseddu â drylliau, yn debygol o gael budd o gymorth yn y gymuned sy'n debyg i'r hyn sydd ar gael i ddiodefwr cam-drin domestig a thrais rhywiol. Gall diodefwr y troseddau hyn hefyd ddiodefwr effeithiau hirdymor tebyg, a diodefwr niwed sydd wedi'i guddio o olwg y cyhoedd ac fel arfer yn llai tebygol o roi gwybod amdanynt, gyda lefelau isel o ymgysylltu â'r system cyfiawnder troseddol. Mae'r tueddiadau diweddaraf yn dangos cynnydd o 41% yn nifer y cleifion sy'n cael eu derbyn i ysbytai'r GIG yng Nghymru a Lloegr yn dilyn ymosodiadau gyda gwrthrychau miniog rhwng 2014/15 a 2018/19.<sup>69</sup> Mae'n debygol y bydd galw sylweddol am wasanaethau cymorth trais difrifol, gyda 1.6 miliwn o droseddau treisgar yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2021, a gwaith ymchwil yn 2015 yn dangos bod 23.5% o ddiodefwr troseddau treisgar yn cael cyswllt cychwynnol gan Gymorth i Ddiodefwr.<sup>70 71</sup>

Rydym yn deall ei bod yn bosibl bod comisiynwyr, wrth ymdrin ag achosion o drais difrifol, yn canolbwyntio'n bennaf ar fesurau atal ac ymyrryd cynnar, nid dim ond ar gymorth i ddiodefwr ar ôl trosedd. Felly mae'r cyd-destun o ran cymorth i ddiodefwr trais difrifol yn un cymhleth. Drwy'r ymgynghoriad hwn, rydym eisiau sefydlu gwell dealltwriaeth o'r modelau cymorth sy'n bodoli ar hyn o bryd ar gyfer diodefwr, a phenderfynu a yw'r gefnogaeth hon yn effeithiol.

Rydym hefyd yn gwybod bod cam-drin domestig, trais rhywiol a thrais difrifol arall yn effeithio'n anghymesur ar blant a phobl ifanc (er enghraifft, drwy linellau cyffuriau ac ecsbloetio plant yn droseddol). Rydym wedi clywed fod ar blant a phobl ifanc angen pecynnau teilwredig o gymorth a champau ymyrryd, sy'n addas ar eu cyfer.<sup>72</sup> Mae'r gallu gan gomisiynwyr canolog a lleol i gomisiynu gwasanaethau cymorth diodefwr pwrpasol i blant a phobl ifanc, er nad oes gofyniad iddynt wneud hynny yn gyffredinol. Ar y cyfan, nid yw cyllid ar gyfer diodefwr oddi wrth lywodraeth ganolog yn cael ei glustnodi ar gyfer grŵp oedran penodol.

Drwy'r ymgynghoriad hwn, rydym eisiau deall yn well pa mor dda y mae gwasanaethau'n gweithio ar ran diodefwr sy'n blant ac yn bobl ifanc, a sut y dylai'r gefnogaeth ar eu cyfer

---

<sup>69</sup> Crime in England and Wales: Other related tables - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk), Tabl F5, <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/datasets/crimeinenglandandwales/otherrelatedtables>

<sup>70</sup> Crime in England and Wales: Atodiad Tabl 2A – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol – y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2021, <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/datasets/crimeinenglandandwalesappendixtables>

<sup>71</sup> Lowe et al., A UK investigation into engagement with victim support after a violent crime (2015), t.6, [https://www.researchgate.net/publication/304607500\\_A\\_qualitative\\_examination\\_of\\_engagement\\_with\\_support\\_services\\_by\\_victims\\_of\\_violent\\_crime/link/5a75acf345851541ce574811/download](https://www.researchgate.net/publication/304607500_A_qualitative_examination_of_engagement_with_support_services_by_victims_of_violent_crime/link/5a75acf345851541ce574811/download)

<sup>72</sup> Victims' Commissioner: Sowing the seeds, children's experience of domestic abuse and criminality (Ebrill 2020), t.7, [https://s3-eu-west-2.amazonaws.com/victcomm2-prod-storage-119w3o4kq2z48/uploads/2020/03/Sowing-the-Seeds\\_final\\_web.pdf](https://s3-eu-west-2.amazonaws.com/victcomm2-prod-storage-119w3o4kq2z48/uploads/2020/03/Sowing-the-Seeds_final_web.pdf)

fod yn rhan o ddarpariaeth gwasanaethau yn y gymuned. Rydym hefyd eisiau deall am yr heriau o ran darparu gwasanaethau wedi'u teilwra.

### **Llwybrau a chydlynu**

Gall fod yn anodd i ddioddefwr wybod pa fath o wasanaeth fydd yn ei gefnogi orau ar ba adeg, ac o ble i geisio cymorth yn y lle cyntaf. Rydym wedi clywed bod llwybrau rhwng gwasanaethau'r trydydd sector a gwasanaethau iechyd statudol yn ddigyswllt, yn enwedig yn achos y gwasanaethau hynny sy'n darparu cefnogaeth emosiynol a seicolegol. Gall peidio â chael gafael ar y cymorth priodol ar yr amser priodol arwain at ddwysáu'r trawma a chyfrannu at waethygiad yn y symptomau dros amser.

### **ASTUDIAETH ACHOS – CYDWEITHIO I DDARPARU CYMORTH TRAIS RHYWIOL**

Er mwyn sicrhau bod dioddefwyr trais rhywiol a oedd yn defnyddio gwasanaethau iechyd hefyd yn gallu cael gafael ar gymorth ychwanegol priodol, bu Cyngor Sir Gaerhirfryn ac Ysbyty Addysgu Blackpool yn gweithio gyda LimeCulture (sefydliad cenedlaethol ar gyfer trais rhywiol a diogelu) i gynnal treial lle'r oedd swyddogion cyswllt trais rhywiol yn cael eu lleoli mewn timau diogelu ysbytai. Roedd swyddogion cyswllt trais rhywiol yn gallu darparu cymorth yn syth mewn argyfwng a chynnig cyngor i gleifion, yn ogystal â'u hatgyfeirio i wasanaethau eraill fel ISVAs yn y gymuned, gwasanaethau cwnsela a'r heddlu.

Cafwyd bod y model hwn yn hwyluso atgyfeiriadau o'r lleoliad iechyd i wasanaethau eraill, a hefyd yn hybu ymwybyddiaeth o drais rhywiol ymhlith staff y GIG, ac yn galluogi ISVAs i helpu cleientiaid i gael mynediad at gymorth gofal iechyd priodol.

### **Cydlynu'r gwaith o gomisiynu gwasanaethau cymorth**

Mae'r dirwedd gomisiynu yn gymhleth. Mae'n bosibl i wasanaethau cymorth gael eu comisiynu gan gymysgedd o grwpiau, rhai ar lefel genedlaethol gan adrannau'r llywodraeth a/neu GIG Lloegr (fel y llinell gymorth cam-drin domestig a'r gronfa cymorth treisio, y gronfa cymorth treisio, a SARCs), ac eraill ar lefel leol gan Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu, grwpiau comisiynu clinigol ac awdurdodau lleol.

Mae hyn yn golygu nad oes strategaeth gydlynol ar draws ardal leol mewn llawer o achosion i gydlynu'r gwasanaethau a ddarperir. Rydym wedi clywed gan y sector bod rhai heriau'n rhai strwythurol, gan gynnwys diffyg gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth, a diffyg rolau a chyfrifoldebau clir rhwng gwahanol ddarparwyr. Gellir hefyd ymestyn capasiti darparwyr gwasanaethau i fodloni'r gofynion comisiynu, monitro ac adrodd sy'n gysylltiedig â ffrydiau ariannu gwahanol, gan gyfyngu ar y cyllid y gallant ei gael a'r gwasanaethau y gallant eu darparu. Gall hefyd fod yn anodd i fudiadau llai sy'n canolbwyntio ar gymorth arbenigol i gael gafael ar botiau cyllido wedi'u comisiynu'n lleol, o ystyried arbedion maint ac angen lleol cymysg.

Mae heriau o ran cydgysylltu yn gallu bod yn rhwystr rhag targedu gwariant i gwrdd â'r galw a'r angen. Mae perygl y bydd adnoddau'n cael eu dyblygu wrth gomisiynu, a gallai hefyd achosi bylchau mewn darpariaeth gwasanaethau. Mae rhai ardaloedd lleol wedi datblygu fforymau sy'n dod â chomisiynwyr gwasanaethau perthnasol at ei gilydd i ymdrin â materion yn strategol ac ar y cyd. Er hynny, nid yw hyn yn digwydd ym mhob ardal, ac mae llwyddiant yn aml yn dibynnu ar gysylltiadau personol yn hytrach na strwythurau.

### **ASTUDIAETH ACHOS – CYDGOMISIYNU GWASANAETHAU CYMORTH DIODDEFWYR**

Gwelodd Comisiynydd Heddlu a Throseddau Swydd Gaer gynnydd o 45% yn y galw am gymorth i ddiodefwyr treisio a cham-drin rhywiol, gyda chyllid yn statig (dros 5 mlynedd rhwng mis Ebrill 2016 a mis Mawrth 2021). Nododd fod angen fframwaith cydgomisiynu i gwrdd yn well ag anghenion pobl ar draws ardal mor eang.

Daethant â'r pedwar awdurdod lleol yn eu hardal a NHS England at ei gilydd i gomisiynu eu Contract Ôl-ofal i Ddiodefwyr. Er bod yr awdurdodau lleol yn cadw eu cyfrifoldeb dros ddarparu gwasanaethau ôl-ofal, mae hyn yn creu effeithlonrwydd o ran cyllid a gallu i ddarparu. Drwy gynnwys NHS England, sy'n comisiynu'r Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol lleol ochr yn ochr â'r heddlu, ceir gwell cyswllt â'r llwybr gofal aciwt ac ôl-ofal i ddiodefwyr, a hwylusir gwell mynediad at ddarpariaeth iechyd meddwl.

Mae'r berthynas cydgomisiynu yn cael ei chynnal a'i rheoli drwy gyfarfodydd chwarterol rhwng uwch-gynrychiolwyr. Mae hyn yn rhoi cyfle i bob grŵp perthnasol ddeall materion strategol a gweithredol yn yr ardal. Mae'n galluogi'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau i gael gwell trosolwg o'r trefniadau cyllido a chomisiynu, sy'n golygu y gallant wneud penderfyniadau gwell i sicrhau bod anghenion diodefwyr yn cael eu diwallu.

Felly, rydym wedi ymrwymo i ymgynghori ar ddarparu cymorth yn y gymuned i ddiodefwyr cam-drin domestig a thrais rhywiol er mwyn deall yn well sut gallwn ni wella'r gwaith o gomisiynu a chydlynu gwasanaethau yn y gymuned. Mae'r ymgynghoriad hwn yn cyd-fynd yn agos â'r gwaith sy'n cael ei wneud gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, NHS England a NHS Improvement i sicrhau bod diwygiadau i sefydlu systemau gofal integredig statudol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn Lloegr (yn lle Grwpiau Comisiynu Clinigol) hefyd yn sicrhau bod y grwpiau iawn yn cydweithio i gynllunio sut i ddiwallu anghenion pob ardal.

## **Y materion allai camau'r llywodraeth fynd i'r afael â nhw**

Credwn fod lle i gydlynu'n well sut mae gwasanaethau cymorth yn cael eu comisiynu a chael eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau comisiynu. Gallai comisiynwyr lleol weithio

gyda'i gilydd i dargeddu cyllid yn strategol, gan sicrhau bod y gwasanaethau cywir yn cael eu comisiynu i ddiwallu anghenion lleol.

Gall strwythurau mwy ffurfiol helpu i wella cydweithio effeithiol rhwng nifer o asiantaethau (rydym yn nodi rhai enghreifftiau isod), gan alluogi strategaethau ar y cyd sy'n cael eu harwain yn lleol i gyflawni nodau cyffredin. Gall gofynion ar gyrff lleol amrywio o grantiau anstatudol i ddeddfwriaeth sy'n nodi dyletswyddau rhagnodol.

Mae enghreifftiau'n cynnwys y ddyletswydd a'r canllawiau statudol sy'n ei gwneud yn ofynnol i asiantaethau perthnasol gydweithio i reoli troseddwr rhyw a throseddwr treisgar (trefniadau amlasiantaethol ar gyfer amddiffyn y cyhoedd).<sup>73</sup> Cafodd hyn ei werthuso a gwelwyd ei fod wedi lleihau aildroseddu ac wedi galluogi dull amlasiantaeth mwy ymroddedig nag o'r blaen.<sup>74</sup> Mae'r dull ffurfiol mewn deddfwriaeth yn nodi 'awdurdod cyfrifol' arweiniol ac yn rhoi 'dyletswydd i gydweithredu' ar wasanaethau eraill, fel awdurdodau lleol a Grwpiau Comisiynu Clinigol.

Enghraifft arall o gydweithio ffurfiol yw'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn (1998) a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol a Chomisiynydd Heddlu a Throseddu i lunio a gweithredu strategaeth i leihau troseddu ac anhrefn lleol. Canfu adolygiad fod hyn wedi gwella'r ffordd roedd partneriaethau gostwng troseddu ac anhrefn lleol yn cael eu cyflawni yn raddol ac argymhellwyd eglurhad pellach o rolau a chyfrifoldebau unigol o fewn rheini.<sup>75</sup> Bydd y ddyletswydd trais difrifol sydd i fod i gael ei gyflwyno ar ôl cael ei gynnig ym Mil yr Heddlu, Trosedd, Dedfrydu a'r Llysoedd yn gosod gofyniad cyfreithiol ar awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys yr heddlu, awdurdodau lleol a chyrrff iechyd, i fabwysiadu dull aml-asiantaeth, sy'n canolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar er mwyn lleihau trais difrifol.

Roedd Deddf Cam-drin Domestig 2021 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol mewn perthynas â darparu cymorth i ddiodefwr cam-drin domestig a'u plant sy'n byw mewn llefy diogel, a chafodd ei roi ar waith ym mis Hydref 2021 a bydd yn cael ei werthuso maes o law.

Rydym am glywed sut gallai strwythurau cydweithio mwy ffurfiol a rolau a chyfrifoldebau sydd wedi'u diffinio'n gliriach helpu i wella darpariaeth gwasanaethau, gan gadw hyblygrwydd i wasanaethau lleol er mwyn diwallu'r angen lleol orau. Rydym hefyd eisiau clywed barn am yr hyn a allai helpu i sicrhau bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i

<sup>73</sup> Multi-agency public protection arrangements (MAPPA): Guidance - GOV.UK (2021), <https://www.gov.uk/government/publications/multi-agency-public-protection-arrangements-mappa-guidance>

<sup>74</sup> Multi-agency public protection arrangements – Justice Inspectorates (GOV.UK), <https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/research/the-evidence-base-probation/specific-types-of-delivery/mappa/>

<sup>75</sup> Crime and Disorder Act Review (2005): <https://moderngov.harrow.gov.uk/documents/s15829/Crime%20and%20Disorder%20Act%20Review%20Recommendations%20APPENDIX%20A.pdf>

ddarparu gwasanaethau wedi'u teilwra, a sut y gellir egluro a gwella llwybrau rhwng gwasanaethau.

## Cwestiynau

### Cwestiwn 23:

- a) Pa ddyletswyddau statudol a osodwyd ar gyrff lleol i wella cydweithrediad lle mae amryw o grwpiau'n cymryd rhan (fel y rheini a nodwyd uchod) sydd wedi gweithio'n dda, a pham?
- b) Beth yw risgiau neu anfanteision posibl dyletswyddau o'r fath?

**Cwestiwn 24:** Beth sy'n gweithio'n dda yn y trefniadau comisiynu presennol ar lefel leol a chenedlaethol ar gyfer gwasanaethau cymorth i ddiodefwyr:

- a) cam-drin domestig
- b) trais rhywiol (gan gynnwys cam-drin plant yn rhywiol)
- c) mathau eraill o drais difrifol?

**Cwestiwn 25:** Ym mha ffyrdd y gellid dod â'r trefniadau comisiynu ynghyd i hybu a gwella gweithio mewn partneriaeth a ffyrdd cyfannol o ddarparu gwasanaethau cymorth i ddiodefwyr ar gyfer:

- a) holl ddiodefwyr cam-drin domestig,
- b) holl ddiodefwyr trais rhywiol,
- c) holl ddiodefwyr mathau eraill o drais difrifol,
- d) plant a phobl ifanc sy'n ddiodefwyr troseddu?

### Cwestiwn 26:

- a) Beth all y Llywodraeth ei wneud i sicrhau bod comisiynwyr yn ymateb yn ddigonol ac yn gwneud defnydd o arbenigedd sefydliadau llai, sy'n cael eu rhedeg gan ddiodefwyr, yn unol â'r angen lleol?
- b) A ddylai trefniadau comisiynu cenedlaethol fod â rhan yn y fframwaith comisiynu ar gyfer sefydliadau llai sy'n cael eu rhedeg gan ddiodefwyr?
  - Dylent – [eglwurwch y rhesymau]
  - Na ddylent – [eglwurwch y rhesymau]

**Cwestiwn 27:** Beth all comisiynwyr lleol (awdurdodau lleol a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu) ei wneud i wella'r ffordd mae gwasanaethau 'gan ac ar gyfer' arbenigol yn cael eu comisiynu ar gyfer eu hardal?

**Cwestiwn 28:**

- a) Pa heriau y mae diodefwr yn eu hwynebu wrth gael mynediad at gymorth integredig mewn darpariaethau gan y trydydd sector a gwasanaethau iechyd?
- b) Pa fesurau ymarferol neu fecanweithiau cyfeirio allai gael eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r rhain, a sut byddent yn cael eu rhoi ar waith?

## Cynyddu'r Gordal Dioddefwr

Yn olaf, rydym am wneud yn siŵr bod y Gordal Dioddefwr ('y gordal') – un ffordd sydd gennym o ariannu gwasanaethau cymorth i ddiodefwr – yn sicrhau bod troseddwr yn gwneud digon o gyfraniad ariannol tuag at gost y cymorth i ddiodefwr. Fel y nodwyd yn gynharach yn y bennod hon, mae galw mawr am wasanaethau cymorth, ac mae'r pandemig wedi gwaethygu hyn. Rydym yn ystyried cynigion i gynyddu'r gordal i gynhyrchu rhagor o incwm ar gyfer darparu gwasanaethau cymorth i ddiodefwr. Mae'r adran hon yn ceisio barn ar sut y gallai hyn gael ei gyflawni.

## Y cefndir a'r sefyllfa bresennol

Cyflwynwyd y gordal yn 2007 i sicrhau bod troseddwr yn arddel rhywfaint o gyfrifoldeb tuag at y gost o gynorthwyo diodefwr a thystion. Rhaid i'r llys orchymyn bod pob troseddwr yn talu'r gordal ac eithrio lle nad oes gan droseddwr y modd i dalu iawndal i'r diodefwr a'r gordal. Bydd iawndal i ddiodefwr unigol bob amser yn cael ei dalu cyn casglu'r gordal.

Cyflwynwyd y gordal i ddechrau ar gyfradd safonol o £15 ar gyfer y diodefwr hynny a gafodd ddirwy yn unig. Ers hynny, mae wedi cael ei ehangu i fod yn gymwys i bob troseddwr sy'n cael dedfryd gan y llysoedd. Dim ond cynnydd cymedrol iawn sydd wedi bod ers ei gyflwyno. Ar hyn o bryd mae oedolion a sefydliadau sy'n troseddu'n talu rhwng £22 a £190 yn dibynnu ar ddifrifoldeb y drosedd. Mae'r gordal uchaf yn cael ei roi i'r rheini sy'n cael dedfryd o garchar neu sy'n cael dirwy fawr.

Mae'r incwm a gesglir o'r gordal wedi'i glustnodi ac mae'n cyfrannu at gyllideb y Weinyddiaeth Gyfiawnder a ddyrennir i wasanaethau cymorth i ddiodefwr a thystion.<sup>76</sup> Yn 2021/22, mae'r gyllideb yn £150.5 miliwn, ac mae'r gordal yn cyfrannu tua 25% o hynny. Mae'r gyllideb yn cyllido Comisiynwyr Heddlu a Throseddu i ddarparu

<sup>76</sup> Yr incwm a gesglir yw tua £39 miliwn ([https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/936835/moj-annual-report-accounts-2019-2020.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/936835/moj-annual-report-accounts-2019-2020.pdf)) a'r gyfradd gasglu yn 2019 dros 18 mis oedd 61% (<https://www.gov.uk/government/collections/criminal-court-statistics>).

gwasanaethau cefnogi lleol i ddioddefwyr yn eu cymunedau. Mae hefyd yn ariannu cymorth ar lefel genedlaethol fel:

- canolfannau cymorth treisio ledled Cymru a Lloegr
- y Gwasanaeth i Dystion mewn Llysoedd
- Gwasanaeth Lladdiadau Cenedlaethol

## Y materion allai camau'r llywodraeth fynd i'r afael â nhw

Mae'r galw a'r angen am wasanaethau cymorth i ddioddefwyr wedi parhau i gynyddu ac mae'r llywodraeth hon wedi ymrwmo i sicrhau bod dioddefwyr yn gallu cael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnynt. Mae hyn yn golygu bod angen i ni edrych ar ffyrdd eraill o ariannu'r gwasanaethau hyn ac un llwybr posibl fyddai cynyddu'r gordal. Mae'r gordal yn ffordd amlwg i droseddwyr wneud cyfraniad tuag at ddioddefwyr a helpu i ariannu'r gwasanaethau sy'n rhoi cymorth iddynt. Rhaid defnyddio unrhyw incwm o'r gordal i ariannu gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr a thystion, sy'n golygu y bydd unrhyw incwm pellach yn sgil cynyddu'r gordal yn cyfrannu'n uniongyrchol at y mudiadau hyn.

Mewn addewid cyn yr etholiad, ymrwymodd y Llywodraeth y byddai'r gordal yn cael ei gynyddu o 25% erbyn 2024. Cafodd cynnydd o 5% ei gyflwyno'r llynedd, gan adael 20% yn weddill i'w gyflawni. Byddai'r cynnydd arfaethedig yn newid y cyfraddau gordal fel a ganlyn:

Dedfryd	Cyfradd y Gordal		
	Cynt	Cyfredol – cynnydd o 5%	Arfaethedig – cynnydd pellach o 20%
Rhyddhad amodol	£21	£22	£26
Dirwy (unigolion / sefydliadau)	10% o'r ddirwy. O leiaf, £32, dim mwy na, £181	10% o'r ddirwy. O leiaf, £34, dim mwy na, £190	10% o'r ddirwy. O leiaf, £40, dim mwy na, £226
Gorchymyn cymunedol	£90	£95	£113
Dedfryd o garchar (chwe mis neu lai)	£122	£128	£153
Dedfryd ohriedig o garchar (dros chwe mis)	£149	£156	£186
Dedfryd o garchar ar unwaith (chwe mis neu lai)	£122	£128	£153

Dedfryd	Cyfradd y Gordal		
	Cynt	Cyfredol – cynnydd o 5%	Arfaethedig – cynnydd pellach o 20%
Dedfryd o garchar ar unwaith (mwy na chwe mis hyd at ac yn cynnwys dwy flynedd)	£149	£156	£186
Dedfryd o garchar ar unwaith (dwy flynedd hyd at oes)	£181	£190	£226

I ategu'r addewid hwn, rydym yn gofyn am farn ynghylch cynyddu'r gyfradd isaf ar gyfer y gordal uwchlaw'r cynnydd o 20%. Fel y nodir yn y tabl uchod, y gyfradd isaf ar hyn o bryd yw £22 a'r uchaf yw £190. Mae'r amrywiad hwn ar gyfraddau yn sgil difrifoldeb y drosedd. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu na ellir cynyddu'r swm sylfaenol y mae'n rhaid i droseddwr ei dalu.

Rydym ni hefyd yn ystyried cynnig i gynyddu lefel sylfaenol y gordal i £100. Byddai hyn yn newid dwy o gyfraddau gordal: rhyddhad amodol a dirwyon (cap lleiaf) (yn seiliedig ar gyflwyno'r cynnydd o 20%). Er enghraifft, o ran rhyddhad amodol, mae hyn yn golygu y gallai gynyddu ymhellach o £26 i £100. Ar gyfer sefydliadau ac oedolion sy'n cael eu dedfrydu i ddirwy, 10% o werth y ddirwy yw'r gordal ar hyn o bryd gyda chap isaf o £34 a chap uchaf o £190 (sy'n daladwy ar ddirwyon o £1,900 ac uwch). Gallai hyn olygu y byddai'r terfyn isaf ar gyfer dirwyon yn cynyddu o £40 i £100. Byddai'r cyfraddau gordal sy'n weddill yn amodol ar y cynnydd o 20% fel y nodir yn y tabl uchod.

Mae'r gordal am ddirwyon yn wahanol i'r gordal sy'n daladwy ar ddedfrydau cymunedol neu ddedfrydau o garchar, gan y gall mudiadau ac unigolion ei dalu. Mae'r rhan fwyaf o droseddwr unigol yn cael eu dedfrydu i lefel o ddirwy sy'n golygu y byddant yn talu'r gordal ar y cap isaf (h.y. dirwy o £340 neu lai). Fel arfer, mae sefydliadau'n derbyn dirwyon uwch a byddant yn talu naill ai 10% neu £190. Mae hyn yn golygu bod unigolion yn fwy tebygol o dalu £34 (sy'n gallu bod yn uwch na 10% o'r ddirwy) ond, er eu bod yn cael dirwyon mwy, bydd rhai sefydliadau'n talu £190 (sy'n gallu bod yn is na 10% o'r ddirwy). Rydym yn gofyn am farn i weld a ddylem fynd i'r afael â'r gwahaniaeth hwn.

Rydym hefyd yn dymuno ystyried a ddylid cynyddu'r cyfraddau isaf ar gyfer dedfrydau mwy difrifol eraill i adlewyrchu'r effaith ar ddiodefwyr ac o ran cymesuredd, gyda chynnydd yn y gordal isaf ar gyfer dirwyon a rhyddhad amodol. Bydd faint o incwm y bydd unrhyw gynnydd yn ei gynhyrchu yn amrywio gan fod hyn yn dibynnu ar fod cyfraddau casglu'n aros yn gyson. Nid oes terfyn amser ar gyfer talu'r gordal felly gellir ei dalu dros nifer o fisoedd.



Byddwn yn defnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd i lywio unrhyw gynnig terfynol a byddwn yn llunio asesiad effaith gydag ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Os yw'n edrych yn debyg bod dadansoddiad cost a budd y cynnig yn dangos baich o dros £5 miliwn y flwyddyn ar fusnesau neu elusennau, yna byddwn yn ceisio barn y Pwyllgor Polisi Rheoleiddio.

## Cwestiynau

### **Cwestiwn 29:**

a) Ydych chi'n cytuno y dylem ystyried cynyddu'r gordal?

- Ydw - esboniwch pam
- Nac ydw - esboniwch pam
- Ddim yn gwybod / dim ateb

b) A ddylem ystyried cynnydd canrannol cyffredinol (er enghraifft cynyddu'r gyfradd gordal o 20%)? Os felly, a oes gennych chi unrhyw farn ynghylch beth ddylai'r cynnydd canrannol fod?

c) A ddylem gynyddu'r gyfradd sylfaenol (er enghraifft i £100)? Os felly, a oes gennych chi unrhyw farn ynghylch beth ddylai'r gyfradd isaf fod?

**Cwestiwn 30:** Mae'r gordal ar gyfer dirwyon yn wahanol i ordaliadau eraill a orfodir, gan ei fod yn cael ei dalu gan unigolion a sefydliadau ac yn cael ei gyfrifo fel canran o'r ddirwy gyda chapiau isaf ac uchaf.

a) Ydych chi'n cytuno y dylem adolygu'r gordal sy'n cael ei dalu am ddirwyon?

- Ydw - esboniwch pam
- Nac ydw - esboniwch pam
- Ddim yn gwybod / dim ateb

b) A ddylem adolygu cyfraddau capio ar gyfer symiau gordaliadau ar gyfer dirwyon? Os felly, a oes gennych chi unrhyw farn ynghylch beth ddylai'r cap isaf / uchaf fod?

c) A ddylem adolygu'r swm canrannol? Os felly, a oes gennych chi unrhyw farn ynghylch beth ddylai swm canrannol fod?

## Pennod 4 – Gwella Cymorth Eirioli

### Ein gweledigaeth

Ein gweledigaeth yw bod dioddefwyr yn cael eu cefnogi i ailadeiladu eu bywydau ac yn dod dros effeithiau troseddau drwy wasanaethau hygrych, proffesiynol ac wedi'u cydlynu'n dda. Mae gan Eiriolwyr dioddefwyr –ISVAs ac IDVAs a mathau eraill o eiriolwyr – rôl hollbwysig i'w chwarae o ran helpu dioddefwyr agored i niwed i gael gafael ar gymorth, i ymdopi, i wella ac i ymgysylltu â'r system cyfiawnder troseddol.

Rydym yn edrych ar rôl eiriolwyr dioddefwyr yn yr ymgynghoriad hwn oherwydd ein bod yn deall eu rôl hanfodol o ran gwella teithiau dioddefwyr. Mae bodlonrwydd dioddefwyr gyda ISVA a IDVA yn ail yn unig i'w bodlonrwydd â chwngwylwyr/seicolegwyr hyfforddedig, gan dynnu sylw at y rôl hollbwysig a buddiol y maent yn ei darparu.<sup>77</sup> Mae ymchwil wedi dangos hefyd bod 93% o ddioddefwyr treisio sy'n cael cymorth gan ISVA neu wasanaeth cymorth arall wedi rhoi gwybod i'r heddlu am y drosedd, o'i gymharu â dim ond 54% pan na chafwyd cymorth o'r fath.<sup>78</sup>

Credwn fod ffyrdd y gallai camau'r llywodraeth helpu i oresgyn heriau y mae eiriolwyr yn eu hwynebu wrth ddarparu cymorth. Rydym wedi gweithio'n galed i gynyddu'r ddarpariaeth fel bod mwy o ddioddefwyr yn gallu elwa o gefnogaeth ISVA ac ISVA – neilltuwyd £27 miliwn, a alluogodd hyd at 700 o swyddi yn 2020/21, a sicrhau cyllid ychwanegol yn ystod cyfnod yr Adolygiad o Wariant nesaf. Drwy'r ymgynghoriad hwn, rydym hefyd eisiau ystyried sut y gall camau pellach gan y llywodraeth gefnogi eiriolwyr proffesiynol dros ddioddefwyr troseddau niwed cudd i oedolion a phlant (yn enwedig ISVA ac IDVA) i fod mor fedrus â phosibl er mwyn darparu'r gefnogaeth a'r gwasanaethau gorau. Byddwn yn ceisio datblygu ein gwybodaeth am arferion gorau ac ystyried lle gellid safoni a chryfhau rolau eiriolwyr ac a fyddai hynny'n fuddiol, a lle gallai camau gweithredu'r llywodraeth helpu i wneud hynny. Dylai dioddefwyr gael gwasanaeth cyson y gellir ymddiried ynddo, beth bynnag fo'u profiad, a ble bynnag y maent yn y wlad. Rydym hefyd am edrych sut y dylai eiriolwyr weithio gydag asiantaethau eraill i roi profiad cydgysylltiedig a di-dor i ddioddefwyr o'r system cyfiawnder troseddol, ac ym mha ffyrdd y gallai'r Llywodraeth

---

<sup>77</sup> Strategaeth mynd i'r afael â thrais yn erbyn Menywod a Merched, GOV.UK, (Gorffennaf 2021) [https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/1005630/Tackling\\_Violence\\_Against\\_Women\\_and\\_Girls\\_Strategy-July\\_2021-FINAL.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1005630/Tackling_Violence_Against_Women_and_Girls_Strategy-July_2021-FINAL.pdf)

<sup>78</sup> Rape survivors and the criminal justice system - Victims' Commissioners Office (Hydref 2020), t.14 <https://victimscommissioner.org.uk/published-reviews/rape-survivors-and-the-criminal-justice-system/>. Mae hyn yn gysylltiol, yn hytrach nag achosol. Efallai bod goroeswyr yn fwy tebygol o roi gwybod i'r heddlu am fod ganddynt ISVA neu mae'r rheini sy'n rhoi gwybod yn fwy tebygol o gael eu cyfeirio at ISVA.

ymyrryd er mwyn hwyluso gwell gwaith amlasiantaeth, ac ym mha ffyrdd y dylent wneud hynny.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar ISVAs ac IDVAs am ein bod wedi datblygu mwy o ddealltwriaeth o'r swyddi hyn ac am fod cyllid y Llywodraeth ar gyfer y rolau hyn.<sup>79</sup> Fodd bynnag, rydym yn gwerthfawrogi fod rolau eiriolaeth tebyg yn bodoli, ac mae cwestiynau yn yr ymgynghoriad hwn a allai fod yr un mor berthnasol i bob gwasanaeth eiriolaeth.<sup>80</sup>

Yn y bennod hon rydym yn gofyn am farn ar y canlynol:

- y profiadau o waith ymarferol a gaiff ISVAs, IDVAs ac eraill mewn rolau eirioli tebyg sy'n cynorthwyo diodefwr cam-drin domestig, trais rhywiol a mathau eraill o niwed cudd, ynghyd â'r sefydliadau sy'n eu hyfforddi a'u recriwtio
- sut mae'r rolau hyn yn rhyngweithio ag asiantaethau eraill, y tu mewn a'r tu allan i'r system cyfiawnder troseddol a'r system cyfiawnder teuluol
- yr arferion gorau ac ystyriaeth i'r camau pellach y gellid eu cymryd i hyrwyddo rolau'r ISVA a'r IDVA, yn cynnwys mewn perthynas â phlant a phobl ifanc
- a fyddai safonau, canllawiau neu fframweithiau eraill statudol ac/ neu anstatudol yn gallu cryfhau rolau eiriolwyr
- os a sut y gall y Llywodraeth chwarae rhan wrth wella a safoni gwaith ym maes eirioli

## Diffinio swyddogaethau

### Y cefndir a'r sefyllfa bresennol

Mae nifer o wahanol fathau o eiriolwyr diodefwr, ond bydd pob un ohonynt i raddau helaeth yn darparu rôl ymyrryd mewn argyfwng, gyda'r nod o wella diogelwch a lleihau'r risg i'r diodefwr. Mae eiriolwyr hefyd yn gweithio i sicrhau bod diodefwr yn gallu gwneud dewisiadau gwybodus a'u bod yn gallu cael gafael ar amrywiaeth o wasanaethau ac asiantaethau, gan gynnwys y system cyfiawnder troseddol.<sup>81</sup>

Fodd bynnag, nid oes diffiniadau clir, penodedig o eiriolaeth i dros ddiodefwr yng Nghymru a Lloegr. Mae hyn yn arwain at safonau anghyson ac anhawster wrth dracio'r olrhain cyflenwad a'r galw, mesur effaith, a monitro profiad a chefnogaeth i ddiodefwr.

<sup>79</sup> Extra £40m to help victims during pandemic and beyond – GOV.UK (Chwefror 2021), <https://www.gov.uk/government/news/extra-40m-to-help-victims-during-pandemic-and-beyond>

<sup>80</sup> Rhai o'r rolau eiriolaeth eraill sydd ar waith yw'r Cynghorwyr Annibynnol ar Drais ar sail Rhywedd (IGVA), Eiriolwyr Llochesi i Weithwyr Achos Eirioli Annibynnol ar Stelcio (ISC), Gweithwyr Achos Lladdiadau, Cynghorwyr Trais Pobl Ifanc (YPVAs), ac IDVAs y Llys Teulu, ochr yn ochr ag amrywiaeth o weithwyr achos sy'n darparu swyddogaethau tebyg. Ceir eiriolwyr penodol hefyd i ofalu am blant a phobl ifanc.

<sup>81</sup> National scoping exercise of advocacy services for victims of violence against women and girls – GOV.SCOT (Awst 2017), <https://www.gov.scot/publications/national-scoping-exercise-advocacy-services-victims-violence-against-women-girls/pages/11/>

Mae ymchwil gan y Comisiynydd Dioddefwyr yn awgrymu bod y diffyg diffiniadau o rolau a chyfrifoldebau eiriolwyr yn golygu y gellir cael gorgyffwrdd rhwng y rolau hyn a gwasanaethau presennol a ddarperir gan asiantaethau eraill.<sup>82</sup> Credwn y gallai gwell dealltwriaeth o swyddogaethau allweddol eiriolwyr a gwell rhannu gwybodaeth a safonau fod yn ddefnyddiol, gan helpu i osgoi dyblygu a dryswch yn y system. Byddai hyn yn helpu diodefwr i wybod y byddant bob amser yn cael cymorth amserol o safon uchel pan fyddant yn defnyddio gwasanaethau eiriolaeth.

Rydym am wneud yn siŵr nad yw unrhyw ymyriadau gan y llywodraeth yn amharu ar y gwaith cyfoethog, cymhleth ac amrywiol y gall y rolau hyn ei ddarparu. Rydym am ofalu bod unrhyw ddiffiniadau, safonau neu ganllawiau'n caniatáu i'r sector barhau i arloesi a gweithredu'n greadigol wrth ddarparu eiriolaeth, fel y mae wedi gwneud hyd yn hyn.

Mae IDVAs ac ISVAs yn cyflawni swyddogaethau tebyg ond maent yn wahanol i'w gilydd. Er ei bod yn bosibl bod rhywfaint o orgyffwrdd o ran cyd-ddealltwriaeth ac ymarfer, mae'r ddwy rôl yn cwmpasu gwybodaeth a sgiliau unigryw. Maent hefyd yn rhannu heriau cyffredin.

Rydym hefyd yn ymwybodol bod rolau eraill sy'n darparu cymorth tebyg i ddiodefwr trais rhywiol a cham-drin domestig nad ydynt yn disgrifio eu hunain fel IDVAs neu'n ISVAs. Mae hyn yn arbennig o amlwg mewn gwasanaethau sy'n cefnogi plant a phobl ifanc a gwasanaethau arbenigol hanfodol sy'n cael eu rhedeg 'gan ac ar ran' sefydliadau sy'n gwasanaethu'r rheini o gymunedau penodol neu sydd ag anghenion penodol.

## **Y materion allai camau'r llywodraeth fynd i'r afael â nhw**

Credwn y gallai diffinio swyddogaethau allweddol eiriolwyr yn hybu ymwybyddiaeth diodefwr o'r cymorth y dylent ddisgwyl ei gael, ac felly gwella mynediad, ac yn yr un modd cynyddu'r dealltwriaeth sydd gan asiantaethau eraill, a'u parodwydd i ymgysylltu â'r rolau hyn.

Rydym am gael dealltwriaeth ddyfnach o gymorth eirioli, yn cynnwys eiriolwyr sy'n gweithio mewn sefydliadau 'gan ac ar gyfer', gan nodi'r heriau penodol maen nhw'n eu hwynebu wrth gael gafael ar adnoddau a defnyddio asiantaethau eraill, er mwyn datblygu diffiniadau posibl a fydd yn sail i'r rolau hyn.

---

<sup>82</sup> Victim Advocates: A Rapid Evidence Assessment – Victims' Commissioner (Chwefror 2019), t.24  
<https://victimscommissioner.org.uk/published-reviews/victim-advocates-a-rapid-evidence-assessment/>

## Cwestiynau

**Cwestiwn 31:** Pa le sydd gan IDVAs yn y rhwydwaith ehangach o wasanaethau cymorth sydd ar gael i ddiodefwr cam-drin domestig?

**Cwestiwn 32:** Ym mha ffordd y byddai diffinio rôl yr IDVA yn gallu effeithio ar wasanaethau, gweithwyr eraill yn y sector a'r IDVAs eu hunain?

**Cwestiwn 33:** Pa le sydd gan ISVAs yn y rhwydwaith ehangach o wasanaethau cymorth sydd ar gael i ddiodefwr trais rhywiol?

**Cwestiwn 34:** Ym mha ffordd y byddai diffinio rôl yr IDVA yn gallu effeithio ar wasanaethau, gweithwyr eraill yn y sector a'r IDVAs eu hunain?

**Cwestiwn 35:** Pa heriau a wynebwr wrth gael gafael ar wasanaethau eirioli a sut y gall y Llywodraeth helpu eiriolwyr i gyrraedd diodefwr yn yr holl gymunedau?

**Cwestiwn 36:** Pa rolau eirioli eraill sydd mewn bod sy'n cynorthwyo diodefwr troseddau cudd, fel mathau eraill o drais difrifol? Amlinellwch y swyddogaethau y mae'r rolau hyn yn eu cyflawni. I ba raddau mae'r heriau a wynebwr yn debyg i'r rheini a brofir gan ISVAs ac IDVAs? A oes rhwystrau penodol?

## Safonau Ansawdd

### Y cefndir a'r sefyllfa bresennol

Mae nifer o sefydliadau sy'n gosod safonau ansawdd ar gyfer ymarfer ISVA ac IDVA, y mae gwasanaethau eirioli'n gweithio i'w cyflawni. Mae'r sefydliadau hyn hefyd yn darparu hyfforddiant a chymwysterau achrededig y mae'r ISVAs a'r IDVAs yn ymgymryd â nhw i fagu sgiliau, gwybodaeth, arbenigedd a dulliau gweithredu i gefnogi diodefwr. Er y gall hyfforddiant ac achredadau amrywio, mae egwyddorion tebyg ar waith. Gwyddom, yn dilyn sgysiau gyda darparwyr a rhanddeiliaid, fod y dulliau gwahanol yn adlewyrchu gwahaniaethau o ran ethos ac ymagwedd ideolegol y gwahanol ddarparwyr.

Er y manteision o gael y gwahanol bersbectifau hyn, rydym yn ymwybodol bod cymhlethdodau'n gallu codi o gael cymwysterau gwahanol. Mae nifer o randdeiliaid wedi codi'r mater o IDVAs neu ISVAs cymwys yn ail-hyfforddi gyda sefydliad gwahanol oherwydd manylebau contractau comisiynu, neu am eu bod yn wynebu rhwystrau rhag sicrhau hyfforddiant ac achrediad oherwydd cyfyngiadau ariannol a chyfyngiadau o ran amser. Gall hyn fod yn broblemus iawn i'r rheiny sy'n darparu gwasanaethau arbenigol am eu bod yn aml yn gweithio o fewn dalgyrch ehangach, ac yn wynebu gwahanol ofynion comisiynu ym mhob rhanbarth neu'n wynebu heriau wrth sicrhau cyllid.

Ar hyn o bryd, ychydig o ganllawiau sydd ar gael ar y rolau hyn, ac nid oes dim sy'n gyfreithiol rwymol neu'n orfodadwy. Mae hyn yn cynnwys 'elfennau hanfodol rôl ISVA' y Swyddfa Gartref yn 2017. Fodd bynnag, nid oes canllawiau cyfatebol wedi'u cyhoeddi gan y llywodraeth ar gyfer rolau IDVA.<sup>83</sup>

## Y materion allai camau'r llywodraeth fynd i'r afael â nhw

Rydym am gael gwybod a fyddai canllawiau ychwanegol neu ddiwygiedig ar gyfer y rolau eirioli hyn yn fanteisiol, ac a fyddai mesurau ychwanegol yn ymwneud â safonau ar gyfer y rolau eirioli proffesiynol yn cael effaith.

## Cwestiynau

**Cwestiwn 37:** Pa mor ddefnyddiol yw'r canllawiau presennol, a sut ellir cryfhau'r canllawiau hyn?

**Cwestiwn 38:** A oes angen mwy o weithredu i ddiffinio safonau ar gyfer ISVAs ac i sicrhau eu bod yn cael eu bodloni? Os oes, pwy sydd yn y sefyllfa orau i gymryd y cam hwn?

**Cwestiwn 39:** A oes angen mwy o weithredu i ddiffinio safonau ar gyfer IDVAs ac i sicrhau eu bod yn cael eu bodloni? Os oes, pwy sydd yn y sefyllfa orau i gymryd y cam hwn?

**Cwestiwn 40:** Beth yw manteision ac anfanteision y strwythurau presennol ar gyfer cymwysterau ac achredu? A oes unrhyw newidiadau a fyddai'n gallu eu gwella?

## Y cysylltiadau rhwng eiriolwyr ac asiantaethau eraill

### Y cefndir a'r sefyllfa bresennol

Mae angen i eiriolwyr weithio gyda nifer o asiantaethau, gan gynnwys yr heddlu, Gwasanaeth Eryl y Goron, GLITEM, a'r sectorau iechyd, tai, addysg, cyflogaeth a gofal cymdeithasol. Gall yr holl asiantaethau hyn chwarae rhan hollbwysig wrth gefnogi adferiad diodefwyr. Mae eiriolwyr wedi'u cydnabod am eu gwaith yn ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn rhoi diodefwyr ar ben ffordd a darparu eglurder fel bod diodefwyr yn gallu

<sup>83</sup> The end-to-end rape review report on findings and actions (Mehefin 2021), [https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/100147/end-to-end-rape-review-report-with-correction-slip.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/100147/end-to-end-rape-review-report-with-correction-slip.pdf)

canolbwyntio ar gamau pwysig at gyfiawnder ac ymadfer.<sup>84</sup> Mae'r hefyd yn darparu cydgysylltiad rhwng gwasanaethau i ddiodefwr a'r cymorth ehangach y gall unigolion ei dderbyn, yn enwedig unigolion sydd â nifer o anghenion. Pan fydd yr eiriolwr yn meithrin cysylltiadau cadarn â phartneriaid ar draws y gwahanol sectorau, bydd diodefwr yn teimlo eu bod yn cael gwell cymorth ac, os ydynt yn ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol, mae ganddynt fwy o allu i fwrw ymlaen â'u hachos.

Er hynny, gall eiriolwr wynebu rhwystrau wrth sefydlu cysylltiadau gwaith cadarn. Er enghraifft, mae tystiolaeth sy'n dangos bod angen cael gwell dealltwriaeth o rolau eiriolwr.<sup>85</sup> Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod un ym mhob pum gwasanaeth cam-drin domestig ac un ym mhob tri gwasanaeth trais rhywiol wedi'u hatal ar brydiau rhag cefnogi diodefwr yn y llys. Mae hyn yn awgrymu efallai y bydd angen cyfathrebu eu swyddogaethau'n well i staff y llys ac i'r farnwriaeth, er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol gyda IDVAs ac ISVAs.<sup>86</sup>

### **ASTUDIAETH ACHOS – SWYDDOGAETH HANFODOL IDVAs WRTH GEFNOGI DIODEFWYR**

Yn rhan o'r arolygiad thematig ar ymwneud yr heddlu â menywod a merched, mae canfyddiadau Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (HMICFRS) yn ategu beth mae rhanddeiliaid wedi'i ddweud wrthym yn barod am bwysigrwydd eiriolwr dros ddiodefwr, a'r rhan hanfodol y maent yn ei chwarae yn y system ehangach.

Cynhaliodd ymchwil profiad bywyd, lle dywedodd un diodefwr cam-drin domestig: "Roeddem yn dibynnu'n drwm ar [enw'r eiriolwr]. Mae wedi bod yn gyswllt ar gyfer pob dim, yr un oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni drwy'r amser, yn mynd ar ôl pethau, yn gwrando arnon ni. Dydw i ddim yn gwybod sut byddai neb yn ymdopi heb hynny.... Roedd yn brofiad anodd iawn i fynd drwyddo. Y cymorth gawson ni gan bobl eraill oedd yn ein cynnal, nid y cymorth gan yr heddlu."<sup>87</sup>

<sup>84</sup> Victim advocates: A rapid evidence assessment – Victims' Commissioner (Chwefror 2019), t.24 <https://victimscommissioner.org.uk/published-reviews/victim-advocates-a-rapid-evidence-assessment/>

<sup>85</sup> Kohli, R.K.S., et al., Evaluation of Independent Child Trafficking Advocates trial: final report, Home Office Research Report 86 (2015), t.6 [https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/486138/ictra-horr86.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/486138/ictra-horr86.pdf)

<sup>86</sup> Understanding court support for victims of domestic abuse - Safe Lives and Domestic Abuse Commissioner (Mehefin 2021), t.29, <https://safelives.org.uk/sites/default/files/resources/Court%20Support%20Mapping%20Report%20-%20DAC%20Office%20and%20SafeLives.pdf>

<sup>87</sup> HMICFRS, Police response to violence against women and girls: Final inspection report (2021), <https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmicfrs/publication-html/police-response-to-violence-against-women-and-girls-final-inspection-report/>

## Y materion allai camau'r llywodraeth fynd i'r afael â nhw

Ar hyn o bryd, nid oes rheidwydd ar asiantaethau i ymgysylltu ag eiriolwyr a chredwn y gallai'r diffyg ymgysylltu fod oherwydd nad yw gweithwyr proffesiynol eraill yn deall rôl yr eiriolwr yn llawn neu'n credu bod hyn y tu allan i'w cylch gwaith. Er bod arferion da ar waith mewn rhai manau, rydym yn pryderu nad yw'r rhain yn cael eu dilyn yn gyson ac y gall hyn gael effaith negyddol ar ddiodefwyr - gan beri ail drawma iddynt weithiau.

Rydym am ddeall sut y gallem fynd ati'n well i godi statws y rolau hyn a hyrwyddo gwell cydweithio rhwng eiriolwyr ac asiantaethau eraill.

## Cwestiynau

**Cwestiwn 41:** Sut y gallwn sicrhau bod yr holl asiantaethau y tu allan i'r system cyfiawnder troseddol (fel ysgolion, meddygon, gwasanaethau brys) yn ymwybodol o ddiodefwyr, a pha gymorth sydd ei angen ar yr asiantaethau hyn i ryngweithio'n effeithiol ag IDVAs, ISVAs neu wasanaethau cymorth eraill?

**Cwestiwn 42:** Pa rwystrau y mae ISVAs yn eu hwynebu sy'n atal gweithio effeithiol ar draws asiantaethau, a pha gamau y gallai'r Llywodraeth eu cymryd i fynd i'r afael â'r rhwystrau hyn?

**Cwestiwn 43:** Pa rwystrau y mae IDVAs yn eu hwynebu sy'n atal gweithio effeithiol ar draws asiantaethau, a pha gamau y gallai'r Llywodraeth eu cymryd i fynd i'r afael â'r rhwystrau hyn?

**Cwestiwn 44:** Pa rwystrau a wynebir gan wasanaethau arbenigol neu wasanaethau a ddarperir gan ddiodefwyr sy'n atal gweithio effeithiol ar draws asiantaethau a pha gamau allai'r Llywodraeth eu cymryd i fynd i'r afael â'r rhwystrau hyn?

## Eiriolwyr ar ran plant a phobl ifanc

### Y cefndir a'r sefyllfa bresennol

Mae plant a phobl ifanc yn dod yn fwyfwy agored i droseddau sydd wedi'u cuddio rhag y cyhoedd. Cam-drin domestig yw'r math mwyaf cyffredin o gam-drin y caiff plant eu cyfeirio at wasanaethau plant yn ei gylch, gydag un ym mhob saith (14%) o blant a phobl ifanc o dan 18 oed yn byw gyda cham-drin domestig ar ryw adeg yn ystod eu plentyndod.<sup>88</sup> Mae plant a phobl ifanc yn ymdopi â chyd-destun cymorth prysur a chymhleth, gan ddelio â llw

<sup>88</sup> Impact on children and young people – Womens Aid, <https://www.womensaid.org.uk/information-support/what-is-domestic-abuse/impact-on-children-and-young-people/>



o rolau cefnogi gwirfoddol, cyfreithiol a statudol, gan gynnwys gweithwyr gofal cymdeithasol plant, pob un ohonynt yn gweithio i helpu plant a phobl ifanc i ymadfer ac ail gydio mewn bywyd.

Er mwyn ymdrin ag anghenion penodol plant a phobl ifanc, mae nifer o rolau eiriolwyr wedi cael eu creu, yn cynnwys Cynghorwyr Trais Pobl Ifanc, Gwarcheidwaid Masnachu Plant Annibynnol, ISVAs Plant ac IDVAs Plant. Mae'r rolau hyn wedi'u datblygu i lai o raddau ac maent yn llai cyffredin na rolau eirioli dros oedolion. Yn ogystal â'r rolau hyn, efallai y bydd plant a phobl ifanc sy'n ddiodefwr yn y system cyfiawnder troseddol hefyd yn cael cynnig cefnogaeth Cyfryngwyr Cofrestredig a fydd yn cefnogi plant i ddarparu eu tystiolaeth orau yn y llys.

Er bod gan blant a phobl ifanc hawl i gael cymorth dan y Cod pan fyddant yn dioddef trosedd, gwyddom na fydd pob plentyn sydd angen cymorth yn cyrraedd y trothwy ar gyfer cymorth gan ofal cymdeithasol plant neu na fydd arnynt eisiau ymwneud â gwasanaethau statudol. Mae hyn yn gadael llawer o blant a phobl ifanc heb gymorth, sy'n golygu y gallant ddychwelyd i'r system yn ddiweddarach gyda phryderon risg uwch.

## Y materion allai camau'r llywodraeth fynd i'r afael â nhw

Mae'n hollbwysig sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael y cymorth priodol ar yr amser priodol, gan ein bod yn gwybod mai po fwyaf yw'r gofid y bydd plentyn yn ei wynebu, mwyaf tebygol yw hi y bydd yn profi effaith hirdymor, yn cynnwys y risg o gael niwed yn y dyfodol. Dyma pam mae cydweithio i gynorthwyo pobl ifanc sy'n ddiodefwr troseddu yn flaenoriaeth ar draws llywodraeth, ac yn ddull o weithredu sydd wedi'i adlewyrchu yn y maes am fod nifer o gyrrff ac asiantaethau yn cydgysylltu i geisio sicrhau'r amddiffyniad gorau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Rydym am ddysgu rhagor am y rolau presennol hyn, sut maent yn rhyngweithio â rolau sy'n canolbwyntio ar oedolion, a sut maent yn ymwneud ag asiantaethau eraill sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc.

## Cwestiynau

**Cwestiwn 45:** Rhowch sylwadau ar yr hyfforddiant sydd ei angen i gynorthwyo eiriolwyr ar gyfer plant a phobl ifanc. Ym mha ffordd y mae hyn yn wahanol i hyfforddiant i eiriolwyr dros oedolion, ac a oes rhwystrau yn bodoli rhag cael hyfforddiant o'r fath?

**Cwestiwn 46:** Pa rwystrau a geir i waith effeithiol gyda phlant a phobl ifanc yn y maes hwn, a pha gamau y gallai'r Llywodraeth eu cymryd i fynd i'r afael â'r rhain?

**Cwestiwn 47:** Pa arferion da a geir ar llwybrau atgyfeirio ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n ddiodefwyr troseddu wrth geisio cael cymorth eirioli, yn cynnwys rhyngweithio â gwasanaethau statudol? A oes rhwystrau sydd ar y llwybrau hyn?

**Cwestiwn 48:** A fyddai'n fuddiol egluro rolau a swyddogaethau eiriolwyr plant a phobl ifanc? Yn eich profiad chi, a yw'r rolau hyn yn eang neu a ydynt yn canolbwyntio ar fathau penodol o niwed neu fathau o droseddu y mae plant a phobl ifanc wedi'u profi?

# Ystyriaethau cydraddoldeb

Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 - dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus - yn mynnu bod gweinidogion yn rhoi sylw dyledus wrth arfer eu swyddogaethau i'r angen i wneud y canlynol:

- dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan neu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010;
- datblygu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig perthnasol a'r rheini nad ydynt yn eu rhannu;
- meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig perthnasol a'r rheini nad ydynt yn eu rhannu.

Dylid defnyddio dadansoddiad cydraddoldeb cymesur i ystyried effeithiau tebygol ar bobl sydd â nodweddion gwarchoddedig, sef anabledd, hil, rhyw, ailbennu rhywedd, oed, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas a phartneriaeth sifil.

Gwyddom fod modd i ni wneud rhagor i sicrhau bod yr holl ddiodefwyr yn cael cymorth o ansawdd da gan weithwyr proffesiynol ar draws y system. Mae ein cynigion wedi'u bwriadu i'w gwneud yn haws i'r holl ddiodefwyr hysbysu am drosedd, cael gafael ar gymorth a chymryd rhan yn y broses cyfiawnder troseddol.

Rydyn ni eisiau gwybod am effaith ein cynigion ar bobl sydd â nodweddion gwarchoddedig. Gallwch ddarllen rhagor am yr ystyriaethau o ran cydraddoldeb yn yr ymgynghoriad hwn yn y datganiad cydraddoldeb.

Byddwn yn darparu asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb llawn mewn ymateb i'r ymgynghoriad a byddwn yn ystyried effaith lawn cynigion polisi ar ddiodefwyr a grwpiau eraill yr effeithir arnynt (er enghraifft, troseddwr mewn perthynas â'r Gordal Ddiodefwyr).

## Cwestiwn

**Cwestiwn 49:** A ydym wedi nodi'n gywir beth fydd graddau a gwahanol fathau'r effeithiau ar gydraddoldeb o dan yr ymgynghoriad hwn yn y datganiad cydraddoldeb? Rhwng resymau a darparwch dystiolaeth am effeithiau ychwanegol ar gydraddoldeb sydd heb eu trafod, fel y bo'n briodol.

# **Atodiad A – Asiantaethau sydd â chyfrifoldebau i ddarparu gwasanaethau o dan y Cod Dioddefwyr**

Mae'n ofynnol i'r sefydliadau canlynol ddarparu'r Cod:

- Comisiynwyr Heddlu a Throsedd
- pob heddlu yng Nghymru a Lloegr, Heddlu Trafnidiaeth Prydain a Heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn
- unedau gofal tystion yr heddlu
- Gwasanaeth Erlyn y Goron
- Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi
- Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi
- y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
- Bwrdd Parôl Cymru a Lloegr
- Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol
- yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol
- Goruchaf Lys y DU
- y tîm troseddau ieuenctid

O dan y Cod, bydd rhai diodefwr yn derbyn gwasanaeth drwy gyfuniad o'r darparwyr gwasanaethau sydd wedi'u rhestru uchod a darparwyr gwasanaethau eraill yn cynnwys:

- yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd
- yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (Gorfodaeth Droseddol)
- Asiantaeth yr Amgylchedd
- yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol
- y Comisiwn Hapchwarae
- yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
- Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi
- y Swyddfa Gartref (Gorfodaeth Mewnffudo)
- Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
- Swyddfa Annibynnol dros Ymddygiad yr Heddlu
- Asiantaeth Trosedd Cenedlaethol
- y Gwasanaeth Iechyd Gwladol
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- y Swyddfa Ffyrdd a Rheilffyrdd
- y Swyddfa Twyll Difrifol

**Diolch i chi am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn.**

# Gwybodaeth amdanoch chi

Defnyddiwch yr adran hon i gyflwyno gwybodaeth amdanoch chi.

Os nad ydych chi'n teimlo'n gyfforddus yn ateb y cwestiynau hyn, mae croeso i chi eu gadael yn wag.

<b>Enw llawn</b>	
<b>Teitl swydd</b> neu ym mha rinwedd rydych yn ymateb i'r ymgynghoriad hwn (ee, aelod o'r cyhoedd)	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Academyddion</li> <li>• Cymdeithasau</li> <li>• Gweithiwr iechyd neu ofal cymdeithasol</li> <li>• Ymarferwyr cyfiawnder troseddol</li> <li>• Asiantaethau/adrannau'r llywodraeth</li> <li>• Aelod o'r cyhoedd</li> <li>• Cymdeithas Comisiynwyr Heddlu a Throseddu</li> <li>• Heddluoedd</li> <li>• Cyrff a mudiadau gwirfoddol <ul style="list-style-type: none"> <li>• Os ydych chi, sut yw'r ffordd orau o ddisgrifio eich mudiad (e.e. cenedlaethol, lleol, cymunedol, gan ac ar gyfer)?</li> </ul> </li> <li>• Eiriolwr Dioddefwyr</li> <li>• Arall</li> </ul>
Os ydych chi'n ymateb i'r ymgynghoriad hwn fel aelod o'r cyhoedd, ydych chi erioed wedi dioddef trosedd?	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Do</li> <li>• Naddo</li> </ul>
<b>Dyddiad</b>	
<b>Rhywedd</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwryw</li> <li>• Benyw</li> </ul>
<b>A yw'r rhyw rydych chi'n uniaethu ag ef yr un fath â'r rhyw a gafodd ei bennu i chi adeg eich geni?</b>  Mae'r cwestiwn hwn yn wirfoddol, felly gallwch ei adael yn wag os dymunwch.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ydy</li> <li>• Nac ydy</li> <li>• Os ydych chi wedi ateb "Nac ydy", nodwch y term rydych chi'n ei ddefnyddio i ddisgrifio eich rhywedd. Mae hwn hefyd yn wirfoddol, felly gallwch ei adael yn wag os dymunwch.</li> </ul>

<p><b>Ym mha ran o'r Deyrnas Unedig ydych chi?</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gogledd-ddwyrain Lloegr</li> <li>• Gogledd-orllewin Lloegr</li> <li>• Swydd Efrog/Glannau Humber</li> <li>• Dwyrain Canolbarth Lloegr</li> <li>• Gorllewin Canolbarth Lloegr</li> <li>• Cymru</li> <li>• East Anglia</li> <li>• De-ddwyrain Lloegr</li> <li>• De-orllewin Lloegr</li> <li>• Llundain Fwyaf</li> <li>• Yr Alban</li> <li>• Gogledd Iwerddon</li> <li>• Arall (rhowch fanylion)</li> <li>• Mae'n well gennyf beidio â dweud</li> </ul>
<p><b>Oedran</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dan 18</li> <li>• 18-24</li> <li>• 25-34</li> <li>• 35-44</li> <li>• 45-54</li> <li>• 55-64</li> <li>• 65 a hŷn</li> <li>• Mae'n well gennyf beidio â dweud</li> </ul>
<p><b>Ethnigrwydd</b></p>	<p><b>Gwyn</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cymreig, Seisnig, Albanaidd, Gwyddelig Gogledd Iwerddon neu Brydeinig</li> <li>• Gwyddelig</li> <li>• Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig</li> <li>• Unrhyw gefndir Gwyn arall</li> </ul> <p><b>Grwpiau cymysg neu aml-ethnig</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwyn a Du Caribiaidd</li> <li>• Gwyn a Du Affricanaidd</li> <li>• Gwyn ac Asiaidd</li> <li>• Unrhyw gefndir cymysg neu aml-ethnig arall</li> </ul> <p><b>Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Indiaidd</li> <li>• Pacistanaidd</li> <li>• Bangladeshaidd</li> <li>• Tsieineaidd</li> <li>• Unrhyw gefndir Asiaidd arall</li> </ul>

	<p><b>Du, Affricanaidd, Caribiaidd neu Ddu Prydeinig</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Affricanaidd</li> <li>• Caribiaidd</li> <li>• Unrhyw gefndir Du, Affricanaidd neu Garibiaidd arall</li> </ul> <p><b>Grŵp ethnig arall</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Arabaidd</li> <li>• Unrhyw grŵp ethnig arall</li> <li>• Mae'n well gennyf beidio â dweud</li> </ul>
<b>Ydych chi'n rhan o grŵp crefyddol?</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dim crefydd</li> <li>• Cristion</li> <li>• Bwdhydd</li> <li>• Hindŵ</li> <li>• Iddew</li> <li>• Mwslim</li> <li>• Sikh</li> <li>• Unrhyw grefydd arall</li> <li>• Mae'n well gennyf beidio â dweud</li> </ul>
<b>Sut byddech chi'n disgrifio eich cyfeiriadedd rhywiol?</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Heterorywiol neu strêr</li> <li>• Hoyw neu lesbiaidd</li> <li>• Deurywiol</li> <li>• Arall</li> <li>• Ddim yn gwybod / mae'n well gennyf beidio â dweud</li> </ul>
<b>Oes gennych chi anabledd?</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Oes</li> <li>• Nac oes</li> </ul>
<b>Ydych chi'n briod neu mewn partneriaeth sifil?</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ydw</li> <li>• Nac ydw</li> </ul>
<b>Enw cwmni/sefydliad (os yw'n berthnasol):</b>	
Os hoffech chi i ni gydnabod ein bod wedi derbyn eich ymateb, ticiwch y blwch hwn	<input type="checkbox"/> (Ticiwch y blwch)

I ba gyfeiriad y dylid anfon y gydnabyddiaeth, os yw'n wahanol i'r uchod	

**Os ydych chi'n cynrychioli grŵp**, rhowch enw'r grŵp hwnnw i ni, os gwelwch yn dda, gyda disgrifiad cryno o'r bobl neu'r mudiadau rydych yn eu cynrychioli.

---

---

---

---



# Manylion cyswllt/Sut i ymateb

Anfonwch eich ymateb erbyn 3 Chwefror 2022 at:

**Victim and Witness Policy and Strategy Team**

Ministry of Justice

Family and Criminal Justice Policy Directorate

102 Petty France

London SW1H 9AJ

**E-bost:** [victimsbillconsultation@justice.gov.uk](mailto:victimsbillconsultation@justice.gov.uk)

## Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych chi unrhyw gwynion neu sylwadau ynghylch y broses ymgynghori, dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gan ddefnyddio'r cyfeiriad uchod.

## Copïau ychwanegol

Gellir cael copïau papur ychwanegol o'r ymgynghoriad hwn o'r cyfeiriad hwn ac mae hefyd ar gael ar-lein yn <https://consult.justice.gov.uk/>

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael mewn fformatau eraill drwy wneud cais i [victimsbillconsultation@justice.gov.uk](mailto:victimsbillconsultation@justice.gov.uk)

## Cyhoeddi ymateb

Cyhoeddir papur yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn maes o law. Bydd y papur ymateb ar gael ar-lein yn <https://consult.justice.gov.uk/>

## Grwpiau cynrychiadol

Gofynnir i grwpiau cynrychiadol roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli wrth ymateb.

## Cyfrinachedd

Mae'n bosibl y cyhoeddir neu y datgelir gwybodaeth a roddir wrth ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn unol â'r trefniadau mynediad at wybodaeth. Y rhain ydy, yn bennaf, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2018, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.

Os ydych chi am i'r wybodaeth a ddarperir gennych gael ei chadw'n gyfrinachol, rhaid i ni eich atgoffa bod y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn cynnwys Cod Ymarfer statudol y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef sy'n ymwneud, ymhlith pethau eraill, ag ymrwymïadau cyfrinachedd. Oherwydd hyn, byddai'n fuddiol pe gallech esbonio wrthym pam eich bod yn credu bod yr wybodaeth a ddarparwyd gennych yn gyfrinachol. Os ydym yn derbyn cais i ddatgelu'r wybodaeth, rhoddwn ystyriaeth lawn i'ch esboniad, ond ni allwn addo y gellir cynnal cyfrinachedd dan bob amgylchiad. Ni ystyrir ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhrychir gan eich system TG chi, ynddo'i hun, yn un sy'n rhwymo'r Weinyddiaeth.

Bydd y Weinyddiaeth yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data, a gan amlaf, bydd hyn yn golygu na chaiff eich data personol eu datgelu i drydydd partïon.

# Egwyddorion ymgynghori

Mae'r egwyddorion a ddylai gael eu mabwysiadu gan adrannau llywodraeth a chyrrff cyhoeddus eraill ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth wedi cael eu hamlinellu yn Egwyddorion Ymgynghori Swyddfa'r Cabinet 2018, sydd ar gael yma:

[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/691383/Consultation\\_Principles\\_\\_1\\_.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/691383/Consultation_Principles__1_.pdf)

E02673715

978-1-5286-3016-0